

www.kimkat.org – Gwefan Cymru a Chatalonia / El web de Gal·es i Catalunya / The Wales-Catalonia Website

https://kimkat.org/amryw/1_enwau/enwau_cyfenwau_cymru_morus_glaslyn_1892_tabernacl_FDC-PDF_3687e.pdf

Cyfenwau Cymreig.

Gan Mr. T. E. Morris, Ll. M., B. A. (Morus Glaslyn).

(Cyfres o erthyglau yn y Geninen, 1892-1900)



Y mae fersiwn ar ffurf testun electronaidd yn y fan hyn:

https://kimkat.org/amryw/1_enwau/enwau_cyfenwau_cymru_morus_glaslyn_1892_tabernacl_0476e.htm

1 HANES CYFENWAU CYMREIG / = The History of Welsh Surnames

Y Geninen. Cyf X. Rhif 3. Gorffennaf 1892. pp 77-81

Y Geninen. Cyf XI. Rhif 2. Ebrill 1893. pp 126-127

2 CYFENWAU CYMREIG YNG NGHYMRU / = Welsh Surnames in Wales

Y Geninen. Cyf XI. Rhif 2. Ebrill 1893. pp 127-128

3 CYFENWAU CYMREIG YNG LLOEGR / = Welsh Surnames in England
Y Geninen. Cyf XI. Rhif 3. Gorffennaf 1893. Tudalennau 154-155

4 CYFENWAU NORMANAIDD, &C., CYMRU / = Norman Surnames, etc: Wales
Y Geninen. Cyf XVI. Rhif 2. Ebrill 1898. Tudalennau 89-95
Y Geninen. Cyf XVI. Rhif 3. Gorffennaf 1898. Tudalennau 187-194

5 CYFENWAU BEIBLAIDD CYMRU / = Biblical Surnames in Wales
Y Geninen. Cyf XVII. Rhif 3. Gorffennaf 1899. Tudalennau 173-176
Y Geninen. Cyf XVII. Rhif 4. Hydref 1899. Tudalennau 266-269
Y Geninen. Cyf XVIII. Rhif 4. Hydref 1900. Tudalennau 166-169
Y Geninen. Cyf XVIII. Rhif 4. Hydref 1900. Tudalennau 274-275

CYFENWAU CYMREIG.

(Papyr a ddarllenwyd gerbron Cymdeithas Lenyddol y Tabernacl, King's Cross, Llundain, Mawrth 5ed, 1892).

I. HANES CYFENWAU CYMREIG.

GOFYNA un o gymeriadau Shakespeare, "Beth sydd mewn enw?" ac er fod llawer o drafod ac ysgrifenu wedi bod ar y pwnc er ei amser ef, credwn nad ydym hyd yn hyn wedi deall pwysigrwydd a phriodoldeb enwau pan eu cysylltir â phersonau. Gallwn ddweyd am Gyfenwau Cymreig, hyny yw, am enwau teuluoedd Cymru, eu bod yn hynod o ddyddorol: ac er mai ychydig mewn cydmariaeth i rif y boblogaeth yw rhif ein cyfenwau, eto, y mae iddynt hanes a ddylasai fod yn adnabyddus i'r sawl sydd yn eu gwisgo; ac yn sicr i chwi, y mae eu hanes yn llawn mor ddyddorol ac addysgiadol a'r eiddo cyfenwau unrhyw wlad.

Wel, naturiol fyddai i chwi ddefnyddio iaith y bardd anfarwol a gofyn, "Beth sydd mewn enw" pan ei cysylltir â pherson? Attebwn trwy ddweyd mai amcan enw yw neillduoli unrhyw berson unigol fel y gellir ei adnabod ar wahan i rywun arall; ac, yn rhellach, fod dewisiad enwau a roddid ar y cyntaf wedi codi oddiwrth ryw neillduolrwydd neu rinwedd personol, megis:—Abraham, "tad y lliaws;" Jacob, "disodlwr;" Phillip, "hoffwr ceffylau;" Paul, "bychan;" Francis, "rhydd;" Henry, "llywodraethwr cartrefol," neu "home ruler;" Walter, "rhyfelwr nerthol;" Humphrey, "cynhaliwr heddweh;" Arthur, "uchel;" Cadwaladr, "trefnwr rhyfel;" Hywel, "amlwg;" &c.: oddiwrth ryw amgylchiadau cysylltiedig â'r enedigaeith, megis:—Thomas, "gefell;" Isaac, "chwerthin;" Jabez, 1 Chron. iv. 9, "Oblegid i mi ei ddwyn of trwy ofid;" &c.: neu ynte eu bod yn gyfeiriedig at ryw gymhwysderau neu rinweddau y gobeithiai y rhieni a ddadblygid yn nghymeriadau eu plant, megis:—Absalom, "tad tangnefedd;" Gilbert, "ernes ddisglaer;" Lewis, "duwioldeb hynod;" Rowland, "enwogrwydd y tir;" &c.: neu eto, rhoddid enwau er amlygu teimlad o ddiolchgarwch, llawenydd, boddhad, ofn, neu bruddder a feddianai y rhieni ar y pryd, megis:—John, "gras Duw;" Jonathan, Nathaniel, Theodore, a Tudur, "rhodd Duw;" Matthias a Matthew, "rhodd i'r Arglwydd;" Michael, "pwy sydd debyg i Dduw;" Joshua, "iachawdwriaeth yw yr Arglwydd;" &c.: neu codasant oddiwrth ddigwyddiadau cartrefol, megis:—Nicholas, "buddugoliaeth y bobl;" &c. Rhoddid enwau am amrai resymau eraill: yn wir, gellir dweud am yr enw fel am ei berchen, mai creadur amgylchiadau a digwyddiadau ydyw. Gwelir felly fod llawer mewn enw, ac mai ar ddwyllaw y rhieni y gorphwysai, fel y gorphwys eto, y cyfrifoldeb o beri ei fod yn synwrol a chymradwy. Pe cyfieithid yr enwau Hebraeg, Groeg, Lladin, Allmanaeg (*Teutonic*), a'r Ffrancaeg, sydd mor gyffredin yn Nghymru, a phe'n gelwid ni wrth yr enwau cyfieithiedig hyny, buasai rhyw deimladau pur ysmala a chymysglyd yn ein meddianu, a buan y gwelid pa mor aramhriodol yw llawer enw arferedig yn ein plith. Ond gan mai enwau ydyw y cadwynau cryfion sydd yn cysylltu cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth mewn teuluoedd, ac i raddau pell yn cadw eu traddodiadau i fyny, nid ydym yn debygol o ollwng ein gafael o hen enwau y Beibl, ynghyd a'r enwau tramorol eraill sydd yn ein plith, modd bynag, fel enwau bedydd neu Gristionogol; er y buasai yn fanteisiol iawn i ni, ac yn ddiddadl yn gymmwynas genhedlaethol, pe y chwythid mwyafrif o'r cyfenwau hyn i'r pedwar gwynt, gan wneyd defnydd o'r miloedd enwau amrywiol a gwir Gymreig, sydd i'w cael, yn eu lle.

Yn ysg cenhedloedd hynaf y byd, megis yr Aiphtiaid, yr Hebraeid, y Persiaid, y Groegiaid a'r Rhufeiniaid cyntefig, yr "hen" Gymry a'r Sacsoniaid, nid oedd ddim yn arferiad i roddi mwy nag un enw ar unrhyw berson; ac fel rheol byddai yr enw hwnw yn un newydd: ond fel yr oedd y genedl yn cynnyddu, elai yr enwau neillduol hyn yn fwy cyffredinol, gan beri y byddai yn angenrheidiol, er mwyn gwahaniaethu y naill berson oddiwrth y llall, i ychwanegu rhyw air neu fraidddeg eglurhaol: felly darllenwn am Joshua fab Nun; Jether yr Ishmaeliad; Ican Fedyddiwr; Joseph o Arimathea; Alexander y gof copr; Phillip o Macedon; Pliny yr Hynaf; Edward y Confeswr; Hywel Dda; Iorwerth Drwyndwn; Dafydd Nanmor; Blaidd Rhudd; &c. Parhaodd yr arferiad hwn am ganrifoedd wedi genedigaeth Crist, ac, i raddau, trwy y Canol Oesau. Ni ddefnyddid cyfenwau yn Lloegr o gwbl hyd amser Gwilym y Gorchfygwr. Efe a'r Normaniaid a'u cychwynodd yn y wlad hon, a bu gwerin Lloegr yn hir cyn eu mabwysiadu. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oeddynt, er hyny, yn bur gyffredinol; eto ceid eithriadau: er engrapht,

J6326

dywed y Parch. Mark Noble nad oedd gan amryw o deuluoedd yn Sir Gaer Efrog (Yorkshire) gyfenwau hyd ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg.

Cyn myned yn mhellach buddiol efallai fyddai egluro beth a olygir wrth gyfenw. Dyna ddywed Dr. Johnson ydyw:—"Enw teulu, neu enw a fo gan unrhyw un yn ychwanegol at ei enw bedydd." Ond nid yw hyn yn ddigon: rhaid ychwanegu fod yr enw teuluaid yn un parhaol a digyfnewid, a'i fod bob amser yn ddiweddfaf yn yr enw cyflawn, ac hefyd ei fod yn disgyn o'r tad i'r mab, ac felly o genhedlaeth i genhedlaeth.

Yn ddiddadl yr ydym yn ddyledus am y cyfenw sefydlog yma i'r Rhufeiniaid. Gwisgai y Rhufeinwr dri enw, ac yn aml bedwar neu bump. Y cyntaf o'r tri oedd y *praenomen* neu y cyn-enw, yn cyfateb i'r enw bedydd gyda ni; megis, *Agricola*, *Julius*, &c. Yr ail oedd y *nomen* neu yr enw; a dangosai hwnw y tylwyth y perthynai y Rhufeinwr iddo. Y trydydd, sef y *cognomen* neu y cyfenw, a fynegai y gangen neillduol o'r tylwyth y perthynai iddo; er engraipht, cymmerwn enw y Rhufeinwr adnabyddus *Publius Cornelius Scipio*. Yr oedd *Publius* yn cyfateb i'r enw bedydd, megis, *John*, *William*, &c. *Cornelius* oedd enw y tylwyth, ac yn cyfateb i *dan* yr Albanwyr; a *Scipio* a olygai enw y teulu.

Nid yw yn ymddangos fod yr hen Gymry wedi mabwysiadu yr arferiad Rhufeinaidd parthed cyfenwau, er i'w gwlad fod yn meddiant y Rhufeiniaid am ryw dri chan mlynedd. Gyda golwg ar genhedloedd Cyfandir Ewrop, pa rai fuont am ganrifoedd dan ymherodraeth Rhufain, dylanwadodd yr arferiad arnynt hwy; eto, mewn rhan, ffurf wahanol a fabwysiadwyd. Cawn y Normaniaid yn cymeryd eu cyfenwau oddiwrth eu cartrefleoedd, neu eu pentrefi, ac oddiwrth alwedigaethau eu penau teuluoedd. Dilynwyd eu hesiampl yn ddiweddarach gan y Saeson, ac ehangwyd cylch y cyfenwau, fel nad oes terfyn yn awr ar amrywiaeth a natur cyfenwau Seisnig. Ond nid oes genym amser i ymwneud â chyfenwau gwledydd eraill; rhaid i ni ddychwelyd gartref, a cheisio cymeryd cipdrem ar hanes Cyfenwau Cymreig.

Dechreuodd enwau yn Nghymru yn yr un modd a gwledydd eraill. Rhoddid enwau, megis *Cadwaladr*, *Llewelyn*, *Meredydd*, *Hywel*, *Illtyd*, *Ceridwen*, *Gwladus*, *Trawst*, &c., ar bersonau a phlant, am resymau neillduol; ac, yn ddiau, ychwanegwyd enwau newydd o oes i oes. Daeth yr hen enwau unigol hyn yn bur gyffredin mewn amser, oherwydd poblogrwydd ac urddas y sawl oedd yn eu dwyn; a bu yn rhaid neillduoli y person yn mhellach. Nid oedd *Rhys*, *Owain*, *Hywel*, &c., yn ddigon eglur: siaredid am *Rhys Gryg*, *Rhys ap Tewdwr*, a *Rhys Goch o Eryri*; am *Owain Glyndwr* ac *Owain Gwynedd*; am *Hywel Dda* a *Hywel ap Dafydd Dew*, &c. Gwelwch mai nid cyfenwau, fel y deallir hynny genym ni yn awr, ydoedd y rhai hyn; er bod rhai o honynt yn disgyn o'r tad i'r mab, megis:—*Hywel ap Dafydd Dew*, *Thomas ap Rhys Goch*, *Dafydd ap Hywel Goch*, &c. Cawn weled eto y modd y dylanwadodd yr enwau eglurhaol hyn ar ffurfiau cyfenwau, pan y mabwysiadwyd y cyfryw gan y Cymry.

Daeth yn arferiad tua chanol y 15fed ganrif, yn mysg pendefigion Cymru ac yn ddilynol yn mysg y werin, i helaethu yr enw, fel ag yr oedd ynddo ei hun yn cynnwys achau ei berchen hyd bodair a phump, i.e. ac ambell waith, naw neu ddeg, o genhedlaethau. Er engraipht, yn mysg uchel siryddion Mon cawn *John ap Rhys ap Llewelyn ap Halkyn* yn y flwyddyn 1543, a *David ap Richard ap David ap Gwillim* yn 1567. Cawn *Richard ap David ap Hugh Ieuan ap Geffrey* yn aelod seneddol dros Fon yn 1541. Cawn *Einion ap Griffith ap Llewelyn ap Kenric* yn uchel sirydd *Meirionydd* yn amser *Rhisiart yr Ail*, brenhin Lloegr; a *John ap Hugh ap Richard o Bodwrdda* yn uchel sirydd *Caernarfon* yn y flwyddyn 1585. Cawn *Morris ap Howell ap Morris* yn faer *Caerswa* yn 1584, a *Cadwaladr ap David ap John ap Hugh ap Morris* yn faili *Llanfyllin* yn 1582, a *Morris ap Ieuan ap Dafydd ap Hywel o Lanwnog* yn ustus yn *Maldwyn* yn 1585. Dyna ddull yr enwau yn gyffredinol trwy Gymru am rai canrifoedd; a glynid wrth yr arferiad hyd amser y *Sioriaid*, brenhinoedd Lloegr, gan bobl gyffredin Cymru. Cawn *Shon Rhydderch*, y crydd, y bardd, a'r pregethwr *Annibynol o sir Aberteifi*, yn canu yn y ganrif ddiweddfaf i'w gyfaill fel hyn:—

"Siencin ger min y môr,
Ab Thomas ar bob tymor,
Ab Morgan dan gyfan go',
Ab Rhydderch draserch drwsio,

Ab Dafydd ab Gruffydd graff,
Nôd digrif, ac nid digraff,
Sy'n rhoddi i Shôn Rhydderch
Arwyddion, drwy swynion serch."

Gwawdiai y Saeson yn ddychrynllyd yr arferiad yma o gario yr achau teuluaid mewn enw; ac yn wir nid heb reswn digonol y gwnaent hyny. Yr

J6327

(delwedd J6327) (Gorffennaf 1892) (tudalen 78)

oedd yn arferiad anghyfleus, beth bynag ellid ddweyd am ei defnyddioldeb. Y mae Andrew Borde, yn ei *Boke of Knowledge*, yn gwneyd y Cymro i ddweyd:—

"I am a gentleman, and come of Brutus' blood;
My name is Ap Ryce, Ap Davy, Ap Flood."

Diniwed ydyw y ddwy linell yma o'u cydmaru â llinellau rhyw wag o Sais arall oedd yn awyddus i gymeryd y dull Cymreig yn ysgafn. Dywedai am gaws ei fod yn

"Adam's own cousin—german by its birth,
Ap-Curds-ap-Milk-ap-Cow-ap-Grass-ap-Earth."

A thrachefn cawn Syr Walter Scott, yn *Ivanhoe*, yn cyfeirio at yr enwau hir yma, sef yn nghân Wamba, "Y weddw o Wycombe."

"The next that came forth swore by blood
and by nails,
Merrily sang the roundelay;
Hur's a gentleman, God wot, and hur's
lineage was of Wales, [him nay?
And where was the widow might say

Sir David ap Morgan ap Griffith ap Hugh
Ap Tudor ap Rhice, queth his roundelay;
She said that one widow for so many was
too few,
And she bade the Welshman wend his
way."

Yr ydych yn gwybod am yr hanesyn hwnw am ryw Sais yn teithio ar geffyl dros un o fynyddoedd Cymru ar aeson dywyll. Wedi myn'd ychydig yn mlaen clywai lais rhywun yn llefain â'i holl egni am gynnorthwy; a thybiai mai o waelod rhyw bwl yn ymyl y ffordd y codai y llais. Aeth hyd yno gan floeddio rhywbeth yn Saesneg; atebwyd ef gydag acen wir Gymreigaidd, "*Help, master, help.*" "*Help! what, who are you?*" meddai y teithiwr. "*Jenkin-ap-Griffith-ap-Robin-ap-William-ap-Rhys-ap-Evan,*" oedd yr atebiad. O'i gyfieithu i'r Gymraeg, meddai y Sais, gan ar yr un pryd sparduno ei farch—"*Y creaduriaid diog, pa reswm sydd i haner dwsin ohonoch orfeddian yn y pwll yma! y ffyliaid gwirion, helped y naill godi'r llall!*"

Hefyd y mae gan awdwr y chwareugerdd, "*Sir John Oldcastle,*" a argraffwyd yn 1600, gyfeiriad doniol ond yn llawn o falais at y Cymro a'i enw hir. Y mae yr *interlude* yn dechreu gyda ffrae yn heolydd Henffordd, rhwng yr Arglwyddi Powys ac Herbert a'u dilynwyd. Nid yn hir y bu cyn i'r torfyr gynyddu, ac i'r maer a'r uchel sirydd ddod i gadw yr heddwech. Er mwyn cadw ei feistr o'r ddalfa, y mae Dafydd, gwas flyddlawn un o'r arglwyddi, yn cynyg cael meichiafon drosto. Ar hyn, wele farnwr y brawdlys yn dod heibio; a phan ddeallodd yr helbul, gofynodd, "*Pwy ydych chi meichiafon?*" Atebodd Dafydd, "*Hur cozen ap Rice ap Evan ap Morice ap Morgan ap Llewelyn ap Madoc ap Meredith ap Griffith ap Davy ap Shenkin ap Thomas.*" Credai y barnwr fod y ddau gyfoethocaf yn ddigon; ond cyn iddo allu dweyd dim yn rhagor, torodd yr uchel sirydd ar ei draws a dywedodd, "*Gyda'ch cenad, fy arglwyddiaeth, nid yw y rhai hyn oll ond un.*"

Gwrthwynebai Harri'r VIII. yr arferiad Gymreig â'i holl egni. Teimlai ddyddordeb nid ychydig yn Nghymru ac yn ei hanes, am ei fod yn Gymro ei hunan. Yr oedd ei dad (Harri'r VII.) wedi anfon comisiwn, &c., i Gymru i ymofyn ac archwilio i mewn i'w achau, a thrwy hyn daeth yn gyfarwydd â'r dull yr ydym wedi bod yn cyfeirio ato. Rhoddodd orchymyn i'w holl swyddogion yn Nghymru i wrthwynebu yr arferiad hyd yr eithaf, ac i geisio perswadio y bendefigaeth i ddefnyddio cyfenwau parhaol yn ol dull y Saeson, trwy gymeryd enw eu cartref fel cyfenw. Cawn Rolant Lee, Esgob Lichfield, ac Arglwydd Flaenor Cymru, yn cynghori Thomas-ap-Richard-ap-Howel, &c., penaeth teulu Mostyn, i fabwysiadu Mostyn, sef enw ei brif balasdy yn Sir Fflint, fel cyfenw. Dywedir i'r esgob ofyn iddo paham nas gallai fod yn foddolawn ar un enw, "*fel Oristion;*" aciddo yntau weled ei gyfeithornad dirfawr o wisgo enw hir, a derbyn cynghor yr Arglwydd Flaenor yn garedig. Dilynwyd ei esiampl gan rai o brif deuluoedd Gogledd Cymru,—yr oeddynt wedi dechreu yn barod yn y Deheudir; a galwasant eu hunain ar ol eu cartrefi.

Cawn Thomas Mostyn o Postyn yn arglwydd raglaw Sir Gaernarfon o 1596 hyd 1642; a gwelwn enwau John Bodvel o Fodvel, a Thomas Madryn o Fadryn, yn mysg arglwyddi rhaglafiaid Mon. Ymddengys enwau John Conway o Gonwy, a Hugh Nanney o Nannau, yn mysg uchel siryddion Meirionnydd; a chawn John Bodychan o Fodychan yn uchel sirydd yn Mon yn 1624. Gwelwn yn mysg uchel siryddion Caernarfon yr enwau William Glynn o Glynllifon, Thomas Madryn o Fadryn, John Gwynne Bodvel o Fodvel, Robert Wynne Brynkir o Frynkir, Edward Carreg o Garreg, Hugh Bodwrdda o Fodwrdda, &c. Cawn Thomas Tanat o Abertanat, a William Penrhyn a Thomas Kerry,

J6328

(delwedd J6328) (Gorffennaf 1892) (tudalen 79)

yn mysg uchel siryddion Maldwyn. Cawn Griffith Bodwrdda yn cynnrychioli Sir Fon yn y Senedd yn 1660; a gwelwn enwau tri yn dwyn y cyfenw Bodwrdda yn mysg myfyrwyr Prif Athrofa Rhydychain rhwng y blynyddoedd 1589 a 1609. Cawn John Vaune o'r Van yn Morganwg, a'r Uchel-Gadben Laughorn, o Laughorne, mae'n debygol, yn mysg enwau mewn deiseb a arwyddwyd o'r Bontfaen yn 1647. Cawn Morgan Conway, abadwr mynachdy Ynys Enlli, a Dafydd Gwynedd o Ddinbych-y-pysgod, gyda'r pererinion yn Rhufain yn 1506.

Nid ydym am ychwanegu rhagor o enwau: yr ydych wedi deall pa mor gyffredinol yr oedd yr arferiad newydd yma wedi meddianu y bendeisgaeth: ond yn anfodus nid yn hir y bu mewn bri; daeth yr hen deimlad ceidwadol Cymreig i edrych ar yr arferiad fel peth gwrthun, a dychwelodd rhai o'r teulu-oedd yn ol i'r hen ddull Cymreig, ond mewn ffurf arall: nid John ap Morris ap Robert ap Hywel mwyach, ond John ap Morris. Tra bu y cyfnewidiad yma yn cymeryd lle, yr oedd boneddigion eraill Cymru yn araf yn cymeryd at y dull Seisnig—yn rhoddi heibio yr *ab* a'r *ap* (os nad oeddynt wedi eu corphori yn eu henwau yn barod, megis, Bowen, Bevan, Pugh, Parry, &c.), ac yn mabwysiadu fel cyfenw parhaol un ai enw eu tad neu enw eu taid. Cawn William Johnes (neu fel yr ychwanegir Jones) o Gastellmarch yn aelod dros Fon yn 1597, a Lewis Owen o Ddolgellau yn aelod dros Feirionydd yn 1559. Nid ydym yn deall fod gwerin Cymru wedi mabwysiadu y dull Seisnig mewn unrhyw ffurf o gwbl hyd ddiwedd y ganrif ddiweddaraf, a hyny yn unig yn yr ardaloedd ag oedd o dan ddylanwad Seisnig. Ni ddaeth cyfenwau parhaol yn gyffredin yn Nghymru hyd yn ddiweddar iawn, sef yn ystod y trigain neu ddeg a thrigain mlynedd diweddaraf. Yn wir y mae yn amheus a yw yr hen arferiad Gymreig o alw y plentyn ar ol ei dad, ei daid, neu ei fam, wedi cwbl ddiffannu o'n plith. Yr oedd cynghaws o Lanllyfni yn Arfon yn un o lysoedd Llundain fis Hydref diweddaraf; a dywedai un o'r tystion na wyddai yn iawn beth oedd ei enw. Gelwid ef gan rai yn Harry Evans, gan ereill yn Henry Thomas, a thrachefn yn Henry Thomas Evans. Dywedai ei fod mewn tipyn o benbleth, ac nis gallai benderfynu na dweyd beth oedd ei wir enw.

Yr ydym wedi cyfeirio at y dull Cymreig; eglurwn y dull yma yn helaethach. Y mae yn ymddangos mai y rheol gyffredin oedd ychwanegu at enw y mab enw ei dad: megis, Thomas ab Evan, neu, yn ddiweddarach, y ffurf syml Thomas Evan. Pe byddai gan Thomas fab o'r enw William, gelwid ef yn William Thomas, ac nid William Evan, neu William Evans yn ol yr arferiad bresennol, sef y dull Seisnig. Gwelwch felly, ar unwaith, sut y daeth y brawd Harry Evans i fod mewn cymmaint o drafferth oherwydd ei enw. Thomas Evan y gelwid ei dad, ac ar ol y dull Seisnig byddai yn Henry Evans; yn ol y dull Cymreig yn Henry Thomas, neu Henry Thomas Evans, hyny yw, Harry mab Thomas Evans. Y mae yr arferiad yma yn esbonio pa fodd y cododd yr holl gyfenwau Jones, Roberts, Williams, &c., yn Nghymru. Defnyddid fel cyfenw, enw bedydd y tad neu y fam, megis Rhisiart Hwnffra neu Richard Humphreys, a Shôn Phebe neu John Phebbie; a chan mai ychydig mewn cydmariaeth o enwau bedydd a ddefnyddid yn Nghymru, d'wedwch ddeugain i drigain mlynedd yn ol, y canlyniad yw mai ychydig ydyw nifer cyfenwau Cymreig.

Yr ydym wedi cyfeirio at y fam. Y mae y rhan fwyaf o honoch yn hysbys nad oedd y wraig ieuange hyd yn ddiweddar iawn yn newid ei henw morwynol ar ei phriodas. Er fod Shôn Robert wedi priodi Shian merch William Dafydd neu William Davis, Shian Davis y gelwid hi hyd ddiwedd ei hoed. Dyna'r arferiad hyd heddyw yn yr Yspain; a chymmer y mab fel cyfenw: unai enw ei fam neu enw ei dad fel y byddo yn dewis. Ymddengys y byddai yn arferiad mewn rhanau o Sir Fon i alw y merched ar ol cyfenw y fam, a'r bechgyn ar ol eu tad; er engraipht, os Shôn Robert oedd y gwr, a Shian Davis y wraig, gelwid eu meibion yn William Robert, Hugh Robert, &c., a'u merched yn Mary Davis, Eliza Davis, &c. Dyna eu henwau cyffredin, sef Shôn Robert a Shian Davis; ond yr oedd ganddynt eu henwau goreu, y rhai, fel dillad goreu, a wisgid ar achlysurau neillduol. Ai Shôn Robert yn John Roberts pan yn "*signio agreement*," neu yn gwneud ewyllys, neu yn ymddangos fel rheithiwr yn y llys, &c.; a'r un modd cyfeirid at Shian Davis mewn pob ysgrif fel Jane Davis neu Jane Roberts.

Gadewch i ni sylwi yn mhellach y cyfnewidiad yr elai yr enw bedydd trwyddo yn Ngogledd Cymru a rhanau helaeth o'r Deheudir cyn ei defnyddid fel cyfenw. Ychwanegwyd s, sef llythyren i ddangos y cyflwr meddianol (*possessive case*), er mwyn gwahaniaethu yr enw bedydd oddiwrth y cyfenw, ac er mwyn ei Seisnig-eiddio. Elai John yn Johnes, ac yna, fel y gwelsom, yn Jones; David yn

J3629

(delwedd J6329) (Gorffennaf 1892) (tudalen 80)

Davids, ac yna Davies, &c. Cawn John, David, Harry, Henry, &c., yn gyfenwau yn Neheudir Cymru, ond byth yn y Gogledd; oddi eithr bod teuluoedd wedi symud. Sylwn eto nad yw s yn cael ei ychwanegu yn yr enwau hyny ag sydd yn barod yn gyfenwau, megis Bowen, Bevan, Pugh, Parry, Powel, &c.; ni chawn, ar y naill law, y furfiau Bowens, Bevans, Pughs, Parrys, Powels, &c.; ond, ar y llaw arall, cawn Owens, Evans, Hughes, Harris, Howels, &c.

Un o effeithiau digrif dyfodiad cyfenwau parhaol Seisnig i Gymru yw cael dau frawd yn meddu cyfenwau gwahanol. Y dull Cymreig oedd mewn bri pan welodd y brawd hynaf y goleuni; ond erbyn dyfodiad y brawd ieuangaf, yr oedd y ffrasiwn newydd wedi dyfod i'r wlad, a chyfenwau yn ngwir ystyr y gair wedi dechreu eu gyrfa yn yr ardal.

Temple, Llundain.

T. E. MORRIS.

J6330

(delwedd J6330) (Gorffennaf 1892) (tudalen 81)

CYFENWAU CYMREIG.

II.

Yr ydym yn awr wedi cyrhaedd y cyfnod hwnw yn hanes Cyfenwau Cymreig pan y mae Jones, Williams, Lloyd, Edwards, &c., wedi dod yn gyffredin yn mhob man bron. Yr oedd amcan enwau wedi ei golli i raddau, fel ag y mae yn y dyddiau hyn. Siaredid am Robert Williams; ond nid oedd neb yn gwybod at bwy y cyfeirid. Yr oedd yn rhaid ychwanegu,—a drwg genym addef, rhaid gwneud hyn yn awr,—rhyw eiriau eglurhaol, megis Robert Williams y Crydd, neu Robert Williams, Siop Llestri; neu Robert Williams, Ty'n-lon, &c. Y canlyniad fu i'r cyfenwau dyblyg ddyfod i fri, y rhai a flurfiwyd trwy roddi enw morwynol y fam yn gysylltiedig â chyfenw y tad; er engraipht, priodai John Williams, Mary Jones; a gelwid eu mab hynaf yn Lewis Jones Williams. Wedi i Lewis gyrhaedd oedran gwr galwai ei hun yn Mr. Jones-Williams, er mwyn ei wahaniaethu oddiwrth ei gymydog, Mr. Williams. Cawn faint y fynir o'r cyfenwau dyblyg o'r dosbarth yma yn Nghymru: dyma rai o honynt:—Lloyd-Edwards, Bowen-Rowlands, Williams-Wynn, Parry-Jones, Vaughan-Williams, Pryce-Jones, Davies-Evans, Dillwyn-Llewelyn, Williams-Ellis, Lloyd-Roberts, &c.: a rhaid i ni beidio anghofio y cyfenwau liystyr, yr oeddym bron a dweyd disynwyr, megis Powel Powel, Pugh Pugh, &c. Gwell genym gyfenwau o natur Pryse-Rice na'r dosbarth yna. Byddai yn rhywbeth digrifol, oni fyddai, i glywed Mr. Jones-Jones yn siarad gyda Mr. Roberts-Roberts am briodas ei gyfaill Mr. Williams-Williams â merch yr hen Mr. Hughes-Hughes. Nid ydyw wedi dyfod i hyn eto; ac yr ydym yn gobeithio na fydd y Cymry, yn nhlodi eu cyfenwau, yn symud y ffordd yna.

Yr ydym yn gweled cyfnod newydd a disglair yn gwawrio ar gyfenwau Cym-

J6331

reig; y mae darpariadau ar ei gyfer wedi dechreu er'a rhyw hymthag i ngain mlynedd yn ol, ac yn cynyddu o ddydd i ddydd. Cyfeirio yr ydym at y cyfenwau deublyg y mae rhyw gant a haner i ddau cant o bregethwyr a gweinidogion Cymru wedi eu mabwysiadu. Ychwanegant at gyfenwau eu rhieni rhyw hen enw personol Cymreig neu enw eu cartref, neu enw sant eu plwyf genedigol, neu enw rhyw afon neu fryn, neu rhyw fangre arall; a galwant eu hunain yn Mavonwy Davies, Cynddylan Jones, Rhondda Williams, Teilo Evans, Adfryn Roberts, Elvet Lewis, Cadvan Davies, Cernyw Williams, Herber Evans, Tawelfryn Thomas, Myvenydd Morgan, Uwchlllyn Jones, Aeron Thomas, Ffrwdwen Lewis, Margam Jones, &c., &c. Rhyw adnewyddiad yn hanes enwau ydyw y dull yma, oherwydd cawn Mr. Bodychan Sparrow yn Uchel Sirydd Mon yn 1754, ac un arall o'r un enw yn y flwyddyn 1782. Nid yw y dull yma wedi ei gyfyngu i bregethwyr Cymru; cawn gantorion, cyfreithwyr, aelodau seneddol, &c., yn dilyn eu hesiampl. Cawn gyfreithiwr galluog o'r enw John Roberts yn cael ei ddychwelyd i'r Senedd, a phan yn cyrrhaedd Ty y Cyffredin yn cyfarfed aelod anrhydeddus arall o'r un enw; ac er mwyn ysgoi camgymeriad, y mae yn ychwanegu, at yr enw a roddwyd iddo yn ei fabandod, enw ei gartref; a Mr. Bryn Roberts y gelwir ef mwyach. Aeth Mr. Thomas Lewis o Sir Fon i weled Gwlad yr Addewid; a phan y dychwelodd gartref chwyddodd ei enw yn Thomas Palestina Lewis. Cawn far-gyfreithiwr o Ddeheu-dir Cymru yn cymmeryd ei gartref yn Llundain ac yn byw am dymor yn y rhan hono o honi a elwir Sydenham; ac, er mwyn cyfleusdra ei frawd, Mr. Jones, ar yr un gylechdaith, yn galw ei hun yn Sydenham Jones. Y mae nifer mawr o leygwyr o bob galwedigaeth yn dilyn esiampl y pregethwyr yn hyn: yn eu mysg cawn yr enwau Emrys Jones, Emlyn Evans, Lleufer Thomas, Gwyngyll Hughes, Marchant Williams, Melinddwr Davies, Gwenogfryn Evans, Coethyr Williams, Gwynfe Evans, Ffrangcon Davies, Keri Evans, Daronwy Isaacs, &c., &c.

Nid ydym am helaethu ar y testyn dan sylw; ond dymunem daflu allan awgrym ar y penawd hwn trwy ddatgan ein gobaith cryfaf y bydd i'r cyfeillion â'r cyfenwau deublyg neillduol yma wneyd i ffrwd â'r cyfenw olaf, a galw eu hunain yn Mr. Emrys, Mr. Mavonwy, Mr. Melinddwr, Mr. Ffrwdwen, Mr. Cadvan, Mr. Bryn, Mr. Daronwy, Mr. Tawelfryn, Mr. Margam, Mr. Myddvai, &c., gan eu sicrhau y byddant trwy hyn nid yn unig yn adfywio hen arferiad a fabwysiadwyd gan bendeigion Cymru dair canrif yn ol, ond hefyd yn gwneyd cymwynas ddifawr i Gymru trwy gynnyddu nifer ei chyfenwau, a thrwy leihau y camgymeriadau ag sydd beunydd yn codi o achos anamllder a thlodi ei chyfenwau. Credwn yn gadarn y byddai hyn yn gam yn yr iawn gyfeiriad ac yn sicr o fod yn fudiad doeth a chyfleus;

J6332a

a byddai ei fabwysiadu yn troi yn fendith gymdeithasol i ni fel Cymry.

Y mae llawer o honom, mae yn bur debyg, wedi gwneyd camgymeriadau dybryd oherwydd unrhywiaeth ein cyfenwau. Cwynodd y Barnwr yn gyhoedlus yn Llys Mân Ddyledion Porthmadog, ryw ddeugain mlynedd yn ol, am yr anghyfleusdra a berid oherwydd fod bron bob un ag oedd yn dyfod o flaen y llys yn dwyn yr un cyfenw. Yr oeddynt i gyd yn Joneses. Dywedai y byddai yn gymwynas gymdeithasol pe newidiai y mwyafrif o'r Cymry eu cyfenwau, a phe cymmerent enwau gwahanol yn eu lle er mwyn lleihau y dyryswech ydoedd beunydd yn eu blino. Yr ydym yn gwybod fod unrhywiaeth cyfenwau Cymreig wedi peri llawer iawn o gyfreithio trwy'r wlad, a hyny yn codi, fel rheol, oddiwrth ddiolalwch pan yn gwneuthur ewyllys, neu am fod y cyfreithiwr yn anghyfarwydd âg enwau a chyfenwau y teulu, ac felly yn cymmeryd y naill am y llall. Y mae enghreifftiau o hyn ger bron ein meddwl yn awr; a cheir mai dyma ydyw profiad a thystiolaeth pob cyfreithiwr yn Nghymru, yn hen ac yn ieuangc. Wrth derfynu y rhan yma o'n llith yr ydym am argymhell eto i sylw y Cymro gwladgarol y priodoldeb, os ydyw wedi penderfynu newid ei gyfenw, iddo gymmeryd fel cyfenw un gwir Gymreig; a thrwy hyny gyflwyno rhodd dda a chymeradwy, nid yn unig i'w blant, ond hefyd i'w gymydogion ac i'w genedl.

Yr ydym wedi ceisio rhoddi rhyw fras-luniad, a brasluniad yn unig, o hanes cyfenwau Cymreig: teimlem ei fod yn bur amherffaith; ond gan nad oedd y gcfod yn caniattau, rhaid oedd ei dori i lawr a'i gwtogi er mwyn traethu yn mhellach ar Gyfenwau Cymreig megis y cawn hwy yn Nghymru yn yr amser presenol. Ond cyn myned yn mlaen i draethu am gyfenwau yr oes hon, feallai mai buddiol fyddai sylwi ychydig ar Gyfenwau Cymreig ag y sydd erbyn hyn wedi gorphen eu gyrfa. Y mae nifer y rhai hyn yn llucosog iawn; a gellid eu cyfyngu i ryw ddau ddosbarth: y dosbarth cyntaf yn cynnwys cyfenwau wedi codi o enwau tai, tiroedd, a threfi; a'r ail yn cynnwys enwau bedydd, yn gysylltiedig âg *ab* neu *ap*. Yn y dosbarth cyntaf cawn yr enwau Bodwrda, Bryn kir, Bodychan, Clun, Cydweli, Coitmore, Derwas, Maesmor, Marcross, Penrhyn, Quellyn, Saython, Ystumlllyn, Trygarne, Van, &c., &c.: ac yn yr ail ddosbarth cawn Ab Edward (wedi ei fyrhau yn y cyfamser i Bedward), Ap David, Ap Res, Aprichard, Apewe, Apprice, Appowel, Ap Harry, Ap Howell, &c., &c. Y mae yr oll o'r enwau yma i'w cael yn mysg enwau myfyrwyr Cymreig yn y cewy brif-athrofa, Caergrawnt a Rhydychain, rhwng y blynyddoedd 1556 a 1682. Bachgen tlawd, y mae yn ymddangos, oedd Hugh Appowel, myfyriwr yn Rhydychain yn 1562; oherwydd rhoddodd senedd yr athrofa ganiattad iddo i gardoita. Ond os tlawd felly oedd Hugh Appowel, cawn y Cymro da a chyfoethog David

J6332b

(delwedd J6332b) (Ebrill 1893) (tudalen 126b)

Appwelo o'r brif-ddinas yn rhoddi, yn y flwyddyn 1508, hwn punt (awm mawr y pryd hwnw) i Gwmpeini y Sidanwyr i'w rhanu i ddodion plwyfydd St. Lawrence, Jewey, a St. Mary, yn Llundain. Nis gallwn ond cyfeirio at Evan ap Thomas o Groesoswallt; a Morris ab Evan o Llandaf; a Robert ap Robyn, a'i gyfaill, Owen ap Guttyn, o esgobaeth Bangor, yn mysg y pederinion yn Rhufain yn nechreu yr unfed-ganrif-ar-bymtheg: rhaid symud yn mlaen i'r oes oleuedig hon.

II. CYFENWAW SEISNIG YN NGHYMRU.

Cawn gannoedd o gyfenwau Seisnig yn Nghymru, y rhan fwyaf o honynt wedi croesi y gororau yn ystod yr haner can mlynedd diweddaf, sef cyfnod dadblygiad y gweithfeydd glo a haiarn. Ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i'r ardaloedd y ceir gweithfeydd glo, copr, neu haiarn ynddynt; maent yn wasgaredig ar hyd a lled y wlad. Cawn y mwyafrif o honynt, wrth gwrs, yn y siroedd hynny sydd wedi bod am oesau a chenedlaethau o dan ddylanwadau Seisnig, megis siroedd Callestr, Trefaldwyn, Maesyfed, Mynwy, Morganwg, a Phenfro.

Mae mwy o lawer o gyfenwau Seisnig, neu, yn hytrach, cyfenwau wedi dyfod o Loegr, yn Morganwg nag yn unrhyw sir arall yn Nghymru: ond, er hynny, yr ydym yn tybied mai yn Maldwyn ymae cyfenwau Seisnig wedi cael mwyaf o dderbyniad; oherwydd er nad ydynt yn lluosog yno, eto y maent yn llawer mwy poblogaidd.

Yr ydym wedi ceisio ffurfio rhestr deg a chyflawn o'r cyfenwau Seisnig mwyaf cyffredin ac adnabyddus, yn ogystal a'r rhai hynaf mewn gwahanol barthau o Gymru; ac er gwneud ein goreu i'w byrhâu, eto y mae eu nifer dros dri chant; a chawn fod amryw o honynt i'w cael, yma ac acw, yn mhob sir o'r bron. Nid ydym am flino y darlennydd â rhestr gyflawn o honynt, ond yn unig rhoddi cyfres o gyfenwau Seisnig ag sydd wedi eu cyfyngu yn arbenig, ond nid yn gwbl oll, i wahanol siroedd yn Nghymru.

Yn Mon cawn Bulkeley a Priestly; yn Sir Gaernarfon, Buckley, Carter, a Priestly; yn Meirionnydd, Buckley a Ryder. Yn Sir Ddinbych cawn Beck, Baker, Pownall, ac Yorke. (Y mae genym amheuaeth am y cyfenw Beck neu Begg: teimlem mai y gair Cymraeg "bach" ydyw wedi ei Seisnigeiddio; ond gan nad ydym yn sicr o hynny ymddengys Beck yn y dosbarth yma). Yn Sir Gallestr cawn Beck, Bibby, Catherall, Clarke, Cartwright, Denman, Fletcher, Hope, Kerfoot, Muspratt, Mason, a Wheldon. Yn Maldwyn cawn Ashton, Astley, Bebb, Benbow neu Benbough, Colley, Cound, Goodwin, Giles, Hamer, Higgins, Halford neu Holford, Ingram, Kinsey, Minshull, Mytton, Meddins, Lucas, Paxton, Ryder, Talbot, Varley, Wilding, ac Woosnam. Yn Maesyfed cawn Abley, Beck, Baldwin, Bound neu Bounds, Baylis, Bufton, Dyke neu Dykes, Goodwin, Mills, Mellin, Lucas, Shewell, Stokes, Watson, Wild, a Wilding.—Rhaid aros gyda y cyfenw Mellin. Ai nid y gair

J6333a

desgrifiadol Cymreig "melyn" ydyw? Nis gallwn benderfynu, oherwydd nad ydym yn gydnabyddus âg hanes rhai o'r teuluoedd sydd yn dwyn y cyfryw. Y mae yn gyfenw cyffredin yn Lloegr, ac felly yr ydym wedi edrych arno fel cyfenw Seisnig. Cawn y cyfenwau Bailey, ac Havard neu Harvard, yn Mrycheiniog; a Bonsall, Bateman, a Colby, yn Sir Aberteifi. Yn Mhenfro cawn Berry, Codd, Greenish, Hoskin neu Hoskins, Havard, Harvard, Muscott, Melchior, Marychurch, Merryman, Ormond, Peragrina neu Perrigrin, Perkins, Roach neu Roch, Slocombe neu Slocum, a Stokes. Yn Sir Gaerfyrddin cawn Gravell, Hicks, Hopkin neu Hopkins, Hancock, Mansel, Martin, Salmon, Scurlock, Sibbering, a Stepney. Yn Morganwg cawn Bruce, Cory, Coslett neu Cosslett, Chappell, Hopkins, Insole, Kinsey, Parsons, Radcliffe neu Ratcliffe, Spickett, Talbot, Tamlyn neu Tamlin, Tyler, Vivian, a Yeo: ac yn Mynwy cawn Addis, Chappell, Coslett, Sheddick neu Shaddick, &c. Gwelir, felly, oddiwrth y rhestr uchod, fod llawer o gyfenwau Seisnig yn blaguro mewn rhyw un sir neu siroedd neillduol. Felly yr un modd cawn rai o honynt wedi sefydlu i raddau helaeth mewn ambell i dref neu ardalyng Nghymru; er enghraifft, cawn Huxley yn gyffredin yn Bethesda (Arfon), a Holt (Flint); Ace a Bonnell yn Llanelli; Cule yn Mhontypridd; Rymer yn Tiddenham (Mynwy); Boore yn Llanfair-yn-Muallt; Hoskin a Strick yn Oystermouth; Herring, Lilwall, Sheen, a Travers, yn Hay; Langford yn Berriew, &c. Mae y cyfenwau Franklyn, Waters, a Webster, yn bur gyffredinol yn Nheheudir Cymru.

Yr ydym wedi cyfeirio at ddull y Normaniaid, ac wedi hyny arferiad cyffredin y Saeson, o fabwysiadu fel cyfenwau, enwau eu cartrefleoedd. Cawn lawer o gyfenwau Seisnig o'r natur yma yn Nghymru, megis Ashton, Bailey, Barnet, Bonsall, Brigstocke, Buckley, Carrington, Hooson, Kenyon, Lumley, Minshall, Mytton, Picton, Pownall, Spurrell a Wheldon. Yn wreiddiol, enwau pentrefi, &c., yn Lloegr yw y cyfenwau hyn.

Nid oes, fel y dywedasom, ddiwedd ar amrywiaeth cyfenwau Seisnig. Y mae rhyw gymysgedd rhyfedd a digrif yn eu plith. Nis gallwn ddychmygu am y Cymry yn dilyn esiampl y Saeson yn hyn. Cawn yr enwau teulnaidd canlynol yn Nghymru, —Badland, Bather, Bracegirdle, Bywater, Copperwater, Cowmeadow, Deadman, Drinkwater, England, Goose, Horsepool, Loveluck, Merry, Merryman, Marychurch, Shufflebottom, Sloper, Vittles, Welshman, &c.

Yr ydym yn credu mai y ddau gyfenw Seisnig mwyaf cyffredin yn Nghymru ydynt Hopkins a Perkins. Morganwg yw cartrefle Hopkins, a Phenfro yw eiddo Perkins. Y mae Hopkin neu Hopkins yn tarddu o "Hop," llysenw am Robert, a'r bychanig-air (*diminutive*) "kin;" felly ei ystyr ydyw Bob Bach; megis mai ystyr Siencyn, neu Siancyn yn ol Lewis Dwna, ydyw Shion Bach neu Shian Bach. Gwelwn

mai yr un gair ydyw Jenkins a Shoneyn ; er hyny nid eywir fwasai galw y creadur bychan a shone hwnw a adnabyddir yn yr Ysgrythyr fel ceiliog y rhedyn, yn "Jenkins y gwair." Y mae Hopkins nid yn unig yn gyfenw poblogaidd yn y Deheudir, ond y mae yr enw wedi bod yno am oesau. Cawn Hopkin ap David ap Richard yn byw yn Ystrad Fflur yn 1534, yn agos i dri chan mlynedd a haner yn ol. Yr oedd tri o feirdd enwog o'r enw Hopeyn yn bloceo yn Morganwg y ganrif ddiweddar. David Hopeyn o'r Coedty, yr hwn a fu farw yn 1730, oedd un o honynt; ac un arall oedd Wil Hopeyn, awdwr y penillion swynol, "Bagoilio'r Gwenith Gwyn." Ganwyd ef yn Llangynwyd yn 1709. Fel Dafydd ap Gwilym gynt, canodd lawer er ceisio enill cariad un o forwynion glân Cymru; ond ni fu yr Awen yn ddigon nerthol i enyn ei serch. Methodd Wil Hopeyn ag enill llaw y Ferch o Gefn Ydfa (Ann Thomas); a bu farw, os ydym yn cofio yn iawn, yn hen lanc. Talfyriad am Peterkin ydyw Perkin neu Perkins; ac felly ei ystyr ydyw Pedr Bach. Cawn Wilkins a Watkins, enwau o'r un natur, yn gyffredin yn Nghymru. Ystyr y naill yw Wil Each, a'r llall Wat neu Walter Bach.

Buasai yn ddyddorol chwilio i mewn i hanes ac ystyron llawer o'r cyfenwau Seisnig hyn; ond gan mai ysgrifenu yr ydym ar Gyfenwau Cymreig, nid ydym yn teimlo mai buddiol fyddai treulio llawer o amser gyda hwynt. Er hyny, dichon mai nid anmhriodol fyddai traethu ychydig ar rai o honynt. Y mae y cyfenw Bebb yn Maldwyn bron a'n dyrsu. Ai tybed mai yr un a "Bebba" y Swissiaid ydyw? Ffur arall o'r enw Hebraeg Eliza ydyw "Bebba," ac yn y gwreiddiol golyga "Llw Daw."—Y mae Blackwell yn hen gyfenw yn Ngogledd Cymru. Nid rhaid ond cyfeirio, er profi hyn, at y bardd a'r llenor enwog John Blackwell (Alun), yr hwn a anwyd yn Sir Gallestr yn 1797, ac a fu farw rhyw haner can mlynedd yn ol.—Ymsefydlodd y Bulkeleyys yn Mon yn y flwyddyn 1440. Penodwyd William Bulkeley, sef Arglwydd Hotcroft o Sir Gaer, yn Gwnstabl Castell Beaumaris y flwyddyn hono. Cawn y cyfenw hwn yn fynych yn mysg swyddogion y sir; a bu aelodau o'r teulu yn cynrychioli yr ynys yn y Senedd am genhedlaethau. Yr oedd penaeth presenol y teulu, Syr Richard Bulkeley, yn Uchel Sirydd dros Fen ychydig flynyddau yn ol.—Cyfenw henafolarall ydyw Clough. Yr oedd Syr Richard Clough o Ddinbych yn fab i rieni tlawd; ond trwy ei ddiwydrwydd a'i alluoedd masnachol casglodd gymmaint o gyfoeth fel yr aeth y gair, "Myn'd yn Clough," yn ddiareb yn Nyffryn Clwyd am fyned yn gyfoethog. Ganwyd Syr Richard yn Ninbych yn 1520; a bu farw yn Hamburg, lle hefyd y claddwyd ef yn 1570. Yr ydym yn cael lle i gredu ei fod yn wladgarwr selog, oherwydd cludwyd ei galon i'w wehladdu yn Nghymru, yn hen eglwys ei blwyf genedigo, sef yr Eglwys Wen, wrth Ddinbych.—Gair Groeg ydyw George, yn golygu "gairdd-

J6334a

(delwedd J6334a) (Ebrill 1893) (tudalen 128a)

wr." Cawn y cyfenw yn Mhenfro, ac yn un o fwrdeisdrefi Sir Gaernarfon.—Tybiwn mai ffurf arall ar Hammer ydyw Hammer, cyfenw poblogaidd yn Maldwyn. Os felly, tardda o enw pentref yn Sir Gallestr; a gallwn ei hawlio fel cyfenw gwir Gymreig. Barna Lower, yn ei lyfr "Enwau Teuluaid," mai hen enw personol Almanacg ydyw. Feallai mai yr un ydyw a'r enwau Seisnig Haymo ac Hayman sydd yn tarddu o'r hen air Almanacg (*Teutonic*) am "gartref." Beth bynag am hyny, Cymro â chyfenw Cymraeg ydoedd Syr David Hammer o Hammer, Darwyr o Faingo y Brenhin yn nheyrnasiad Rhisiart yr Ail.—Daeth y cyfenw Lucas i'n gwlad o'r Ysopaen. Yr un enw ydyw a Luc. Y gair Lladinaidd "*lux*" (goleuni) ydyw y gwreiddiol.—Y mae y Lumleys yn hanu o'r Angliaid a'r Sacsoniaid. Cyfeirid atynt bob amser yn Sir Deifr (*Durham*) fel "*The lofty Lumleys*."—Y mae Miles yn gyfenw henafol yn mysgr y werin yn Nghymru. Yn ddiamheu y Cymro mwyaf enwog ac adnabyddus o'r enw yma ydoedd y Parch. John Miles, sylfaenydd Cymanfa y Bedyddwyr yn Nghymru. Bu yn rhaid iddo ymfudo i'r America oherwydd erledigaeth; ond daeth yn ol i Abertawe, lle y bu yn llafuric y rhan oreu o'i oes y'ngwylan ei Arglwydd gyda llwyddiant a bendith mawr. Bu farw yno yn 1683. Y mae Miles yn tarddu naill ai o'r enw Groegaidd *Milo*, yn golygu "gwaagwr;" neu o'r enw Hebraeg *Michael*, "pwy sydd debyg i Dduw."—Enw Lladinaidd ydyw Peregrine; ac er mai "teithiwr" ydyw ei ystyr, cawn mai sefydlog ydyw yn Sir Benfro.—Yr oedd y Pooles yn hen deulu yn Sir Feirionydd. Cawn Richard Pool o'r Tycerrig yn *warden* yr Eglwys dros blwyf Llanfihangel-y-Traethau yn Ardudwy yn 1745.—Talfyriad ydyw Sanders o Alexander, enw Groeg, yn golrgu "cynnorthwywr dynion." Gwyr y datlennydd am bregethwrgalluog yn Neherdir Cymru sydd newydd ymadael â'r fuchedd hon, oedd yn gwisgo yr enw hwn gydag urddas ac anrhydedd.—Nid ydym yn deall ystyr y cyfenw Sibbering a geir mewn gwahanol rannau o Sir Gaerfyrddin, os nad ydyw yr un a'r enw Frisiaidd "*Sibbern*," ystyr yr hwn ydyw "yr arth fultugoliaethus."—Y mae yn ymddangos mai yr un ydyw Taplen a Thomas, a'i fod wedi dyfod i Gymru o Ogledd Lloegr. Gan fod ffurf yr enw gwreiddiol wedi ei newid gan y Saes, ystyrir Taplen yn gyfenw Seisnig. Nid ydym am ymhelaethu ar gyfenwau Seisnig; ond teg ydyw cydnabod eu defnyddioldeb yn Nghymru. Y mae yn bleser ac yn iechyd bron i ddod ar draws ambell i gyfenw Seisnig mewn ardal yn mha un y mae y trigolion i gyd yn Jones, Williams, Roberts, &c. Heb son am eu manteision cyndeithasol, y mae rhyw swyn mewn amrywfaeth enwau. Nid rhaid i ni ychwanegu fod cannoedd o'r Cymry yn gwisgo cyfenwau Seisnig, er nad ydynt yn hyddysg yn yr iaith hono. Cymry "*coch cyfa*" sydd yn siarad hen iaith y brynau ac yn gwneud "pob peth yn Gymraeg."

T. E. MORRIS.

J6334b

CYFENWAU CYMREIG.

III.

CYFENWAU CYMREIG YN LLOEGR.

SYMUDWN yn awr i'r ail ddosbarth, sef Cyfenwau Cymreig yn Lloegr, nad ydynt i'w cael y dyddiau hyn yn Nghymru. Er nad yw y dosparth hwn yn un lluosog, eto y mae yn hynod o ddyddorol. Ymddengys yn rhyfedd fod cyfenwau Cymreig i'w cael yn Lloegr nad ydynt i'w cael yn Nghymru; ac y mae yn peri i ni ymholi pa fodd y cododd yr enwau hyn, a pha resymau sydd am nad ydynt i'w cael yn y wlad y maent wedi tarddu o honi.

Dichon fod un rheswm yn codi oddiar ymlyniad y Cymro wrth enw ei dad ar ol iddo ymfudo i Loegr; a bod y cyfenw yn barhaol yno, tra yr ydoedd yn gyfnewidiol yn Nghymru. Er enghraifft, pe symudai Thomas ap John o Gymru i Loegr, gelwid ef gan y Saeson yn Mr. Ap John; a dyna fyddai enw ei deulu byth mwyach. Yr ydym yn tybied fod hyn yn rheswm digonol am bresenoldeb cyfenwau megis Ap John, Ap Merick, Apowell, Apthorp, Apwenwyn, Abethall, &c., yn Lloegr, tra nad ydynt i'w cael yn Nghymru, am na ddefnyddid y talfyradau am "fab," sef *ab* ac *ap*, gan y Cymry pan y daethant yn gyffredinol i fabwysiadu cyfenwau.

Cyfyd rheswm arall hefyd yn ddiameu oddiwrth y ffaith fod llawer o'r Cymry, ar ol sefydlu yn Lloegr a dyfod yn gyfarwydd âg arferion y Saeson, wedi mabwysiadu eu hen llysenwau, neu enwau disgrifiadol a roddwyd iddynt yn Nghymru fel cyfenwau; a chan nad oedd y Saeson yn gallu dilyn ac efelychu y seiniau Cymreig, newidiwyd ffurf yr enwau hyn fel ag i'w cyfadfasu i'w dull hwynt o'u swnio. Gelwid William Llwyd yn William Floyd neu William Flood; elai Hywel Goch yn Hoell Goz neu Howel Goss, a John Du yn John Dee, &c. Symudodd hefyd ambell i deulu a chyfenw eithriadol Gymreig i Loegr, megis teulu Heylin o Bentreheilyn yn Llandysilio, Maldwyn; ac felly daeth rhyw ychydig o gyfenwau neillduol dros y gororau o Gymru.

Ceiswn roddi hanes rhai o Gyfenwau Cymreig yn Lloegr. Nid ydym ond am gyfeirio at y cyfenwau hyn sydd wedi eu ffurfio drwy gysylltu *ap* neu *ab* âg enwau beddydd, megis Batha a Batho (Ab Adda); Bedwin (Ab Edwin); Bemand a Beamand (Ab Enwud neu Ab Edmund); Beevor (Ab Ivor); Apwenwyn (Ap Einion), &c. Cawn gyfleustra i draethu ar y rhai hyn eto.

Y mae y cyfenwau canlynol yn tarddu o'r Gymraeg: Anyon ac Onions; Boffin; Cam a Gam; Coffin; Dee; Day a Tye; Floyd a Flood; Flower; Goss a Gough; Moel a Mole; Wace; &c.—Llygriad ydyw Anyon, ac hefyd Onions, o'r hen enw Cymreig Eynon. Ceir y cyfenw Onions yn Nheheudir Cymru yn ogystal ag yn Lloegr.—Y mae Boffin yn enghraifft o'r cyfnewidiad rhyfedd yr elai ambell i enw Cymreig trwyddo yn mysg y Saeson. Dywed Mr. Egerton Phillimore fod Boffin, sef enw teuluaid yn Rhydychain, yn tarddu o Vychan; a gellir profi hyn trwy hen weithredoedd ac ysgrifau eraill.—Ni raid esbonio y cyfenwau Cam a Gam. Y mae yn amlwg mai nid milwyr oedd y sawl a alwyd felly ar y cyntaf. Buasai meddwl hyny yn sarhad ar goffawdwriaeth y milwr dewr Syr Dafydd Gam; ond gan mai bradwr dibendraw ydoedd, feallai fod Gam yn enw da a chywir iddo. Bradychodd ei wlad, a thrwy hyny gwnaeth gam â'i gydwladwyr, a bu yn rhodio ar hyd lwybrau ceimion y rhan ddiweddaf o'i oes. Cawn un o'r enw John Cam yn Uchel Sirydd Meiricnydd yn 1316, sef y 10fed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth yr Ail. Cyfettyb y cyfenwau Gam a Cam i'r cyfenw Games a geir yn awr yn Sir Frycheiniog ac yn Ynys Manaw.—Y mae Coffin yn gyfenw adnabyddus ar y Gororau ac yn Dyfnaint. Ffurf arall ydyw o'r cyfenw Cymreig "Cyffin." Ystyr y gair ydyw "terfyn," neu yn y Saesoneg "*confine*," megis yn y frawddeg, "Ynghyffiniau Zabulon a Nephthali" (S. Matthew iv. 13).—Y gair Cymraeg "du" wedi ei Seisnigeiddio ydyw y cyfenw Dee. Yr oedd Dr. John Du, neu John Dee fel ei gelwid gan y Saeson, yn un o ysgolheigion penaf ei oes, ac yn uchel yn flafr y Frenhines Elizabeth. Ymddengys mai negroad oedd ei hynafiaid. Ganwyd ef yn Nantygroes, yn Sir Faesyfed, yn 1527; a bu farw yn 1608. Yr oedd yn seryddwr byd-enwog; ac oherwydd hyny edrychid arno hyd yn nod gan fawrion y deyrnas hon a theyrnas-oedd Cyfandir Ewrop fel dewin a phrophwyd.—Y mae y cyfenwau Day a Tye wedi codi o'r enw personol Dei, sef yr hoff-air Cymreig am David. Cawn y cyfenw Dakin neu Deicyn yn Nghymru, Lloegr, a Llanrwst.—Ffuriau eraill o Lloyd neu Llwyd, ydyw Floyd, Flood a Loyd, ac feallai hefyd Blood. Cawn ffurf arall, Bloyd, yn gyfenw yn Newmarket, Sir Ffint. Ceir y teulu Gwyddelig Flower yn olrhain ei gyfenw o'r enw hynafol Llywarch.—Y mae Gough, Gooch, a Goss yn tarddu o'r gair Cymraeg "coch" neu "goch." Yr oedd David ap Hoell Goz o Brithdir yn ustus yn Maldwyn yn nheyrnasiad Elizabeth.— Wedi

colli ei wallt, mae'n debygol, yr oedd penaeth y teuluoedd a elwir yn awr yn *Mole a Moel*.—Dywedir mai y gair Cymraeg "gwas" ydyw gwreiddiol y cyfenw Seisnig Wace.

Y mae dosbarth o Gyfenwau Cymreig yn Lloegr yn codi oddiwrth enwau lleoeddyn Nghymru, megis Bodvill; Carew; Flint; Powys; Penrhyn; Snowdon; &c. Y mae y cyfenw Bodvill yn tarddu o enw hen balasdy yn Sir Gaernarfon, sef Bodvel, ger Pwllheli, lle y ganwyd Mrs. Piozzi, cyfeilltes i Dr. Johnson. Yr oedd y Bodveliaid o Bodvel yn hen deulu urddasol ac anrhydeddus iawn yn Sir Fon ac yn Sir Gaernarfon o deyrnasiad Elizabeth hyd amser y Sioriaid. Cawn aelodau o'r teulu yn cynnyrchuoli Mon ac Arfon yn y Senedd o amser i amser. Yr oedd John Bodvel, neu John Bodville, yn Arglwydd Raglaw Mon o 1643 i 1650, ac yn Gwnstabl Castell Caernarfon yn amser y Weriniaeth. Priododd ei ferch Sarah a Robert, Arglwydd Bodmin; a bu eu mab Charles Bodville, yr Arglwydd Radnor, yn llanwyr un swydd a'i daid fel cwnstabl Castell Caernarfon, ar adegau o 1681 hyd 1714. Y cyfnod goreu yn hanes addysg Cymru cyn teyrnasiad Victoria ydoedd o ddechreu teyrnasiad Elizabeth hyd amser y Weriniaeth; y pryd hyny yr oedd nifer mawr o fechgyn o Gymru i'w cael yn y ddwy Brifathrofa, a chawn yn eu mysg un o'r enw John Bodvell, yn Ngholeg Oriel, yn Rhydychain, yn 1594.

Hen enw Cymreig arall yn Lloegr ydyw Carew. Gwnawd Syr John Carew o Castell Caeryw yn Sir Benfro yn farchog gan Risiart yr Ail am ei wroldeb yn Mrwydr Agincourt; a bu yn ddyn gweithgar ac enwog ar hyd ei oes. Erbyn heddyw ceir amryw o deuluoedd yn dwyn y cyfenw hwn; a chawn fod penaeth un o honynt yn eistedd yn Nhyr Arglwyddi o dan y teitl Arglwydd Carew.

Y mae Caddell a Cadell yn tarddu o'r hen enw personol Cymreig "Caddell," ystyr pa un ydyw "rhyfelgar." Tybiwn mai ffurf arall i'r enw ydyw Cadle, a geir yn Nghymru.

Yr oeddym yn ymfalechio y llynedd am fod Arglwydd Faer Llundain yn Gymro. Y mae amryw o Gymry wedi bod yn dal swyddi uchel yn Nghorfforaeth Llundain, ac yn eu mysg nid oes enw mor anrhydeddus a Rowland Heylin o Bentreheilyn. Yr oedd yn Henadur ac Uchel Sirydd yn nechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg. Gwr da ydoedd; a dangosodd ei gariad tuag at ei gydwladwyr a'i sel tuag at Dduw trwy ddwyn y rhan helaethaf o'r draul yn yr argraphiad cyntaf (mewn plyg mawr) o'r Bibl Cymraeg, yn y flwyddyn 1630. Mabwysiodd y teulu yr enw Heilyn neu Heylin am eu bod yn y swydd o ddwyn y meiliau i dywysogion Powys. Ystyr Heylin ydyw "haelfrydig." Dyn enwog arall yn dwyn y cyfenw hwn ydoedd Peter Heilyn, yr hanesydd. Y mae rhai yn barnu mai llygiad o Mab Heylin neu Ap Heilyn ydyw y cyfenw Palin a geir yn Lloegr a Chymru. Fe all hyny fod.

Nis gallwn ddweyd llawer mwy gydag unrhyw sicrwydd ar Gyfenwau Cymreig yn Lloegr: yr ydym oddicartref yn y wlad yma; ac y mae y testyn yn llawn o anhawsderau ac yn galw am lawer mwy o amser, o ofal, ac o wybodaeth, nag yr ydym yn alluog ar hyn o bryd i'w roddi iddo. Er engraifft, anhawdd ydyw peidio meddwl mai enwau Cymreig ydyw Garth; Nevin; Ovens; Bywell (Ab Hywel); Kennin; Jayne a Jevons (Ieuan neu Jevan); Prickett; &c.

Yr ydym yn awr wedi cyrhaedd y pwynt hwnw y gallwn deimlo ein bod yn rhydd ac yn barod i ymwneud â chyfenwau poblogaidd y Dywysogaeth, sef y cyfenwau Normanaidd, y cyfenwau Beiblaidd, a'r cyfenwau gwir Gymreig. Y mae y tir wedi ei glirio, ac yn y rhifynau nesaf cawn draethu ar y cyfenwau hyny sydd mor adnabyddus ac mor luosog yn mhob cwr o'n gwlad, o Gaergybi i Gaerdydd, a thrwy Gymru benbaladr.

Temple, Llundain.

T. E. MORRIS.

Y FWYALCHEN.

Bywio fawl o big felen—a ddyrydd
Arseth y fwyalchen;
I alw yn ol haul y non,
Yn foreu cwyd ar frig coeden.

TUDNO.

"ESMWYTH CWSG POTES MAIP."

'E GREU twyll guriau tost:—o'i gyfoeth
Daw gofid—pob ecbyet.
Nos ddi draws, mynwe ddi drwst,
Yw flog y geiniog onest.

ALAVON.

Y CAR LLUSG.

DEFNYDDIAWL hyd fynyddoedd—hen Wallia,
Hwn welwyd drwy'r oesoedd;
'E wiria'n awr yr hyn oedd
Arafwch hen ganrifoedd.

MORWYLLT.

BOREU HAF.

FOREU braf! ar y wybr wen—wle'r Haul
A'i rwyg heb un niwlen;
Ac i'w wydd, mewn gwisg addien,
Daw byd i'godi ei ben.

PEDROG.

J6336

CADBURY'S COCOA

ABSOLUTELY PURE, THEREFORE BEST.—The Standard of Highest Purity.—*Lancet*

RHIR. 2.]

EBRILL, 1898.

[CYF. XVI.]



CYLCHGRAWN CHWARTEROL CENEDLAETHOL.

CYNHWYSIAD.

Rennan, y Celt. Gan Mr. William Jones, A.S.	73	Y Parch. David Roberts, D.D. (Dewi Ogwen). Gan y Parch. M. O. Evans, F.L.S.	116
S. R. Gan y Parch. Evan Jones	79	Trefnyddiaeth Wesleyaidd: Canmlwyddiant y Gwaith Cymreig. Gan y Parch. William Hugh Evans (Gwyllt y Mynydd)	118
Thodi: Awdl Gadeiriol. Gan Elfyn	83	Methodistaeth Galfinaidd a'r Eglwys yn Nghymru. Gan y Parch. D. Jones, B.A.	122
Ein Llenyddiaeth.—Taith Fryslog trwy'r Canrifoedd. Gan Lew Tegid	86	Y Daw Newydd. Gan "Y Gwir yn erbyn y Byd"	127
Golyrfa yn y Gwanwyn. Gan Wilym Cowlyd	88	Glanmor. Gan y Parch. R. Price Hughes	132
Cyfenwau Cymreig. — IV. Cyfenwau Normanaidd, &c., Cymru. Gan Mr. T. E. Morris, LL.M., B.A. (Morus Glaslyn)	89	Dafydd y Gareg Wen: Cân. (Seiliedig ar Hen Draddodiad). Gan Mr. H. Isgaer Lewis	134
Fyngotta. Gan K.	95	March "Llyfr Job:" Byr Gywydd. Gan Goulanydd	134
Llenyddiaeth Heddw. Gan Frynfab	96	Y Parch. John Elias a'i Feirniaid. Gan Mr. Daniel Davies	135
Sefydliad y Normaniaid yn Nghymru. Gan y Parch. J. Rhys Morgan, D.D. (Lleurwg)	102	GOHENIAETHAU—	
"Rolant y Saer." Gan Dafolog	104	Cymraeg Sir Fflint. Gan y Parch. O. B. Jones, F.R.Hist.S.	143
Duwinyddiaeth a Chrefydd. Gan y Parch. E. Keri Evans, M.A.	109	"Yer" a "No" yn y Gymraeg. Gan T. C. U.	144
Y Friallen Gyntaf: Penillion. Gan Watcyn Wyn	112	Manion Barddonol. Gan Amryw- iol Feirdd.	
Naturioldeb Areithyddol. Gan y Parch. E. Cynffig Davies, M.A., L.T.S.	113		

CAERNARFON: AROGRAPHWYD A CHYTHORDDWYD GAN GWACNI'E WASG GENEDLAETHOL CYMRIG (CYF.), YN SWYDDFA'R "GENEDL."

J6317

(delwedd J6317) (Ebrill 1898) (clawr)

CYFENWAU CYMREIG.

IV. CYFENWAU NORMANAIDD, &c., CYMRU.

Y MAE yn anghenrheidiol ar y dechreu ogluro y defnyddir y frawddeg "Cyfenwau Normanaidd" mewn ystyr rydd a chyffredin, a'i bod yn cynwys nid yn unig cyfenwau Normanaidd a Ffrengig, ond hefyd enwau Cristionogol, neu yn hytrach enwau bedydd, a ddygwyd i Gymru gan y Normaniaid, ac a fabwysiadwyd wedi hyny gan y Cymry fel cyfenwau. Y mae y cyfenwau hyn, ynghyd ag enwau Ysgrythyrol a ddefnyddir fel cyfenwau, yn ffurfio y mwyafrif o enwau teuluaid Cymru. Fe welir fod ym mysg yr enwau bedydd a ddaethant yma gyda'r Normaniaid amryw enwau Anglaidd neu Sacsonaidd. Fe fydd yn gyfleus i gynwys hefyd yn y dosbarth hwn yr enwau Almaeneg (*Teutonic*) hyny a ddaethant i'r Dywysogaeth o wledydd eraill, megis yr enwau bedydd gludwyd i Benfro yn yr amseroedd boreu gan feibion dewr ac anturiaethus Llychlyn, ac, wedi hyny, yn llawer diweddarach, yr enwau a ddygwyd yno gan y Fflemhisiaid. Dengys Mr. Edward Laws, yn ei lyfr—*Little England beyond Wales* (1888)—fod rhai o'r enwau Fflemhisaidd yma yn cael eu defnyddio fel cyfenwau yn Mhenfro yn yr amser presenol. Cymerir i mewn hefyd yn y dosbarth hwn rai o enwau teuluaid Penfro a Morganwg a ddaethant i wlad Gŵyr, i'r Rhos ym Mhenfro, ac i ardaloedd eraill, gyda'r Fflemhisiaid, ynghyd ag amryw gyfenwau Ffrengig, &c., y rhai, gallwn fod yn sicr, a ddaethant i Gymru gyda'r ffoedigion Huguenotaidd yn y flwyddyn 1685, pan ddiddymwyd Deddf Nantes,—neu yn ystod y cyfnod o haner can' mlynedd (1666—1715) y bu yr Huguenotiaid yn ymfudo o Ffrainc o herwydd erledigaeth grefyddol.

Cawsom drafferth i ddosbarthu amryw gyfenwau, y rhai a allesid eu doddi yn mysg Cyfenwau Seisnig yn Nghymru (gwel ysgrif II.), neu gyda Chyfenwau Normanaidd, &c., Cymru. Ni ddilynasom unrhyw reol arbenig yn hyn o beth: y y mae y dosbarthiad yn hytrach wedi bod yn bwn o farn bersonol, er i ni osod pob enw Normanaidd a gyfnewidiwyd i radd helaeth, wedi'r cyfnod a adwaenir yn hanes Lloegr fel y "Cyfnod Normanaidd," yn mysg cyfenwau Seisnig: er engraipht, y cyfenwau Hopkins, Watkins, Wilkins, &c.

Daeth cyfenwau Normanaidd gyntaf i Gymru gyda Robert Fitzhamon a'i ddeuddeg marchog, y rhai y cawn eu bod wedi ymsefydlu ym Mro Morganwg, adeg marwolaeth William yr Ail, yn y flwyddyn 1100. Gallwn, felly, gymeryd yn ganiataol fod enwau a chyfenwau Normanaidd yn bod yn Sir Forganwg am beth amser, feallai am genedlaethau, cyn cael eu mabwysiadu ym mharthau eraill Cymru; a rhesymol yw tybied fod yr enwau yma wedi cael eu mabwysiadu i ryw raddau yn ystod y ddeuddegfed ganrif gan Gymry Morganwg, y rhai a orfodwyd i ymostwng i lywodraeth y Normaniaid. Fel ag yr hysbysir ni yn nghofnodion Maine y Brenhin (1194—99) fod hen enwau bedydd Sacsonaidd, &c., wedi eu rhoi o'r neilldu yn Lloegr, yn y ddeuddegfed ganrif, i wneud ffordd i enwau Normanaidd, felly hefyd yn y ganrif ganlynol cawn gyfnewidiad o'r natur yn cymeryd lle i raddau pell yn Sir Forganwg ynglŷn â enwau Cymreig. Gwelwn, oddiwrth restrau dyddorol o enwau dirprwywyr a benodwyd i chwilio i mewn i werth iawnderau gwriogaethol (*feudal*) Arglwydd Morganwg, a geir mewn ysgrifau yn perthyn i'r flwyddyn 1262 (*Public Record Office, London, Bag 1, No. 15*) fod yr holl enwau a roddir mewn rhai manau yn ei diriogaeth yn Normanaidd,—er engraipht, yn Nghaerdydd; fod yr enwau mewn manau eraill yn gymysgelyd, hyny yw, yn Normanaidd ac yn Gymreig,—megis yn Nghastell Nedd; tra, mewn manau eraill, y mae y cwbl yn rhai Cymreig, megis yn Llan Trisant. Yr enw Philip ab Llewelyn yw yr unig eithriad yn Llan Trisant; a gall fod yr enw Beiblaidd Philip yno cyn dyfodiad y Normaniaid. Byddwn yn ymdrin â enwau Beiblaidd Cymru mewn ysgrif arall. Y mae y ffeithiau hyn yn profi fod enwau Normanaidd wedi eu mabwysiadu yn raddol ym Morganwg ar draul enwau Cymreig benafol; a gallwn ddweyd gyda sicrwydd y bu'r cyffelyb gyfnewidiad wedi hyn, o bryd i bryd, drwy Gymru benbaladr, unwaith y deuai'r dylanwad Normanaidd i gymeryd gafael mewn unrhyw ardal arbennig. Y mae rhesymau cedyrn dros gredu fod enwau Eilmyngig yr allfro wedi eu mabwysiadu yn raddol gan dirfeddianwyr mawrion Cymru, dosbarth oedd yn cynwys pendefigion a bonedd y tir, yna gan eu gweision a'u deiliaid, ac, yn ddiweddar oll, gan y werin.

Teimlodd Deheudir Cymru ddylanwad y gorchfygiad Normanaidd yn llawer cynt na Gogledd Cymru. Ymddengys fod gweithgarwch y Normaniaid wedi ei gyfyngu am beth amser i siroedd Mynwy a Morganwg, ac i ranau o siroedd Cymreig y Goror. Ni ddarfu i'r Normaniaid fentro ymwithio i berfedd-dir Cymru cyn iddynt yn gyntaf ddarostwng y rhanau hyny o'n gwlad. Yr ydym yn gwybod eu bod wedi meddianu rhanau helaeth o siroedd Aberteifi a Phenfro

cyn diwedd teyrnasiad y Brenhin Harri'r Trydydd (1272); ond ni ddaeth Cymru i gyd o dan gysgod y gallu Normanaidd hyd deyrnasiad ei olynnydd, Edward y Cyntaf. Colodd Cymru ei hannibyniaeth ar farwolaeth ei thywysog olaf, Llewelyn ap Iorwerth, yn 1282. Pan ddeuai unrhyw ardal i feddiant y Normaniaid, y peth cyntaf a wneid ydoedd adeiladu castell neu gestyll er mwyn amddiffyn a chadw yr ardal hono yn eu meddiant. Wedi adeiladu'r castell cymmerid gofal i osod gwarchodlu digonol yno; ac yn ddiddadl fe warchodwyd y cestyll Cymreig hyn yn ôd am dymor maith wedi i Gymru roi i fyny obeithio am gael ei hannibyniaeth yn ôl, ac wedi iddi blygu yn ddistaw (oddigerth gwrthryfel Owain Glyndwr) i'w thynged anocheladwy. Y mae Cymru wedi ei britho bron âg adfeilion yr hen gestyll hyn, a adeiladwyd neu a ail-adeiladwyd gan y Normaniaid. Fel y byddai y Cymry yn ymddistewi ac yn myned yn llai gelyniaethus, cynyddai y cylauwad Normanaidd yn ddirfawr; ac yn ddiarheu mabwysiadwyd enwau Normanaidd cyn pen hir yn raddol heb ddim rhagfarn, nes o'r diwedd y dadwreiddiwyd yr hen enwau Cymreig hynny a ddefnyddid yn Nghymru ac yn Mhrydain er cyn cof. Nid oedd hyn eto ond ail-adroddiad o'r hyn a ddigwyddodd yn Lloegr. Wrth chwilio hen ysgrifau Seisnig y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, cawn fod bron yr holl enwau personol a gynnwysir ynddynt, oddigerth ambell i eithriad anughyffredin, yn enwau Normanaidd. Y mae yr hen enwau Anglaidd a Sacsonaidd wedi eu diarddel. Cawn fod cyfnewidiad o'r natur yma gyda golwg ar fabwysiadu enwau, ac hyd yn nod gyfenwau, y genedl fuddugoliaethus wedi digwydd bron ymhob gwlad ddarostyngedig. Cawn ergreiphtiau o hyn yn ein Trefedigaethau, ac yn yr India. Y mae brodorion y gwledydd yma fel pe buasent, i raddau pell, wedi, neu yn, mabwysiadu yn raddol, enwau Seisnig yn hytrach na pharhau i ddefnyddio eu henwau desgrifiadol henafol.

I iawn ddeall pa mor drwyadl y cyfnewidiwyd neu, yn wir, y chwildrowyd enwau beddydd neu enwau Cristionogol Cymru rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r unfed ganrif ar bymtheg, ni raid i unrhyw un ond cymharu yr enwau personol a roddir yn Nghofrestr Caernarfon (*Record of Carnarvon*) â'r enwau a geir yn ysgrifau Cymreig yr unfed a'r eilfed ganrif ar bymtheg. Cynnwysa Cofrestr Caernarfon enwau y trefedigaethau, y deiliaid, &c., yn y tair sir—Mon, Caernarfon, a Meirionydd. Ymddengys y rhan gyntaf, perthynol i Fon ac i Gaernarfon, fel wedi ei hysgrifenu yn y flwyddyn 1353 (26 Edward III.), tra yr ysgrifenydd y gweddill, sef rhestr Sir Feirionydd, y mae yn bur debyg, yn ddiweddarach. Dywed Mr. Henry Ellis fel hyn, yn ei Ragarweiniad i'r argraffiad o Gofrestr Caernarfon, a gyhoeddwyd trwy orchymyn y Frenhines yn 1838:—"Pan yn cofrestru enwau y deiliaid, rhoddir eu henwau yn Rhestr Meirionydd, fel rheol, am bedair, yn amyl bump, ac ambell i waith, hyd yn nod, chwech neu saith genhedlaeth. Y mae hyn yn unig yn dangos fod Rhestr Meirionydd yn ddiweddarach na Rhestrau Caernarfon a Mon. Y mae iddi arbenigrwydd arall hefyd, yn y defnydd amyl, a bron parhaus, a wneir o *v'z* neu *u'z* am *verch*, . . . yr hyn a ddigwydda yn anaml yn Rhestrau Caernarfon a Mon, yn mha rai y defnyddir y cyfystyr *filia*." Yr ydym yn cytuno â Mr. Ellis fod Rhestrau Caernarfon a Mon yn hŷn na Rhestr Meirionydd; ond nis gallwn gytuno â'i resymau dros yr honiad yma. Yr ydym yn credu y buasai presenoldeb enwau hirion y deiliaid y cyfeirir atynt, ynddo ei hun, yn ddangosiad cryf fod Rhestr Meirionydd yn hŷn na'r lleill; ond gan yr edrychir ar Feirionydd yn ddiddadl bob amser fel y sir fwyaf Cymreig yn Nghymru, nid ydym yn rhyfeddu fod yr enwau hirion yma yn cael eu defnyddio y pryd hyn, na bod y gair "*verch*" yn digwydd yn barhaus yn y Rhestr yna. Yr ydym yn cael ein harwain i gredu fod Rhestrau Mon a Chaernarfon wedi eu paratoi cyn Rhestr Meirionydd, am fod enwau Normanaidd yn llawer lluosocach yn y Rhestr olaf nag yn y ddwy arall; ac nis gellir esbonio y ffaith yma ond drwy ganiatai fod Meirionydd wedi bod yn fwy agored i ddylanwadau Normanaidd yn gynt na Mon a Chaernarfon. Ni fuasai unrhyw hanesydd Cymreig yn amddiffyn haeriad fel hwn. Tra y mae Rhestrau Mon a Chaernarfon yn llawn o enwau Cymreig henafol, megis Cadwgan, Eignion, Gethin, Gruffydd, Goronwy, Ithel, Macog, &c., nis gallwn ddod o hyd i fwy na saith enw Normanaidd yn y ddwy restr, sef, Hammond, Henry, Kenric (?), Morris, Robert, Reginald, Trentham, a William. Cawn y rhai hyn yn y ffurfiau, *Homond*, *Henr*, *Ken*, *Morys*, *Ropp't*, *Reginaldus Trentham* o *Novum Burgum* (Niwbwrch, Mon), a *Wilym*. Fel y dywedwyd yn barod, cawn lawer mwy o enwau Normanaidd yn Rhestr Meirionydd nag yn y gweddill o Gofrestr Caernarfon; ac am ein bod yn credu fod Rhestr Meirionydd wedi ei hysgrifenu yn ddiweddarach na'r rhestrau eraill, yr ydym yn casglu fod enwau Normanaidd wedi eu mabwysiadu yn y cyfamser i'r

fath raddau, ac mor gyflym, yn y tair sir, fel ag yr oedd mwy o enwau Norman-aidd yn Meirion ar y pryd yr ysgrifenuyd ei rhestr, nag oedd yn Nghaernarfon a Mon, rai blynyddoedd cyn hynny, pan yr oedd rhestrau y ddwy sir yma yn cael eu doddi ynghyd.

Cawn restr ddyddorol o enwau rhai o fwrdeiswyr Dinas Mawddwy mewn breinlen (*charter*) a roddwyd yn y flwyddyn 1391 gan John, Arglwydd "Mowthwy," i David Holbarch a bwrdeiswyr eraill, ac a argraphwyd yn y *Powys-lund Club Papers* (cyf. i., tud. 182). Cadarnhawyd y freinlen yn 1423 gan Hugh Burgh. Mae y rhan fwyaf o'r enwau bron yn hollol Gymreig, megis, "Madocke ap David ap Madocke," "Risett Duy ap Dd, lloid," "Madock Brydith," &c.; tra y mae y gweddill yn enwau Beiblaidd, Normanaidd, neu Seisnig. Cawn enwau fel "William ap Adaf ap Tudor," "Margaret filie Laurencii," "Johanni ap Laurens," "Wilcocke ap Gruffuth ap Wilcocke," a "Dd. ap Ithell ap Morris Mawre," yn y rhestr hon. Gwelwn felly fod yr enwau Normanaidd William a Morris wedi cyrhaedd Dinas Mawddwy erbyn y flwyddyn 1391.

Ar ol edrych drwy'r *Heraldic Visitations of Wales*, gan Lewis Dwnn, a gyhoeddwyd yn 1586, yr ydym yn casglu fod yr enwau Rhisiart (Richard), Robert, Harri, Prys (Pierce), a Huw (Hugh), wedi gwreiddio yn Sir Gaernarfon fel enwau bedydd erbyn capol yr unfed ganrif ar bymtheg; ac y mae yn amlwg fod enwau Normanaidd ar arfer yn y tair sir, Mon, Caernarfon, a Meirionydd, ac yn ddiau trwy Gymru i gyd, erbyn 1580; ond nid ydyw yn ymddangos fod cyfenwau sefydlog wedi eu mabwysiadu eto gan foredd Gwynedd, fel y gwnaeth uchelwyr siroedd Abertefi a Phenfro, y rhai yr arweinir ni i gredu oeddynt yn dilyn bonedd Lloegr yn hyn o beth. Cawn fod bonedd Morganwg a Mynwy wedi cofleidio cyfenwau pendant tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Mabwysiodd teulu Herbert gyfenw sefydlog neu bendant yn y flwyddyn 1556; ac y mae yn bur debyg fod teuluoedd mwyaf urddasol y ddwy sir ar y pryd wedi dilyn eu hesiampl. Y mae rhestrau enwau uchel reithwyr (*grand juries*) Sir Dre Faldwyn, yn nechreu teyrnasiad y Frenhines Elizabeth (1558), yn rhoddi sail i ni i gredu fod enwau Normanaidd y pryd hynny yn gymeradwy gan fonedd y sir hono. Cawn enwau fel Edmund, Edward, Reynold, Richard, Roger, &c., yn rhestr yr uchel reithwyr am 1560—61, yn ogystal a'r hen enwau Cymreig, Ieuan, Prytherch, Owen, &c. Ymddengys oddiwrth y rhestr hon nad oedd cyfenwau sefydlog i'w cael yn mysgr prif deuluoedd y sir cyn 1560 neu 1561. Yr ydym yn lled-dybio fod Lewis Dwnn wedi ceisio defnyddio'r cyfleusderau a roddwyd iddo yn ystod ei deithiau achiyddol i argymhell hen deuluoedd Cymru (a gadwent at yr hen ddull Cymreig o newid yr enw bob cenhedlaeth) i fabwysiadu cyfenwau sefydlog yn ol dull boneddigion Lloegr; oblegid ar ol adeg ei deithiau ef, tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, cawn fod bron y cwbl o'r prif deuluoedd Cymreig drwy Gymru wedi cydymffurfio â'r arferiad Seisnig.

Enwau bedydd eu tadau neu eu teidiau, fel rheol, ydoedd y cyfenwau a fabwysiadwyd gan fonedd Cymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ganrif ddilynol; felly, pan ddaeth y werin bobl i fabwysiadu cyfenwau, dilynasant esiampl y boneddigion, a chymerasant, bron yn gwbl oll, enw'r tad fel cyfenw. Y mae yn anffodus iawn fod ein henafiaid, ychydig genhedlaethau yn ol,—neu, yn wir, efallai mewn canoedd o engreiffitiau, ddim ond cenhedlaeth neu ddwy yn ol,—wedi ymfoddloni, fel rheol, ar ychwanegu y llythyren *s* at enw'r tad er mwyn ei wneud yn gyfenw sefydlog a Seisnigaidd ei arddull. Dywedir fod y llythyren *s*, pan ychwanegir hi at enw bedydd neu enw Cristionogol gyda'r amcan o wneud cyfenw Seisnig, yn arwyddocâu y gair Seisnig *son* neu *fab*; ac felly ffurfir oddiwrth yr enw Harry, y cyfenw Harris yn ol y dull Seisnig, neu y cyfenw Parry (ap Harry), yn ol yr hen ddull Cymreig. Pan y cofiwn nad oedd Rhisiart William ond ffasiwn newydd o ddweyd Rhisiart ap William (neu Gwilym), &c., ac mai ffasiwn, neu ddull diweddarach fyth, o ddweyd yr un peth ydyw Richard Williams, gwelwn i'n henafiaid Dic-Sion-Dafyddol, pan yn dilyn y Saeson yn hyn o beth, yn ddarwybod gorpheri yn eu cyfenwau, ffasiwn newydd, oedd, gydag ambell eithriad, yn arwyddocâu yn wirioneddol y cyfnewidiadau a wnelid. Yr eithriadau y cyfeirir atynt ydyw y cyfenwau a ffurfiwyd oddiwrth enwau teidiau. Cawn engraipth o hyn ar dudalen 82, cyf. ii., o lyfr Lewis Dwnn y cyfeiriwyd atto yn barod, lle y gwelwn fod Hugh Davies, mab Morys ap Gruffydd ap Dafydd, &c., wedi mabwysiadu Davies fel cyfenw tua'r flwyddyn 1600. Merch ydoedd ei fam, Lowri, i ryw "Dafydd Lloyd ab Sion Gruffydd," o Leyn, yn Sir Gaernarfon.

Gofidia ysgrifenydd erthygl yn yr *Edinburgh Review* (cyf. 101) am fod nifer fechan o gyfenwau ag sydd wedi tarddu o enw Cristionogol tad neu fam yn

cynrychioli "corph y boblogaeth." Y mae ysgrifenydd arall i'r *Cornhill Magazine* (1868), pan yn cyfeirio at adroddiad y Cyfeirydd Cyffredinol (*Registrar General*), yn datgan ei farn fel hyn:—"Y mae ein cyd-ddeiliaid yn Nghymru wedi bod bob amser ym mhell ar ein hol ar y pwnc o enwau priod a theuluaid. O'r diwedd, pan, ar ol hir cedi, y mabwysiadasant ein trefn ni o gyfenwi, yn lle eu dull trwsogl hwy eu hunain, ymddengys eu bod wedi dewis ac wedi glynu wrth y dosbarth symlaf o'n henwau, ac esgeuluso bron y cwbl o'r gweddill." A phan yn cyfeirio at y cyfenw gor-boblogaidd Jones (cawn draethu arnomewn ysgrif arall ar Gyfenwau Beiblaidd), ychwanega yr ysgrifenydd fod y cyfenw yma mor gyffredin yn Nghymru fel ag y tueddid ef i feddwl "ei fod yn cangos fod yn well gan y cyffredin y dull symlaf o enwi eu gilydd, yn hytrach na theitlau desgriafadol a pherdant. Gorbwysa'r enw yma bob enw arall i'r fath raddau ymhlith y Cymry nes gwneud pwnc eu henwau teuluaid yn llawer llai dyddorol nag enwau Lloegr." Gallasai yr ysgrifenydd ychwanegu fod ein henwau teuluaid ni nid yn unig yn "llai dyddorol" ond hefyd yn fwy dyrlyd na chyfenwau Lloegr. Nid ydym ar ein penau ein hunain yn hyn o beth. Dywed L. Lloyd, yn ei *Scandinavian Adventures*, a argraphwyd yn 1854, fod gwreng Sweden, yr amser hono, yn mabwysiadu cyfenwau parhaol o'r un flurf a'u henafiaid, gyda'r canlyniad fod cyfenwau Swedaidd yn ychydig mewn rhif, tra yr ydoedd nifer y Swediaid a wisgent yr un enwau yn gymesur fawr. Dywed,— "Buasai y dyrswch ag y mae y trefniant yma yn greu yn ddiwedd, oni h'ai, mewn pob pwnc o fasnach, fod enw cartref y sawl y cyfeirid atto yn cael ei ychwanegu. Felly, er mwyn osgoi y dyrswch yma, gelwir y milwyr yn y fyddin wrth flug-enwau (unsill fel rheol), megis enwau adar, bwystfilod, coed, &c." Y mae y rhan gyntaf o'r dyfyniad yma yn hynod o wir am Gymru wledig; canys os bydd angen gofyn am enw ryw berson yn byw yn un o drefydd neu bentrefydd Cymru a chanddo gyfenw poblogaidd, rhaid hefyd enwi galwedigaeth neu gartref yr hwn y cyfeirir atto, neu fe fydd naill ai'r gofynydd neu ei attebydd yn fuan yn dyrysu yn lân. Nid ydym yn gwybod a yw yr anhawsder Swedaidd yn codi yn ein byddin, (y mae llysenw yn gwneud y tro yn y *militia*); ond yr ydym yn deall y gwnawd i ffwrdd ag anhawsder o'r natur yma ynglŷn â gweiniogion y Trefnyddon Wesleyaidd yn Nghymru, trwy gyfeirio atynt fel hyn—y Parch. William Williams (A); y Parch. William Williams (B), &c. Ni raid ail-adrodd yr hyn a ddywedwyd mewn ysgrif flaenorol am yr anhwylysdod a'r camgymeriadau sydd beunydd yn codi yn ein mysg fel cenedl oherwydd aneglurder enwau Cymreig. Nis gallwn lai na gofidio am nad ydyw y priod-enwau gwir Gymreig a geir yn llw yn Nghofrestr Caernarfon ac mewn hen ysgrifau Cymreig eraill, ddim wedi cael eu mabwysiadu yn gyfenwau sefydlog, gyda'r un parodrwydd a chyfenwau Normanaidd a Beiblaidd. Nid ydyw yn rhy ddiweddar eto i gael cyfnewidiad trwyadl arall yn ein cyfenwau, am nad oes cyfraith yn erbyn newid cyfenw ac am nad ydyw yn angenrheidiol i gael caniatâd unrhyw lys i wneud hyny. Byddai rhoddi hysbysiad yn y papyr newydd o gyfnewidiad cyfenw, neu wneud y peth yn hysbys i'r cymydogion, yn ddigon o ddiogelwch pe buasai unrhyw un mor garedig a gadael ychydig o eiddo i gyfaill (ag oedd wedi newid ei gyfenw) o dan ei hen gyfenw. Y ffordd oren i newid cyfenw ydyw trwy weithred; ond os bydd y sawl a newidia ei gyfenw yn ofalus i gywiro unrhyw un a'i geilw wrth ei hen gyfenw, daw y peth yn fuan yn hysbys i bawb, ac ni fydd un anhawsder iddo brofi mewn unrhyw lys ei fod wedi newid ei gyfenw, tra y bydd tystion o hyny yn fyw; ond wedi iddo ef a'i genhedlaeth gael eu claddu erys gweithred yn brawf digonol o'r cyfnewidiad.

Os cymernw unrhyw restr o enwau a chyfenwau yn Nghymru o'r eilfed ganrii ar bymtheg hyd yn awr, naturiol fydd cael fod nifer rhyw enw neu gyfenw neillduol yn gwahaniaethu yn ol yr ardal neu yr ardaloedd lle y ceir yr enw, ac amseriad y rhestr am yr ardal neu yr ardaloedd hyny. Antonwyd deiseb i Oliver Cromwell yn 1655, sef "Cyfarchiad gostyngedig, &c. . . . amryw o Eglwysi a Chriſtionogion yn Neheudir Cymru a Sir Fynwy," yr hon sydd yn cynwys 762 o enwau, yn mysg y rhai ceir mai Thomas, Jones, a Williams, yw y cyfenwau mwyaf lluosog; a cheir y cyfenw Thomas yn blaenu, ar Jones y tro yma. Nid ydyw y cyfenwau Richards a Roberts mor gyffredin yn y rhestr ag y buasem yn disgwyl: y mae Walter neu Watkins bron mor lluosog a hwythau. Y mae nifer y cyfenwau gwir Gymreig yn y rhestr yn ymddangos yn fwy nag yn unrhyw restr gydmarol ddiweddar y gwyddom am dani. Pa fodd bynag am hyny, rhaid i ni beidio cymeryd yn ganiataol fod pob cyfenw a geir ynddi yn barhaol: (gweler y nodyn ar Lewis). Dichon fod enwau Normanaidd a Seisnig yn myned yn fwyfwy poblogaidd yn Nghymru ar ol hyd

yn nod yr eilfed ganrif ar bymtheg, a hyny er anfantais i'r enwau personol gwir Gymreig. Y mae yn ymddangos yn amlwg y gallwn, i ryw raddau, esbonio prinder cyfenwau gwir Gymreig yn rhestrau enwau Cymreig y ganrif bresenol trwy gofio am y mabwysiadu cyffredinol fu ar lawer o enwau Beiblaidd yn ystod y diwygiadau yng Nghymru,—enwau oeddynt cyn hyny yn ddieithr i'r bobl.

Y mae yn ymddangos, oddiwrth restr o etholwyr Sir Dre Faldwyn a anfonwyd yn ddiweddar gau Mr. Charles Ashton, o Ddinas Mawddwy, i'r *Bye-Gones*, mai Edward, Edwards; Humphreys; Lewis; Morris; Richard, Richards, Richardes; Roberts, a Williams, ydoedd y cyfenwau mwyaf poblogaidd o darddiad Normanaidd yn y sir hono yn y flwyddyn 1774,—er y gallm dybied oddiwrth y rhestr mai y cyfenwau mwyaf poblogaidd yn y sir oeddynt gyfenwau gwir Gymreig a chyfenwau Beiblaidd.

Y mae yn angenrheidiol hysbysu y darlennydd, cyn mynd yn mhellach, nad ydyw y ffaith fod cyfenwau o darddiad Ffrengig neu Normanaidd i'w cael mewn rhyw restr yn sail dros ddwyed mai yn ystod y "cyfnod Normanaidd" y daeth y rhai hyny i'r wlad yma. Y mae llu o gyfenwau Ffrengig wedi dyfod i'n plith er yr oes bell hono; ac y mae yn bur debyg nad yw llawer o'r bobl hyny sydd byth a hwyd yn hōni eu bod wedi dyfod i Loegr, neu, o ran hyny, i Gymru, "gyda'r Gorchfygwr," yn ddim angen na disgynyddion y miloedd gweithwyr tlawd, ac eraill, a gawsant noddfa a chartref parhaus yn Mhrydain Fawr yn amser dddymiad Deddf Nantes yn 1685. Dechreuodd yr Huguenotiaid ymfudo o Ffrainc yn 1666; ac aeth yr ymfudiad i'r wlad hon yn mlaen yn ystod eu herledigaeth gan Louis XIV.; a pharhaodd am tua haner can' mlynedd. Dywed Mr. Richard Williams, F.R.Hist.S., o'r Dre Newydd, mewn erthygl awgrymiadol a dyddorol ar y "Cyfenwau Estronol yn Sir Dre Faldwyn" a geir yn nghyhceddiad Cymdeithas Powys (gwel cyf. iv., tud. 409—412), fod rhai o'r ffoedigion hyn neu eu plant wedi ymsefydlu yn y sir hono; a chyfeirid at y traddodiad am benafiaid teulu Woods o Lan Bryn Mair yn d'od drosodd yn y llong o Ffrainc, &c., mewn cefn-cawelli (*kypes* neu *panniers*). Nid oes dim amheuaeth na ddarfu rhai o'r ymnoddwyr Huguenotiaid ymsefydlu yn Nghymru; a chred rhai y ba ymsefyddiad Huguenotiaid fel hyn yn Llan Bryn Mair. Y mae y Proffeswr J. E. Lloyd, o Goleg Prif Athrofaol Bangor, o'r farn fod presenoldeb enwau megis Francis, Jervis, Jarman, Tibbott, &c., yn ardal Llan Bryn Mair, yn cadarnhau y grediniaeth hon. Dywed Mr. Richard Williams nas gŵyr ef a oes sail i'r dybiaeth fod yna ymsefyddiad Huguenotiaid yn Sir Dre Faldwyn, er y dywed y gall fod rhai o'r Huguenotiaid wedi dod i'r sir, a'u bod wedi cadw eu henwau Ffrengig, neu, mewn rhai engreiphtiau, wedi eu newid am enwau Seisnig cyfystyr. Tueddir ni i gredu fod yr enwau German neu Jerman, Jarrett, Jervis, Jordan, Jeffries, a Tibbott, wedi d'od i Gymru gyda'r ymsefydlwyr Huguenotiaid, neu, efallai, Fflemhisaid; ond nis gallwn wirio y dybiaeth bersonol hon.

Cyfeiriwyd, ar ddechreu'r ysgrif hon, at enwau Llychlynnaidd a Fflemhisaid yn Mhenfro. Rhydd Mr. Edward Laws y rhestr ganlynol o'r enwau gwir Llychlynnaidd a geir hyd heddyw yn y sir, yn ei lyfr *Little England beyond Wales* (1888): (gwel tudalen 93):—Athoe—*aethoe*, ynys wiaid (*eider dacks*); Codd—*koddi*, clustog; Cole—*koller*, bryn; Coleby, bryn dy; Havard, *havardr*; Protheroe—*brodiroe*, brawd-dir, neu ynys brawd; Scall—*scald*, bardd neu gerddor; Scourfield, neu Scirfield, a elwir *sker, fel*; Craig, creigfryn; Stubbs—*stubby*, ystanc; Skyrme—*skroemi*, enw cawr; Tasker—*taska*, llogell. Dywed Mr. Laws y gall Prendergast, cyfenw sydd erbyn hyn yn anarferedig, fod yn Fflemhisaid, ac y gall ei ystyr fod yn "ddyn dieithr o Brender,—beth bynag yw ystyr hyny." Ychwanega y ceir yr enw yn mysg enwau swyddogion byddin William y Gorchfygwr yn rhestr Battell Abbey; a sylfaena ei farn fod y Prendergastiaid yn Fflemhisaid ar y ffaith fod "yr enw a'i gyfansoddiad yn debyg i enwau a geir yn rhagymadrodd y Gyfraith Salic."

Dywed Mr. Henry Owen, awdwr *Gerald the Welshman*, mewn erthygl ar "Y Fflemhisaid yn Mhenfro," a ymddangosodd yn yr *Archæologia Cambrensis* yn mis Ebrill, 1895 (*Fifth series*, No. 46) fel hyn:—"Adroddir yn y croniclau fod Harri y Cyntaf . . . wedi casglu y Fflemhisaid yn nghyd ac wedi eu gosod hwynt yn nghyntaf ar ddiffaeth-dir yr afon *Tweed*, ac wedi hyn eu symud i'r lle a adnabyddir yn awr fel Cantref y Rhos (*Roose*). . . . Gellir gweld hyd heddyw pa mor lwyf yr anfonwyd y trigolion i fwrdd oddiwrth absenoldeb enwau lleoedd Cymreig yn Rhos. . . . Ym Mrut Gwent cawn hanes am ddau sefydlad yn y Rhos, un yn 1106 a'r llall yn 1113; a chyn pob un yr oedd gorlifiad o'r môr wedi digwydd yn Nhir Flanders. . . .

Y mae lle i gredu fod y tai a'r pentrefydd canlynol wedi eu sylfaenu gan y Fflemhisiaid:—Herbrandston, Harmeston (Haimmerston), Hubberston (Hupertston) Jordanston, Lambston (Lambertston), Loveston (Luelston), Rogerston, Ripperston, Tankardston, Walterston, Uzmoston (Osmundston), ac feallai rai o'r Williamstons lluosog." Felly gwelwn fod enwau megis Herbrand, Harmer, Hubber, Jordan, Lambert, Roger, Ripper, Tankard, Walter, Osmund, a Williams, wedi dyfod yn rhanol i Gymru gyda'r Fflemhisiaid. Dywed Mr. Richard Williams, yn ei bapyr ar y "Cyfenwau Estronol yn Sir Dre Faldwyn," fod "yr ymfudiad Fflemhisaidd yn amser Harri y Cyntaf i dir Gŵyr a rhanau eraill o Ddeheudir Cymru, ac yna, mae'n bur debyg, mewn amser, i ryw raddau, i Sir Dre Faldwyn," yn egluro presenoldeb rhai o'r "cyfenwau estronol" a geir yn y sir hono. Ychwanega fod "y gwelliantau mawr a wnawd gan y Fflemhisiaid mewn gwlaneni a brethyn yn ddigon gwybyddus; ac y mae yn bur debyg fod Sir Dre Faldwyn yn ddyledus am ei henwogrwydd, am amser maith, fel prif-farchnad y fasnach wlanan Gymreig, i sefydliad cynar yr 'estroniaid mwyn a llesol tyn' y tu fewn i'w therfynau." Dywed Mr. Williams, mewn nodyn eglurhaol, fod y "pwys arferedig cyffredin (*avoirdupois*) a ddefnyddir wrth bwysu gwlan yn cael ei alw yn Sir Dre Faldwyn yn 'bwys Gŵyr.'" Ymddengys hyn yn brawf cryf o ddylanwad Fflemhisaidd yn y sir; ac nid ydyw yn afresymol tybied mai y Fflemhisiaid eu hunain ddaeth a'r pwysau neillduol yma i'r sir. Credwn fod llawer iawn o enwau, ac, o ran hyny, cyfenwau hefyd, o darddiad Fflemhisaidd yn Ngŵyr, plwyf Tre Fflemhis, &c., yn Morganwg, ac yn y Rhos, &c., yn Mhenfro.

Y mae nifer mawr o gyfenwau Normanaidd ac estronol eraill a gawd gynt yn Nghymru, yn awr yn anarferedig. Wele restr o rai o honynt; ac yn eu plith cawn amryw o gyfenwau a wisgwyd gan deuluoedd urddasol a fu gynt mewn cryn fri mewn gwahanol ranau o Gymru:—Agnew, Beauchamp, Bonville, Bowdler, Burghill, De Breos, De Cantalupe, De Clare, De Granville, De Humphreville, De St. Quentin, De Syward, De Turberville, Delmar, Despencer, Devereux, Fleming, Gamage, Gunter, Le Esterling, Lefeaux, Le Fleming, Le Sore, Malefant, Pirgott, Prendergast, Rutter, Tarte, Twistleton, Vavasour, Voss, Walbeoffre, &c.

Dyma restr arall o gyfenwau Normanaidd, &c., sydd i'w cael yn awr yn Nghymru. Nid ydym yn hōni fod y rhestr yn un gyflawn; ond credwn ei bod yn cynhwys y cyfenwau Normanaidd, &c., mwyaf adnabyddus a mwyaf cyffredin yn ein gwlad ar hyn o bryd:—Athoe, Aubrey, Bassett, Bonner, Bryan, Bryans, Bryant, Chambers, Chambres, Charles, Codd, Cole, Colby, Coleby, Corbet, Corbett, Delay, De Winton, Edmond, Edmondes, Edmund, Edmunds, &c., Edward, Edwardes, Edwards, &c., Esmond, Ffoulkes, Ffoulks, &c., Francis, Fraser, German, Gibbie, Gilby, Gibbs, Gilbert, Gillart, Gittin, Gittins, Hamar, Hamond, Hammond, Harry, Harrys, Harris, Harry, Harhys, Havard, Henry, Hendre, Hendrie, Herbert, Homphray, Humphrey, Humphreys, Humphries, &c., Hugh, Hughes, &c., Issard, Jarman, Jerman, Jarrett, Jarvis, Jervis, Jordan, Jeffries, Jeffrys, Kenric, Kenrick, Lewes, Lewis, Lodwick, Lodwig, Malpas, Morice, Morrice, Morris, Morrish, Morse, &c., Nevill, Noot, Oliver, Pearce, Fears, Pierce, Percival, Protheroe, Puleston, Randell, Reynolds, Rhos, Roose, Richard, Richards, Rickard, Rickards, &c., Robartes, Robert, Roberts, &c., Rodrick, Rodrick, Rodger, Rodgers, Roger, Rogers, Rowland, Rowlands, &c., Salisbury, Salisbury, Salusbury, Scall, Scourfield, Skyrme, Stradling, Stubbs, Talbot, Tasker, Tibbott, Turberville, Vazey, Walter, Walters, William, Williams, &c.

Yr ydym yn bwriadu, maes o law, esbonio, &c., y rhan fwyaf o'r cyfenwau hyn bob yn un ac un. Fe welir fod amryw o honynt yn cael eu sillebu mewn gwahanol ffyrdd. Gellir rhoi dau reswm am hyn: yn gyntaf, ansefydlogrwydd orgraff enwau yn yr amser gynt, (beth am ein horgraff Gymreig?); ac yn ail, anwybodaeth neu ddiffyg addysg. Ceir nifer lluosog o engreiphtiau diweddar o gyfenw yn cael eu sillebu mewn gwahanol ffyrdd gan y person a'i gwisgai; a gwyddom am engreiphtiau o wahanol aelodau o'r un teulu yn sillebu eu henw teuluaidd, bob un yn ei ffordd ei hun. Yr ydym wedi cyfarfod â Chymry oeddynt yn ofalus iawn i ddweyd wrthym fod eu cyfenwau yn fwy anghyffredin na rhyw gyfenwau cyffredin arall o'r un sain, ond gyda sillebiaeth gwahanol; ac yr oedd yn amlwg eu bod yn falch o'r gwahaniaeth dinod yma, gwahaniaeth nad oedd wedi codi yn gwbl oll mewn prif athrofa, megis yr engraipt a roddir yn is i lawr. Engreiphtiau o'r natur yma ydyw Harries, neu Harrys, am Harris; Morrice, Morrice, Morrish, &c., am Morris; Rodger, Rodgers, &c., am Roger neu Rogers, &c. Y mae engreiphtiau diddiwedd o wahanol ffurfiau o'r

J6323

(delwedd J6323) (Ebrill 1898) (tudalen 94)

un enw yn ymddangos mewn hen restrau. Bydd un engraipht o Gofrestr Prif Athrofa Rhydychain yn ddigonol. Yr un ydyw "Rhys Lewis Davids," yr hwn a ymddengys mewn rhestr o'r efrydwyr a raddasant yn 1582, a "Rice Lewys Davis," a gawn yn mysgr yr enwau, mewn rhestr gynarach, o'r rhai hyny a aethant trwy eu harholiad cyntaf yn y Brif Athrofa yn llwyddianus.

Cyn ymwneud â'r cyfenwau uchod bob yn un, ac un, yr ydym yn teimlo y dylasem enwi y llyfr dyddorol hwnw a elwir *The Cymry of '76*, yr hwn a argraphwyd yn yr America yn 1855, ac a ysgrifenyddwyd gan "Alexander Jones, M.D.;" a chyfeiriwn y darlennydd at y rhan hwnw o hono sydd yn ymwneud â chyfenwau y Cymry, lle y rhoddir traddodiadau tra hynod ac o ddychymyg noeth i'r rhan fwyaf o honynt. Tra yn edmygu brwdfrydedd gwladgarol Dr. Alexander Jones pan yn esbonio cyfenwau Cymreig, y mae yn ddrwg genym nad oedd ei wybodaeth o'i destyn yn gyfartal i'w frwdfrydedd, o herwydd naill ai fe ganiatâodd i'w sel wladgarol ddallu ei ddoethineb fel ag i'w arwain i darddu bron bob cyfenw yn Nghymru o ffynonhellau Cymreig, neu ynte fe gymerodd o'i wirfodd fantais ar anwybodaeth ei gydswadwyr o'r pwne, i'w camarwain mewn ffordd mor ddenol. Nis gallwn ddychymyg am unrhyw ysgrifenydd mor aunoeth neu mor faleisus a gwneud hyn; eto, y mae yn anhawdd iawn credu fod y meddyg o ddifrif, yn enwedig pan yn ymesgusodi fel hyn:—"Gwyddom y gall ein darnodiadau fod yn groes i'r hyn a dybiwyd gynt, ac y gall na fyddant bob amser yn hollol gywir." Dyma rai o'r tarddiadau a rydd i enwau Normanaidd, &c.:—Hughes, *Hu*, enw am dduw neu berson dwyfol; Lewis, *Llew*, (Lodwig yn yr Almanac, a Louis yn y Ffrancaeg); Morris, *mor ys* (dwr); Rowland, hen enw Cymreig, *rhodyn*; Watkins, *gwadu*; Walter, *gwalltir* neu *gwalther*, *gwallt hir*, neu *gwalltwr*, masnachydd gwallt; William, *gwyllo*.

Cawn gyfleustra eto mewn ysgrif arall, feallai, i ymgynghori â'r meddyg Alexander Jones pan yn ymwneud â chyfenwau gwir Gymreig; boed y darlennydd yn foddolawn yn awr ar wybod fod y meddyg yn dweud fod y cyfenw Seisnig, Carew, wedi ei gymeryd yn wreiddiol o'r creadur hwnw a elwir yn Gymraeg yn *garw* neu *carw*. Fe'n temtir ni i ddweyd fod yn rhaid fod Dr. Jones mewn tywydd *garw* ar y pryd y ceisiai esbonio y cyfenw yma.

Awn yn mlaen, y tro nesaf, i egluro rhai o'r cyfenwau Normanaidd, Tentonaidd, &c., mwyaf adnabyddus a mwyaf cyffredin yn Nghymru.

T. E. MORRIS (MORUS GLASLYN).

J6324


CADBURY'S COCOA

ABSOLUTELY PURE, THEREFORE BEST.—The Standard of Highest Purity.—*Lancet*

RHIF. 3.]

GORPHENAF, 1898.

[CYF. XVI.]



CYLCHGRAWN CHWARTEROL CENEDLAETHOL.

CYNHWYSIAD.

"Cyfraith Moses, a'r Prophwydi, a'r Salmau." Gan y Parch. Emrys ap Iwan ..	145	Ceinion y Gynganedd. Gan Alafon ..	195
Monwyson. Gan y Parch. Richard Morgan (A.) ..	151	Fy Nghylch-fywyd. Gan Feiriadog ..	209
Y Celt Cymreig a'i Bwlpud. Gan y Parch. R. Gwylfa Roberts ..	155	Tudalen ym Mywyd Myfyr Emlyn. Gan Mr. D. James ..	202
Llenyddiaeth Gymreig y Triugala Mlynedd Diweddaf. Gan y Parch. Griffith Ellis, M.A. ..	160	Perygl Newydd Cymru. Gan Gildas ..	207
Hiraethog. Gan y Parch. William Hugh Evans (Gwylt y Mynydd) ..	167	Parthau Cymru. I. Sir Gaerfyrddin. Gan Watcyn Wyn ..	215
Son am Ysgolion Cymru. Gan y Proffeswr John Rhys, M.A., LL.D. ..	172	GWEDDILLION LLENYDDOL—	
"Methodistaeth Galfinaidd a'r Eglwys yn Nghymru." Gan y Parch. R. H. Morgan, M.A. ..	177	Llythyr oddiwrth J. W. Pritchard, Plasbybrain, at Ddewi Wyn o Eifion ..	216
Hunan-ddiwylliant yn ei Berthynas a'r Deffroad yn Nghymru." Gan Syr Lewis Morris ..	184	Nod Angen Duchangerdd. Gan Greuddynfab ..	216
Cyfenwau Cymreig. IV. Cyfenwau Normanaidd, &c., Cymru. Gan Mr. T. E. Morris, B.A., LL.M. (Morus Glaslyn) ..	187	Englyn. Gan Nicander ..	216
		Manion Barddonol. Gan Mr. J. Griffiths, Mr. R. Rees (Isfryn), Mr. W. F. Evans, Mr. Richard Jones, Mr. Ellis John Williams, Peryf Gwynedd, Berw, Glan Coron, Mr. Owen Parry.	

CARNARFON: ARGRAFIWYD A CHYHOEDDwyd gan GWYNI'R WAIG GENEDLAETHOL GYMREIG (CYF.), YN SWYDDFA'R "GENEDL."

PEIS SWLLT Y CHWYTH—Y'W DALU WETH EI DDEUDYD!

[ALL RIGHTS RESERVED.]

J6401

(delwedd J6401) (Gorffennaf 1898) (clawr)

CYFENWAU CYMREIG.

IV. CYFENWAU NORMANAIDD, &c., CYMRU.—(PARHAD).

HEN gyfenw ym Mrycheiniog a Morganwg ydyw Aubrey. Talfyriad ydyw o *De Alberico*. Ymddengys mai y ffurf wreiddiol ydoedd *Amalaric*, neu *Amalarich*, yn arwyddocâu gallu neu gyfoeth. Dywed Lower a Miss Yonge mai ei ystyr ydyw "penaeth ellyll," tra y mynega Charnock mai ei ystyr ydyw "galluog heb gam," neu "diwair gyfoethog." Rhoddwyd tiroedd i Syr Reginald Aubrey yn Aber Cynrig, a Slwch, ym Mhrycheiniog, yn 1088, gan Bernard de Newmarch. Syr John Aubrey, Barwnig, o Lan Trithyd, ydoedd aelod seneddol Caerdydd yn 1707; a bu wedi hyny yn uchel sirydd dros Forganwg.

Daw Bassett, neu Basset, o'r hen Ffrancaeg *basset*, "corddyn" (Lower); er y myn Ferguson, yn ei *English Surnames*, ei fod wedi tarddu o'r hen eiriau Llochllynuaidd (*Norse*), *bassi*, *bersi*, a *bessi*, ystyr pa rai ydyw "blaidd." Hen gyfenw ym Morganwg ydyw Basset. Bu teulu dylanwadol iawn o'r enw yn byw yn Nghastell Bewpyr am ganrifoedd, a cheir yr enw yn fynych ymysg uchel siryddion Morganwg. Y mae enw y Parch. Christopher Bassett, Curad St. Fagan's, yn adnabyddus fel cyfaill trwyadl i'r Methodistiaid Calfinaidd yn ystod rhan o'r ganrif ddiweddar.

Dywedir mai o'r Ffrancaeg *bonaire*, "tirion," y tardda Bonner; ond tybiem mai talfyriad ydyw, fel Bunner, o'r Cymraeg Ap Ynyr: a chawn gyfeirio at y cyfeuw yma mewn ysgrif ddyfodol ar Gyfenwau Gwir Gymreig.

Y mae y cyfenwau Bryan, Bryans, a Bryant, a geir yn siroedd Dinbych a Fflint, un ai yn Normanaidd neu yn Geltaidd, neu, feallai, bob un o'r ddau. Dywedir fod yr enw Normanaidd Brionne, yn codi o Brionne yn Normandi, wedi ei newid i'r ffurf *Bryon* yn y flwyddyn 1259. Ceir eglurhad pellach mewn papur arall ar Gyfenwau Gwir Gymreig.

Tarddiad Chambers, hen gyfenw yn Sir Ddinbych, ydyw *De Camera*.

Ceir y cyfenw Charles yn Neheudir Cymru. Llygriad ydyw o'r Ellmynig *Karl*, "cryf," "dewr," &c. "Charles" a "Chyarlys" ydyw dull y Brutiau Cymreig o enwi brenhinoedd Sicily a Ffrainc a ddygent yr enw yma.

Yr un ydyw Corbet a'r gair Ffrengig am *gigfran*. Yr oedd y Corbetiaid o Ynys Maengwyn yn hen deulu adnabyddus ym Meirion.

Cawn yr enw teuluaid De Winton ym Maesefed, Brycheiniog, ac Arfon. Y mae un teulu Cymreig o'r enw yma yn hōni ei fod yn disgyn o Robert de Winton, i'r hwn y rhoddwyd tiroedd ger Pontfaen, gan Robert Fitzhammon, yn amser Gwilym Fuddug (*William the Conqueror*).

Y mae y cyfenwau Edmond, Edmondes, Edmund, Edmundes, &c., yn tarddu o'r enwau personol Llochllynuaidd *Jatmundr* neu *Eatmund*; a cheir hwynt yn y *Domesday Book* yn Edmond ac Edmund. Ffurf Ffrengig o'r enw gwreiddiol ydyw Edmond. Daeth yr enw i Brydain gyda'r Sacsoniaid, ac i Gymru gyda'r Normaniaid. Ymddengys i'r enw gael ei fabwysiadu yn gyffredin gan y Cymry; ac erys hyd eto yn gyfenw poblogaidd. Ni chyll Edmund ei boblogrwydd yn Nghymru tra y coffheir enw Edmond Prys, ein perpsalm-ganiedydd. Rhoddir gwahanol ystyr i'r enw gan bron bob ysgrifenydd ar Enwau. Dyma rai o honynt:—"Gwir fynegydd" (Lower); "dedwydd heddwch" (Arthur); "noddwr dedwyddwch" (Charnock); "nawdd llwyddiant" (Ferguson), &c.

Tardda y cyfenw poblogaidd Edwards, a'r enw personol Edward, o'r enw Llochllynuaidd *Jatwaror*. Pan y cofiwn mai enw estronol ydyw Edward, ac mai dyna oedd enw'r brenin ddarostyngodd y Cymry ac a achosodd farwolaeth Llewelyn ein llyw olaf, galleid meddwl y buasai atgasedd neillduol yn y Cymry tuag ato; ond pan y dilewyd y cyfreithiau anghyflawn yn eu herbyn, a phan ddaeth y Cymry a'r Saeson i ddeall eu gilydd yn well, daeth yr enw i fri; ac y mae yn ffaith ryfedd fod yr enw yn un mwy poblogaidd yn ein mysg nag ydyw yn Lloegr, gwlad ei fabwysiad. Y mae yr awdurdodau yn anghytuno eto gyda golwg ar ystyr yr enw Edward. Dywed Camden ac Arthur mai ei ystyr ydyw, "y gwyliwr dedwydd;" tra mai y cyfieithiadau a rydd Lower ydynt, "gwyliwr y gwir," neu "y dyn fyddlawn." Nid ydyw yr ystyron a roddir gan Charnock, "gwyliwr dedwyddwch," a chan Ferguson, "gwyliwr llwyddiant," yn gwahaniaethu nemawr oddiwrth y cyfryw.

Ffoulkes, Ffoulks. Dyma gyfenw arall sydd yn bur boblogaidd yn Nghymru. Tybir mai yr hen enw Ellmynig, *Fulcho* neu *Falacho*, "nodded y bobl," ydyw y gwreiddiol. Rhydd y Parch. Henry Barber restr o'r gwahanol ffurfiau o'r enw a geir mewn amryw wledydd, yn ei lyfr ar "Gyfenwau Prydeinig," a gyhoeddwyd yn 1894. Dywed hefyd fod yr enwau Foulke a Foulk yn "Rhestr Battell Abbey," a bod Fulche, Falc, Falk, Falco, &c., yn y *Domesday Book*. Ceir yr enw Fauke de Glamorgan yn yr *Hundred Rolls* (1273). Richard Ffolk ydoedd enw maer cyntaf Hwlfordd.

Ystyr y cyfenw Francis, yr hwn a geir yn Neheudir Cymru, ac yn enwedig yn ardal Pen y Bont ar Ogwy, ydyw un ai "rhydd" neu "Y Ffrangcwr" (*Le Franceys*).

Tybir mai enw arall am William ydyw Gillart, cyfenw a geir yn Maldwyn. Nid ces sail, hyd y gwyddom, i'r haerid mai yr un ydyw a'r enw Cymreig Gelert.

Harry, Harthy, Harrys, Harrhys, Harris, Harries, Henry, Hendric, &c. Cofnodir yr enw "Henri" amryw o weithiau ym Mrut y Tywysogion fel enw rhai c frenhinoedd Lloegr a Ffrainc. Cyfeirir hefyd at "henri vab Kadwgan o'r franges verch pictot tywyssawc or freinc," dan y flwyddyn 1113; a chawn fod "henri ab arthen, goruchel athro," wedi marw yn 1161. Mae y cyfeiriad cyntaf yn engraifft olir o'r dull y mabwysiadwyd enwau Normanaid yn Nghymru. Boneddiges o Ffrainc ydoedd mam Harri ab Cadwgan. Rhesymol ydyw tybied fod ei mab wedi ei alw ar ol un o'i pherthynasau; a gallwn fod yn sicr fod rhai o'r pendefigion wedi bedyddio eu meibion ar enw eu tywysog, a bod eu tenantiaid wedi dilyn eu hesiampl yn hyn o beth. Naturiol hefyd ydyw credu fod enw ysgolor mor wych a Henri ab Arthen wedi cymeradwyo ei hun i lawer o rieni Cymreig oedd yn edmygu eu cydwladwr dysgedig. Dywed ysgrifenydd i'r *Notes & Queries* mai eithriad yw dod o hyd i Henry neu Harri cyn amser Harri'r IV. Ceir yr enw yn fwy mynych yn amser Harri'r VI. Yr oedd gan Syr Rhys ap Thomas (Harri'r V. a'r VI.) frawd yn ogystal a pherthynasan yn dwyn yr enw. Nid oedd yn cofio am ychwaneg na thri Chymro o'r enw Harri cyn hyn. Ceir enw un, sef Cadwgan ab Bleddyn, a'i wraig Normanaid, yn y flwyddyn 1107. Ceir un yn dwyn yr enw Ennri ym mysg y tystion mewn breinlen ynglŷn â mynachlog Llan Egwesl; yn wir, y mae dau neu dri yn cael eu henwi mewn breinleni tua'r flwyddyn 1250; ond feallai mai ffurf Ladinaid ydyw yr enwau hyn ar Ynyr, neu, yn fwy tebyg, ar Gynwrig. Dichon mai poblogrwydd Harri'r VI. a Henry Tudor a wnaeth yr enw yn boblogaidd. Tybia yr ysgrifenydd fod yr ymgyfeillach a fu rhwng rhai o'r Cymry â'r Saeson yn ystod y rhyfeloedd yn Ffrainc wedi peri i'r enw gael ei fabwysiadu fel enw teuluaidd, oherwydd fod yr Henri cyntaf y gwyddis am dano o deulu Dwn gydag Owen Glyndwr, yn Nghaerfyrddin, pan y llosgwyd y dref yn 1403. Terddir Henri, gan rai, o'r enw *Kunreich*, trwy yr hen ffurf *honoricus*, "enwog am gryfder," tra y rhydd Miss Yonge ei ystyr fel "rheolwr cartref" (*home ruler*). Terddid Henri gan Camden o'r Lladin *honoricus*, "anrhydeddus," a chan Verstigau o'r Teutonaidd *einrick*, "yn wastad yn gyfoethog." Yr oedd Kilian yn dal allan mai *Heynrick*, "yn gyfoethog gartref," oedd ei ffurf gyntefig,—er yr haerid gan eraill mai *Herrick*, "arglwydd cyfoethog," oedd yr enw gwreiddiol.

Cartref y cyfenwau Harry, Henry, Harris, Harries, &c., ydyw Deheudir Cymru. Ymddengys Hendre fel ffurf arall o Hendric neu Henry, er y gall ei darddiad fod yr enw Beiblaidd Andrew. Nis gwyddom fod un sail dros gredu mai yr un ydyw y cyfenw Hendre a'r enw lleol Cymreig Hendre.

Herbert ydyw un o'r enwau personol Normanaid hynaf a fabwysiadwyd fel cyfenw yn Nghymru. Cawn yr enw yn barhaus y mysg rhestrau uchel siryddion Mynwy, Morganwg, Brycheiniog, a Sir Aberteifi. Daeth Peter Fitz Herbert, un o'r arglwyddi a law-nododd y *Magna Charta*, i feddiant o arglwyddiaethau a chestyll Blaen Llyfni a Thalgarth ym Mhrycheiniog, trwy briodas âg Isabel, gweddw Dafydd ab Llewelyn, Tywysog Gwynedd. Bu farw yn 1235. Y mae hanes y teulu yma yn ddyddorol mewn cysylltiad â'r dull Cymreig o enwi personau. Unig enw mab Peter Fitz Herbert ydoedd Herbert; a gelwid ei orwyr yr un modd yn Herbert; tra yr adnabyddid ŵyr Herbert fel John Herbert ab Adam, neu Siencyn. Yr oedd hwn yn arglwydd Gwern Ddu, ger Aber Gavenni. Yr oedd ei fab Gwilym ab Siencyn yn byw yn y Berth Hir, ger tref Mynwy, o 1307 i 1377. Hywel ab Gwilym oedd mab, Siencyn ab Hywel oedd ŵyr, a Dafydd ab Siencyn oedd orwyr, Gwilym ab Siencyn. Fe laddwyd Dafydd ab Siencyn yn Barbury, pan yn rhyfela o dan faner ei gefnder, Arglwydd Penfro. Gelwid ei fab yn Thomas ab Dafydd ab Siencyn, yn ol y dull Cymreig, a'i ŵyr, yn ol yr un rheol, yn John ab Thomas. Dywedir y bu raid i orwyr Dafydd ab Siencyn, "yn ol y gyfraith," fabwysiadu y dull Seisnig o gymeryd cyfenw pendant; ac felly y talfyrwyd ei enw o William ab John ab Thomas, neu Gwilym ab John, i'r enw William Jones. Yr oedd efe yn uchel sirydd Mynwy yn 1556. Galwyd ei ddisgynyddion yn Jones hyd y flwyddyn 1848, pryd y caniatwyd i John Arthur Edward Jones, o Lanarth, trwy awdurdod y Frenhines, fabwysiadu y cyfenw Herbert, sef cyfenw Normanaid ei enwog hynafiaid. Y mae y dull yma o newid cyfenw

J6339

(delwedd J6339) (Gorffennaf 1898) (tudalen 188)

yn un mor gostus (oherwydd taliadau swyddogol) na chyfeiriwyd ato ar dudalen 92. Y mae newid enw trwy ddeddf seneddol yn fwy costus fyth.

Dywed Miss Yonge mai enw Teutonaidd ydyw Herbert, ac mai ei ystyr ydyw "y milwr dysglaer." Rhydd Arthur yr un ystyr i'r enw; ond dywed mai y gwreiddiol ydyw y geiriau Sacsonaidd, *here*, "milwr," a *beorht*, "dysglaer." Nid ydyw y cyfenw hwn yn ffafryn yn mysg gwerin Cymru; ond ceir ef fynychaf ym mysg bonedd ein gwlad.

Rhoddir amryw darddiadau ac ystyron i'r cyfenwau Homphray ac Humphrey gan wahanol ysgrifenyddwyr ar gyfenwau. Dyma rai o honynt:—*Cunfrid*, oddi wrth y geiriau Teutonaidd *hun* *frid*, "yr amddiffynwr cryf" (Charnock); *hun*, "y bobl"; *frid*, "heddwch," h.y., "heddwch y bobl" (Miss Yonge); *homme* *erai*, geiriau Ffrengig, yn arwyddocâu "dyn cywir" (Arthur), &c. Cyfeirir ym Mrut y Saeson, o dan y flwyddyn 1307, at "wmfrei bown mab wmfrei arall iarl llunford." Y mae cofnodiad ym Mrut y Tywysogion am "Castell hwmfrei yn dyffryn clettwr." Cyfeiria Mr. Stephen Williams, yn ei lyfr ar Ystrad Fflur, at y castell yma, yr hwn oedd ar ei draed yn 1159. Y mae Humphrey a Humphreys yn gyfenwau poblogaidd ym mhob rhan o Gymru, tra y cyfyngir Homphray bron yn gwbl oll i Sir Forganwg. Yr oedd un o'r enw Henry Humphries, o Bwllheli, yn uchel sirydd Sir Gaernarfon yn 1628.

Y mae y cyfenwau Hugh a Hughes wedi dyrysu bron bob ysgrifenydd ar gyfenwau. Dywed rhai mai enw Teutonaidd ydyw, eraill mai Celtaidd; tra y deil Charnock y tardda o'r gair Isdiraidd (*Dutch*) *hoog*, ystyr pa un, meddir, ydyw "uchel" neu "dal." Dywed Arthur mai y Gaeleg am Hugh ydyw *Aiodh*, yn arwyddocâu "dieithr ddyn." Crybwyllir mewn sylw ym Mrutiau y Werddon (*The Annals of Ireland*) mai ystyr yr enw Celtaidd *Aoidh*, a seinir yn li neu I, ydyw "tân," a'i fod wedi tarddu o wasanæth crefyddol y Derwyddon, ac mai y ffurf Seisnig o hono ydyw Hugh, megis mai y ffurfiau Lladinaidd ydynt *Aidus*, *Aedus*, *Hugo*, &c. Dywed Wachter, o'r ochr arall, mai o'r hen iaith Eilmynaidd y tardda Hugo, sef y gair *hug*, cyfystyr pa un ydyw "y meddwl."

Ymddengys mai Miss Yonge oedd y gyntaf i dafu amheuaeth ar darddiad yr enw. Enwir Hu Gadarn ganddi, a dywed—"Nid oes esboniad wedi ei roddi ar y gair Hu; ond y mae wedi myned yn enw yn Nghymru ac yn Llydaw. Yn yr Hen Ffrancaeg ceir yr enw yn y ffurfiau *Hue*, *Hues*, *Huon*, yn ogystal a'r ffurf *Huette* fel enw merch. Y ffurf wir Gymreig yn ei arddull Seisnig ydyw Hu neu Huw, er ei fod bron yn ddieithriad yn cael ei gangymeryd am yr Hugh Teutonaidd, yn tarddu o *hugur*, 'y meddwl,' a phia un y gall ei fod yn gyfystyr. Silletir yr enw Cymreig teuluaid Ap Hu bob amser fel Pugh." Ymddengys mai ffurfiau gwreiddiol Pugh ydynt Ap Huw ac Ap Hugh,—ac nid Ap Hu, fel yr awgryma Miss Yonge. Dywed ym mhellach fod *Eoghan* yr Alban, a seinir Ioan, yn cael ei gyfieithu yn ddiwahaniaeth fel Evan, Ewan, a Hugh. Barn y foneddiges hon ydyw fod Hugh wedi dyfod i Loegr gyda'r Normaniaid ac mai enw Teutonaidd ydyw am "feddwl," tra y tardda yr enw Hu o flynhonell Geltaidd gyda'r un cyfystyr.

Yr ydym yn credu mai aralleiriad ydyw yr hen ffurf Gymreig Hu am yr enw cynarach Normanaidd Hugh, a geir yn y *Domesday Book* fel Hugo. Nid oes nemawr sail, os oes dim, dros y dywediad a geir yn y llyfr, a elwir *The Norman People* (1874), mai enw Cymraeg neu Geltaidd ydyw Hugh. Feallai fod y ffurfiau diweddar o'r enwau oedd yn tarddu o'r Celtaidd, *Aoidh* neu *Aoidh*, a'r Gaeleg, *Eoghan*, oherwydd eu tebygrwydd i'r enw Teutonaidd, wedi cael eu camgymeryd am dano, ac felly collwyd golwg ar eu tarddiad gwahanol, pan eu byrhawyd i'r ffurf olaf, Hugh.

Enwir tri o'r enw Hu yn llawysgrifau Iolo (*Iolo MSS.*). Cyfeirir yn "Chwedlau'r Doethion" at Hu Arddar a Phlenydd ab Hu hydr. Copiwyd y chwedlau yma gan Iolo Morganwg o Lyfr Tre'r Bryn, sef casgliad o weithiau a wnawd gan Thomas ab Ieuan tua'r flwyddyn 1670. Nid oes tystiolaeth ar gael i ddangos pa bryd y cyfansoddwyd y chwedlau yma ar gân; ac er eu bod yn cynwys dywediadau rhai o'r seintiau Cymreig boreuaf, y mae lle i gredu eu bod i gyd yn ddiweddarach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Nid ydyw y ffaiith fod dau Hu i'w cael yn "Chwedlau'r Doethion" yn ymddangos yn ddigon o brawf o darddiad Cymreig neu Geltaidd yn enw Hu: ac hyd yn nod pe caniatëid y bu yr hen enw Cymreig, Hu, unwaith ar arfer, eto ni ddefnyddid ef yr adeg y daeth y Normaniaid i'n tir, onide buasai'n naturiol i ni ddisgwyl dod ar ei draws yn ein llawysgrifau boreuaf. Ni cheir yr enw o gwbl yn y Mabinogion; a Normaniaid oedd yr holl bersonau o'r enw yma a grybwyllir ym Mrut y Tywysogion. Darllenwn yn y Brut am farwolaeth "hu vras, Iarl llun lllion," yn 1100; a chyfeirir yn y llyfr at "Hu dy la Sai," "Hu dy Roc," a "Hu dy

Sai." Cawn hefyd y ffurf diweddar o Hugh, er engraifft, "Huw de Andelei." Y mae'n fwy na thebyg mai y rheswm pahan yr ystyrir Hugh yn enw Cymreig gan Gymry ydyw y traddodiad fod rhyw Hu Gadarn wedi arwain y Cymry o'r Dwyrain dros gyfandir Ewrob a glanio ym Mhrydain mewn cwrwgl. Yr Hu Gadarn hwn ydyw y trydydd Hu y sonir am dano yn ysgrifau Iolo yn "Englynion y Gorugiau," a gyfausoddwyd, meddir, gan y Bardd Glas o'r Gadair. Barn Iolo oedd fod y gwr hwn yn cydoesi â Hywel Dda; os felly, bu fyw yn y ddegfed ganrif. Dyma goruc Hu Gadarn:—

"Goruc Hugadarn Gymmhram
Ar Gymry Ynys Prydain
I ddyffryd o ddeffro Bain."

Dywedir mai yr un ydoedd Deffro Bani neu Ddeffro Bannau a *Taprobane* neu Ynys *Ceylon*, trigfa ein cyndad Adda. Nid oes arnom cisiau bychanu Hu Gadarn; ond nis gellir cymeryd bodolaeth y traddodiad yma, a'r cyfeiriad ato yn Englynion y Gorugiau, fel prawf difrif o darddiad Cymreig neu Geltig Hugh. Dyna, yn wir, ydoedd barn yr enwog Thomas Stephens, oherwydd dywed, yn ei *Literature of the Kymry*, tudalen 169, na chlywid unrhyw feliant i Hu Gadarn cyn marwolaeth Llywelyn ap Gruffydd, ac mai yn fuan wedi hyny y cododd Hu i'r golwg. Ychwanega fod "beirdd y cyfnod yma yn ei enwi yn fyrych: rhoddwyd uchel ganmoliaeth iddo gan Iolo Goch; a gallwn gasglu o waith Sion Cent (1350) fod moliant Hu ar ei oreu y pryd hyny." Darfyddodd y ffurf Hu ganrifoedd yn ol fel enw arferedig yn Nghymru; ac anaml y canfyddir y ffurf Huw yn llenyddiaeth Gymreig yr oes hon. Ymddengys fod Huw Huws, neu y Bardd Coch o Fon, yr hwn a fu fyw y ganrif ddiweddar, yn sillebu ei enw fel hyn.

Bu ychydig ysgrifenu ar y cyfenw yma yn y *Notes and Queries*, flynyddau yn ol; a dywedai Mr. Gildersome-Dickenson (7fed gyfres, cyf. xi., tud. 334) fod Hughes yn gyfenw beth bynag mor foreu â 1450-1; a thystiolaetha Mr. Higgins, o Maidenhead, fod y dull Cymreig o gyfenwi y tad yn ol enw y tad mewn bri yn Swydd Amwythig yn foreu iawn; oherwydd gelwir mab un Hugh Higgins yn John Hughes yn y *Visitation of Salop* a ysgrifenyddwyd yn 1623. Dywed un ysgrifenydd "na ddefnyddid Hughes fel cyfenw yn Nghymru cyn 1550; a phur anaml y deir ar draws yr enw bedydd Hugh cyn yr adeg yma. Y pryd hyn cawn saith o deuluoedd o'r enw Hughes yn codi, un o dylwyth Caradog Freichfras, dau o dylwyth Elystan, un o dylwyth Cowryd ap Cadfan, un o dylwyth Owain Brogyntyn, a dau o dylwyth Tudor Trefor. Bu farw Hugh ap William, sylfaenydd teulu yr Hughesiaid o Gwerclas, yn 1600. Yr oedd Rhys Hughes—yr Hughes cyntaf o Faes y Pandy, yn uchel sirydd yn y flwyddyn 1582." Nid oes un amheuaeth nad oedd Hugh yn enw bedydd cyffredin yn ein gwlad yn yr unfed ganrif ar bymtheg; ac yn ol pob tebyg yr oedd yr enw yn un adnabyddus yn Nghymru yn ystod y tair neu y pedair canrif cyn hyn. Yr oedd enw Hugh Laps, yr hwn a grewyd yn Iarll Caer, yn 1070, yn enw adnabyddus yn Ngwynedd; a bu iarll arall ar ei ol, sef Hugh Cyfeiliog (1153-1180) o'r un enw. Teimlwn yn falch nad yw Hughes-Hughes yn gyfenw yn Nghymru,—ceir hwnw yn Lloegr.

Cyfenwau a geir yn Sir Drefaldwyn ydyw Jarman, Jerman, German, &c., yn tarddu o'r ffurf Ffrengig *German*. Cawn yr enwau *German*, *Garmund*, a *Germond*, yn y *Domesday Book*. Tueddir ni i feddwl fod yr hen enw Cymreig *Garmon* o'r un tarddiad. Cawn y ffurf *Germon* ym mysg y Fflemhisiaid.

Yr un ydyw y cyfenwau Jarrett a Jarrett a geir ym Meirion ac ym Maldwyn, a'r enwau *Girard* a *Gerard* yn y *Domesday Book*. Dywed Lower mai Teutonaidd ydynt o ran tarddiad, ac mai "diysgog waywffon" ydyw eu hystyr.

Erwau yn Sir Drefaldwyn drachefn ydyw Jarvis a Jervis, yn tarddu, trwy y Ffrancaeg *Gervais*, o ffynhonell Deutonaidd, yn arwyddocâu, "awyddus am ryfel."

Daw Jeffries a Jeffrys, yn ol Lower, o'r enw Teutonaidd *Godfridus*, neu, yn ol Charnock, o'r hen Ellmynig *walt frid*, "yr amddiffynwr nerthol."

Yr un ydyw Kenric a Kenrick a Cymric, yr hwn sydd yn tarddu fel Henry o *Kunreich*. Barna Arthur, modd bynag, mai o'r enw Sacsonaidd *Kenric* y tardd, sef *Kennen*, "i wybod," a *ric*, "cyfoethog," hyny yw, "un yn gwybod ei fod yn gyfoethog." Felly, ni thâl i'r un Kenrick fod yn dlawd.

Yr un ydyw Lewis a'r enw Ffrengig *Louis*, sef llygriad o *Ludovicus*, ffurf Lladinaidd o'r hen enw Ellmynig *Ludwig*, sydd yn tarddu, medd Charnock, o *lant wig*, "y rhyfelwr enwog." Yr ystyr a rydd Miss Yonge i Lewis a Lodwick ydyw "enwog mewn sancteiddrwydd." Gelwir brenhinoedd Ffrainc o'r enw yma yn "Lowys" ym Mrut y Tywysogion. Fe sonir, o dan y flwyddyn

J6341

1213, am "Lowys ab Phylip, ardderchawc vrenhin ffreinc." Wrth gwrs, yr hanesydd Cymreig a ddododd yr *ab* yn yr enw.

Dywed Lower mai yn ystod teyrnasiad Harri'r VIII. y mabwysiadwyd Lewis fel cyfenw yn Lloegr. Nid ydyw y ffaith mai Hugh Lewys oedd enw cwnstabl Castell Harlech yn 1504 yn profi fod Lewys y pryd hynny yn gyfenw pendant, er fod absenoldeb yr *ab* neu *ap* yn yr enw yn rhoddi rhyw fath o sail dros gredu hynny. Eithriad y pryd hynny oedd i unrhyw Gymro fod heb un *ab*, o leiaf, yn ei enw. Nis gellir penderfynu gydag unrhyw sicrwydd pa tryd y daeth cyfenw teuluaid yn un arhosol heb weled ach y teulu. Yr oedd Lewis yn enw adnabyddus yn Nghymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd "Lewis ab Ieun" yn rheithor Darowen, ym Maldwyn, yn 1537. Lewis Owen oedd enw yr aelod seneddol dros Feirion yn 1547. Rhees Lewis oedd aelod seneddol Maesyfed yn 1553: a chawn "Rees Lewis" arall yn cynrychioli bwrdeisdref Mynyw yn y Senedd yn 1571. Lewis Lang, neu Lewis Gig Eidion, ydoedd fardd fraeth a dignif, yn byw rhwng 1580 a 1620. Gellir profi fod Lewis yn gyfenw pendant yn y Deheudir, os nad yn y Gogledd, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Dywed Miss Yonge fod y Cymry yn defnyddio Lewis fel ffurf Seisnig o Llewelyn; a chyfeiriodd Mr. Edward Owen, o'r *India Office*, Llundain, yn ei dystiolaeth o flaen y Ddirprwyaeth Dir, at enw "Meurig ap Llewelyn (neu Lewis)" yn ymddangos mewn prydles a wnawd yn y flwyddyn 1529. Ni cheir yr enwau Lewis, Lodwick, a Ludwig, yn y Brutiau nac yn y Trioedd.

Y mae yr enwau Morice, Morrice, Morris, Morrish, Morse, &c., wedi peri llawer o flinder i ysgrifenywyr ar gyfenwau. Tyb y mwyafrif ydyw fod Morris yn tarddu trwy yr enw Ffrengig Maurice, o'r Lladin *Maurus*, "Mwr" (a *Moor*); a chyfeiriant at y ddawns *Fwraidd* (*morrice dance*) fel prawf o hynny. Barna ysgrifenydd i'r *Notes and Queries* (gwel 3ydd gyfres, cyf. xii., tud. 254) mai o'r gair Seisnig *moor*, "rhosdir," y tardd; ac awgryma mai trigolion y rhos oedd y Morrisiaid cyntaf. Dywed ysgrifenydd arall mai yr un ydyw y cyfenw hwn a'r enw Teutonaidd *Amalric*, a dardd o *himml reich*, "teyrnas nefoedd." Y mae Charnock o'r farn mai y geiriau *du marais*, "o'r rhos," ydyw tarddiad Maurice a Morris; a dyfyna nodiadau i'r perwyl hwn o awduron Ffrengig.

Ceir yr enw mewn gwahanol ffurfiau yn y *Domesday Book*, yn Rhestr *Battell Abbey*, ac yn y *Rotuli de Oblatis et Finibus* (amser y Brenin John). Barna y Parch. Henry Barber mai Moris—enw lleol Normanaidd—ydyw ffynonell Morris; ac awgryma mai ffurf o'r-gair Ffrengig *marais*, "rhosdir," ydyw.

Y mae Burke yn rhanu y Morrisiaid i ddau ddosbarth, sef Morrisiaid y Cyfaudir a Morrisiaid Cymru. Dywed mai tarddiad Cymreig Morris ydyw "mawr-rwyce," hynny yw, "mawr-rwsg," ac y gelwid hen bennaethiaid Cymry felly am eu dewrder a'u gallu. Rhydd arwyddair un o deuluoedd y Morrisiaid, sef "*Marte et mari fauentibus*," fel sail i'w ddywediad. Tardda ysgrifenydd arall, yn yr *Archæologia Cambrensis* (cyf. xlv.), yr enw yr un modd, os nad "mor rhys," hynny yw, "yn awyddus am y mor," ydyw ei ystyr. Nid ydym yn credu mai tarddiad Cymreig sydd i Morris. Nid oes un sail dros ddwyed fod hen bennaethiaid Cymreig yn cael eu galw, oherwydd eu hurddas, yn Forisiaid yn y cyn oesoedd, ac nis gallwn weled fod unrhyw gysylltiad gwirioneddol rhwng yr arwyddair uchod â'r enw Morris. Nid ydym ychwaith yn cofio i ni erioed weled mai Mawr-rwysg ydoedd yr enw Cymreig am *Mars*, fel y dywed Lower yn ei "Gyfenwau Seisnig," a argraphwyd yn 1875 (cyf. ii., tud. 58). Yr ydym yn barnu mai Normanaidd ydyw y cyfenw Morris a geir yn Nghymru, ac mai yr un ydyw a Maurice, enw a ddaeth i'r wlad gyda'r Normaniaid ac yn ystod Rhyfeloedd y Groes. Ni cheir yr enw Morris o gwbl yn Llyfr Coch Hergest, er fod ei ffurf henafaidd *Meuruc* i'w gael yn y Brut a elwir "Ystorya Breulined y Brytanyeit." Sylwir ym mhellach ar yr enw "Meyrick" mewn papyr dyfodol ar Gyfenwau Gwir Gymreig. Nid oes hyd yn nod gyfeiriad yn y casgliad o lawysgrifau a wnawd gan Iolo Morganwg at y cyfenw Morris, ac nid ydyw i'w gael, hyd y gwyddom, yn unrhyw un o'n llawysgrifau mwyafrif henafol. Yr ydym yn credu mai ffynonell Morris neu Morrice ydyw un ai y gair Ffrengig *Marais*, "rhos dir," neu ynte y Lladin *Maurus*, "Mwr," neu feallai *Maurusius*, "Mwraidd." Ymddengys fod yr enw Rhufeinaidd *Mauricius* yn tarddu o *Maurus*, enw a fabwysiadwyd gan y Cymry, ynghyd a llawer o enwau Lladinaidd eraill, yn ystod arosiad y Rhufeiniaid ym Mhrydain, yn y ffurfiau *Mauric*, *Meuric*, a *Meurig*. Os ffurf o'r enw Lladinaidd *Mauricius* ydyw *Maurice*, y mae yn amlwg fod yr hen Gymry yn rhoddi sain galed i'r llythyren *c* yn yr enw gwreiddiol, tra y rhoddai y Galiaid sain feddal iddi.

Cawn y ffurfiau *Morys*, *Morus*, &c., yn barhaus mewn hen achau a llawysgrifau Cymreig ar ol 1282—y flwyddyn y trechwyd y Cymry. Digwydd

"Morys" ddwywaith o leiaf yn Nghofrestr Caernarfon; ac yr oedd un o'r personau yn dwyn yr enw yma yn byw yn "Dyhtyt," sef Brithdir, ger Dol Gellau, yn 1576. Cawn enwau "Mauricius Tudye" o Ddinbych, a "Mauri ius ap Evan," ym mysg y pelerinion i Rufain yn 1506. Yr oedd Dafydd ap Ithel ap Morris Mawre yn un o fwrdeisdrefwyr Dinas Mawddwy yn 1391; a cheir mai enw abad Ystrad Fflur yn 1443 ydoedd William Morris. Cawn fod James Morris, o Aberteifi, yn uchel sirydd yn 1555; fod Rees ap Morris ap Owen yn llanw yr un swydd ym Meirion yn 1565; a thrachefn William Morrice ap Ellis, o'r Clennenau, yn Sir Gaernarfon, yn 1590. "Moricius ap Hoell ap Moris" oedd maer Caersws yn 1584. Yr oedd rhai o'n hen feirdd yn dwyn yr enw yma, sef Morus Morgannwg, yr hwn oedd yn byw yn 1220; Morus ap Howel ap Cadwaladr (1490—1520); a Morus Gethin (1470—1570); ac, yn ddiweddarach, cawn Hugh Morris, a Lewis Morris, neu Llewelyn Ddu o Fon. Nid ydyw Syr Lewis Morris yn canu yn Gymraeg, fel ei hynafiad hyglo d'r un enw; ond y mae ei fantell wedi disgyn ar ysgwyddau teilwng, er hynny; ac yn ddiddadl y mae pob Cymro yn falch o'r safon uchel a ddeil ym mysg beirdd Seisnig yr oes.

Gwelir oddiwrth waith Lewis Dwnn a'r achau Cymreig fod "Morys" yn enw poblogaidd ym mysg teuluoedd Sir Gaernarfon yn nechreu yr eilfed ganrif ar bynthege. Paham y gelwir y gwynt yn "Morus," nis gwyddom,—os nad llygriad ydyw o *Boreas*, yr enw Lladinaidd am y gwynt gogleddol.

Llygriad ydyw Nevill o'r geiriau *de nova villa*, "o'r dref newydd;" a daeth Oliver o Ffrainc; a thardda o ffynhonell Lladinaidd, yn arwyddocau "olewydden."

Ffuriau diweddar ydyw y cyfenwau Pearce, Pearse, Pierce, &c., o'r enw Normanaidd Piers neu Pears, sydd yn tarddu o'r gair Groeg *petros*, "carreg," trwy y Ffrancaeg *Pierre*. Er mai Pyrs ydyw y ffurf Gymreig o'r enw, eto fe'i Seisnigeiddir pan yr ysgrifennir neu yr argrephir mewn cofyfrau a phapurau swyddogol,—nid felly yr cedd yn yr hen amser gynt. Cawn y cofnodiad canlynol ym Mrut y Tywysogion o dan 1176: "Y vlvwyddyn rac wyneb y bu varw Kynan abat y ty gwynn a davyd escob mynyw. Ac yny ol y deuessawd pyrs yn escob."

Ceir y cyfenw Puleston gyntaf yn Nghymru yn Sir Fflint yn 1284, pryd y gwnaeth Syr Roger de Pyvelisdon, neu Puleston, ei gartref yn Emral. Y mae yn ddyddorol sylwi mai yr ail o'r enw i fod yn gwnstabl Castell Caernarfon ydyw Syr John Puleston. Bu Syr John Puleston, y cwnstabl cyntaf o'r enw, farw yn 1551.

Dywed Mr. Edward Laws mai henw Llochllynaidd ydyw Protheroe, yn codi o'r gair *brodiroe*, "ynys frawd"; a rhydd y Parch. Henry Barber enw pentref yn Sir Northumberland, a elwir Prudhoe, fel ei darddiad. Yr ydym yn credu mai enw gwir Gymreig ydyw Protheroe, nid amgen nag Ap Rhydderch; ac fe draethir arno mewn papyr dyfodol.

Erwau Sacsonaidd ydyw y cyfenwau Randell a Rendel, yn codi o'r enw *Randulf* a geir yn y *Domesday Book*. Dywed Charnock mai Radulf ydyw y dull cywir o ysgrifenu'r gwreiddiol; a thardda o'r hen air Ellmynig *rad-ulph*, "cynnorthwy." Uchel sirydd Fflint yn 1561 ydoedd un o'r enw Randolph Hanmer.

Dywedir, ar un llaw, mai yr enw lleol Rhos, ym Mhenfro, ydyw tarddiad y cyfenwau Rhoo, Roose, a Roos; ac, ar y llaw arall, mai yr enw lleol Ros, neu Rots yn awr, ger Caen, yn Ffrainc, ydyw. Terddir yr enw Ros o'r Lladin *rufus*, "coch," trwy yr hen air Ffrengig *rous*. Yr oedd un Anchatel de Ros yn byw yn Caint yn 1086; a chawn enw Geoffrey de Ros yn yr un sir yn 1130.

Nid ydyw yr awdurdodau cytuno etto gyda golwg ar ddechreuad yr enw Richard a'r cyfenwau Richards, Rickards, &c., a ffurfir o hono. Y mae yn dra thebyg mai hen eiriau Ellmyrig, *reich hart*, "tra nerthol," neu "tra chyfoethog," ydyw ei darddiad. Ceir y ffurfiau *Richeri*, *Ricar*, a *Richer*, yn y *Domesday Book*.

Richards, Richards, a Williams, ydyw y tri chyfenw Normanaidd mwyaf poblogaidd yn Nghymru; ac y maent ym mysg yr enwau Normanaidd boreuaf a fabwysiadwyd gan genedl y Cymry. Y mae yn hawdd profi fod Richard yn enw personol pur gyffredin yn y Dywysogaeth tua diwedd y bymthegefed ganrif, er na'i ydyw i'w gael yn Nghoflyfr Caernarfon, yr hwn a ysgrifenydd, fel y mynegwyd o'r blaen, tua chanol y ganrif hono. Darllenwn yn y llawysgrifau a gasglwyd gan Iolo Morganwg fod Rhicert ab Einion ab Collwyn, tad Rhys Goch, yn byw yn Nhir Iarl yn 1140; a chawn gofnodiad ym Mrut y Tywysogion am farwolaeth "Rickert o gaer riw escob mynyw dudd kalan ebrill 1280." Ceir yr enw ym Mrut y Tywysogion a Brut y Saeson yn y ffurfiau

Rickest, Richart, Risiart, a Risart. Ceir pedwar o'r enw bedydd Richard yn uchel siryddion ym Meirion rhwng 1332 a 1517. Gellid rhoi amryw o engreiphtiau o'r enw yma ym mysgr siryddion Cymru, ac eraill, yn y bymthegfed ganrif a'r urfed ganrif ar bymtheg; ond ni a adawn ar hynyna.

Y mae Robert, o ba un y cyfyd y cyfenwau Roberts, Robartes, &c., yn enw Teutonaidd henafol iawn; a daeth drosodd i Loegr yn adeg y Gorchfygiad. Ceir yr enw 48 o weithiau yn y *Domesday Book* yn y ffurfiau *Rodpert, Rotpert, a Robert*. Y mae yn ymddangos fod Robert yn hanu o'r hen enwau Ellmyng, *Ruadpert a Ruodpredt*, a tharddant, yn ol barn Charnock, o'r *rat brecht*, "un enwog am gyngor;" felly yr oedd y Robert cyntaf yn gynghorwr ardderchog ac yn fath o Solomon Teutonaidd. Daeth Robert i Gymru gyda Robert Fitzhamon. Ceir yr enw ym Munt y Tywysogion ac yn Nghofflyfr Caernarvon. Dywedir yn y Brut am ddarostyngiad "rotpert vab ystefyn o nest verch rys ab tewdwr" yn 1172; a cheir y cofnodiad canlynol o dan y flwyddyn 1210: "Ac yno y delit rotbert escob bangor yny eglwys." Cawn Brydydd y Moch, sef Llywarch ab Llewelyn, yr hwn a fu fyw rhwng 1160 a 1260, yn galaru ar farwolaeth Iorwerth ap Rotpert; a chyfeiria ato yn y geiriau canlynol:—

"Ny wrthit yndyd gawr
Mab rotpert rwyf byddinawr
Wyr aryfrud maredud mawr."

Ceir cân gan Iorwerth Vychan ap Iorwerth ap Rotpert yn y *Myvyrian Archaeology*. Bu fyw rhwng y blynyddoedd 1290 a 1340. Nid oes angen ychwanegu engreiphtiau. Y mae yr enw Robert i'w gael ym mhob achau Cymreig, ac feallai ym mhob llawysgrif Gymreig sydd yn cynnwys amrywiol enwau personol. Daeth yn boblogaidd fel cyfenw, y ganrif ddiweddaf a'r ganrif bresenol, pan y mabwysiadwyd y dull Seisnig o gyfenwi yn Nghymru, gyda'r canlyniad fod Roberts yn cael ei ystyried bob amser fel cyfenw Cymreig, er na ddylid anghofio fod yr Iwerddon hefyd yn ei hawlio ymysg ei hamryw cyfenwau.

Dywedir gan un ysgrifenydd nad oes cysylltiad rhwng yr enwau Cymreig Rhodri a Rhydderch a'r enw Roderick neu Rodrick; ond nid ydyw yn profi ei osodiad. Terddir Roderic o'r enw personol Ellmyng Roderick, yr hwn a gyfyd o'r geiriau *rad reich*, "un cyfoethog am gyngor." Bu Rhodri Fawr, Brenin Cymru, fyw o 843 i 877. Cawn enw "Evan Prhydderch," o Goleg yr Holl Saint, yn Nghofrestr Prifathrofa Rhydychain, o dan y dyddiad 30 Ionawr, 1617; a desgrifir ef fel mab "Roderic Evans o Llanor" yn Sir Gaernarfon. Cawn sylwi eto ar y cyfenw Rhydderch mewn papyr dyfodol.

Rodger, Rodgers, Roger, Rogers. Rhoddir y tarddiadau canlynol i'r enw Roger gan wahanol ysgriferyddion, sef y geiriau Lladin *rudis gero*. "yr wyf yn dwyt gwialen" (Dr. Charles Rogers); y geiriau Teutonaidd, *rhu*, "gorphwys;" *geren*. "gwyliwr," hynny yw, *rhu geren*, "gwyliwr gorphwys" (Arthur); yr hen eiriau Ellmyng, *rat gar*, "y cynghorwr nerthol," neu *rat ger*, "cynghorwr rhyfel" (Charnock); "gwaswffon clod" (Miss Yonge), &c. Ceir y cyfenwau Rogers a Rodgers fynychaf yn Sir Drefaldwyn. Yr oedd Syr Roger Mostyn yn arglwydd raglaw Sir Gaernarfon o 1674 i 1679. Y ffurf Gymreig o Roger ydyw Rosier neu Rosser. Cawn gyfeirio at y cyfenw hwn eto mewn papyr arall.

Roland, Rolands, Rowland, Rowlands. Ni chyfeirir at yr enwau, neu, yn hytrach, yr enw yma, yn Llyfr Coch Hergest nac yn Nghofrestr Caernarfon; er hyny, gellir casglu fod Roland wedi dod i Gymru pan y daeth y Normaniaid yma. Yr oedd un Roland Griffith yn uchel-sirydd Mon yn y blynyddoedd 1540, 1547, a 1552. Y mae yr awdurdodau, fel gyda phob enw Normanaidd bron, yn gwahaniaethu eto gyda golwg ar darddiad ac ystyr Rowland. Dywed Camden y daw o'r geiriau Anglaidd-Sacsonaidd *rod land*, "cynghorwr ei wlad," tra y deil Miss Yonge ei fod yn tarddu o'r geiriau Teutonaidd a gyfieithir yn "enwogrwydd y tir;" a barna Charnock mai y geiriau Sacsonaidd *rof land*, "y gwladwr enwog," ydyw tarddiad yr enw.

Terddir y cyfenwau Salisbury, Salisbry, a Salusbury, gan Lower, o'r cyfenw Normanaidd adnabyddus "De Sarisbarie;" tra, ar y llaw arall, dywedir yn "Llyfryddiaeth y Cymry" (1869) mai sylfaenydd y teulu ydoedd Adam de Salbri, mab Duc Bavaria, yr hwn a ymsefydlodd yn Nghymru ac a benodwyd yn gapten gwarchodlu Castell Dinbych. Yr oedd teulu Salisbury, o Leweni, yn Sir Ddinbych, yn un nodedig o enwog. Cafodd Syr Thomas Salisbury, y milwr clodfawr, a'r cyntaf a enwir yn achau Lleweni, ei wneud yn farchog gan Harri'r VIII. ym Mrwydr Blackheath, yn 1497. Nid oes nemawr neb ond yr henafiaethydd yn gwybod am ei enw ef; ond nid ces unrhyw Gymro darllengar heb glywed am William Salisbury, yr ysgolor gwych a'r cymwynaswr ffyddlon

a gyfeithodd y Testament Newydd gyntaf i'r Gymraeg. Bydded ei goffadwriaeth yn wynfyddedig.

Cyfenw ym Morganwg ydyw Stradling; a thalfyriad ydyw o *de Esierling*, neu *le Esterling*. Fe roddwyd arglwyddiaeth Llan Werydd (St. Donat's) i "William Desterlin." By teulu yn un hynod o ddylanwadol a pharekus ym Morganwg am bedwair neu bum canrif. Yr oedd Syr Edward Stradling, yr hwn a fu fyw o 1529 i 1606, yn noddwr hael i leryddiaeth Gymreig. Cyfenw arall a geir ym Morganwg ydyw Talbot.

Tardda Tibbot trwy yr enw Ffrengig *Thibault*, yr hwn a ddaw o'r geiriau *teut bald*, "yr arweinydd eofn." Ceir y cofnodiad canlynol ym Mrut y Tywysogion o dan y flwyddyn 1166:—"Kans brenhin lloegyr a rodasai yn vreichiau y vrenhin ffreinc, Henri tywyssawc bwrigin. A thybawt Ieane y vrawt. Meibion oedd y re: hynny yr tibawt tywyssawc burgwn." Credir i'r cyfenw hwn gael ei ddwyn i Sir Forgawg gan y ffoedigion Huguenotaidd tua diwedd yr ailfed ganrif ar hyntheg. Ganwyd y Parch. Richard Tibbot yn Llan Bryn Mair; a bu yn weinidog yno gyda'r Annibynwyr o 1762 hyd ei farwolaeth yn 1798. Yr oedd yn un o'r diwygwyr mwyaf gweithgar ac adnabyddus yn ei ddydd, ac yr oedd yn gyfaill personol i'r Parch. Howel Harris.

Tarddiad y cyfenw Turberville a geir ym Morganwg ydyw *De Turbida Villa*. Yr oedd Syr Paine de Turberville, hynafiad y teulu, yn un o'r tystion i freinleni Mynachlog Castell Nedd yn ystod teyrnasiad Harri'r I. Ceir y cyfenw Vazey yn Mhont y Pridd. Talfyriad ydyw o *De Vesci*.

Walter, Walters. Nid oes sicrwydd am tarddiad yr enw Walter. Barna Miss Yonge ei fod yn Deutonaidd ac mai ei ystyr ydyw "y rhyfelwr nerthol;" a dywed Charnock mai y geiriau *walt hir*, "arglwydd nerthol," ydyw ei ffynhonnell. Yr oedd bardd Cymreig o'r enw Madawg ap Gwalter yn byw rhwng y blynyddoedd 1250 a 1300.

Williams, gyda'r eithriad o Jones, ydyw y cyfenw mwyaf poblogaidd yn Nghymru. Ymddengys oddiwrth adroddiad y Cyfeirydd Cyffredinol (*Registrar General*) am 1853 fod Jones yn ail, a Williams yn drydydd, o ran nifer, ymysg cyfenwau Lloegr a Chymru y flwyddyn hono. Dywed Bardsley, yn ei *English Surnames* (1875), mai rhwng William a John y mae'r gystadleuaeth am y mwyaf o'r un enw wedi bod yn Lloegr er amser y *Domesday Book*. Fe enwir 68 William yn y llyfr hwnw, ond ni chrybwyllir mwy na 10 John. Ymddengys fod William yn fwy poblogaidd fel enw yn Lloegr na John; ond newidiwyd ei ffurf i Gwilym. Ceir yr enwau Gwilym a Gwylim yn fynych yn Llyfr Coch Ihergest; ond ni euwir William fwy nag unwaith. Dywedir y lladdwyd "william o vrebau, un o'r flemhissieit," yn 1107, gan Madoc ac "Owein." Ni cheir y ffurf William yn Nghofflyr Caernarfon; ond fe geir Gwilym a Wilym. Y mae enwau "William ap Adaf ap Tudor," a "Wilielms ap Llewelyn ap Eden," yn digwydd ymysg enwau a roddir yn y freinlen a roddwyd gan John, Arglwydd Mawddwy, yn 1391. Rhoddir yr enwau "Gryfth Wylliams" a "John Wylliams" mewn llawysgrif yn dwyn perthynas âg Ystrad Fflur yn y flwyddyn 1558. Tebyg mai dyma yr engreiphtiau cyntaf a ellir gael o'r cyfenw William yn Nghymru. Y mae yr enw William i'w gael yn fwy mynych mewn hen lawysgrifau a chofnodion nag unrhyw enw Normanaidd arall yn Nghymru, ac felly nid rhaid ychwanegu engreiphtiau o'r enw.

Rhydd Charnock yr hen enw Ellmynig *Willaelm*; hynny yw, *vil helm*, "amddiffynydd cadarn," fel tarddiad yr enw William; tra y dywed Wachter fod yr enw yn codi o'r geiriau *weil helm*, "amddiffynydd gorphwysdra." Barna Miss Yonge mai Teutonaidd yw yr enw ac mai ei ystyr ydyw "helm penderfyniad."

Y mae yn fwy na thebyg fod William Williams yn enw anghyfleus a wisgir gan ganoedd o Gymry a allasant yn hawdd ei newid a gwisgo enwau mwy pwrpasol; ond beth bynag am ei anghyfleusdra a'i amlder, gwell hynny na gwisgo enw o gyffelyb natur i'r un a geir mewn coffyfr plwyfol yn Old-winsford, Sir Gaer Wrangon (*Worcestershire*). Fe gofnodir yno feddyddiad "Dancell Dallphebo Marke Anthony Dallery Gallery Cesar Williams," mab un o'r un enw, yn Ionawr, 1676. Prin y gallem gredu fod y bachgen wedi byw yn hir; a rhyfedd oedd i'w dad fyw cyhyd heb i'w enw ei dagu. Na, pa gyfnewidiadau bynag a all y dyfodol ddwyn ar enwau a chyfenwau Cymru, nis gallwna gredu y bydd y Cymry mor ffal a mabwysiadu enwau hirion o'r natur yma, ond y byddant yn chwilio yr hen achau a'r heh goffysrau am enwau destlus a gwir Gymreig, ac y gwnant ddefnydd da o honynt, gan eu mabwysiadu yn gyfenwau pendant, er mwyn gwneyd i ffrwd, i raddau pell, â'r anhwylysdod a'r dyryswch a geir yn awr gyda chyfenwau ein cenedl.

Temple, Llundain.

T. E. MORRIS (*Morus Glaslyn*).

J6345

(delwedd J6345) (Gorffennaf 1898) (tudalen 194)

CADBURY'S COCOA

AUTELY PURE. THEREFORE BEST.—The Standard of Highest Purity

RHIF. 3.]

GORPHENAF, 1899.

[CYF. XVII.]



CYLCHGRAWN CHWARTEROL CENEDLAETHOL.

CYNHWYSIAD.

"Tom" Ellis a'r Deffroad Cymreig. Gan Mr. Beriah Gwynfe Evans...	145
Eos Bradwen: Englynion. Gan Ferw ac Ieuan Ionawr ..	147
Cenhadaeth Arbenig y Methodist- iaid Calfinaidd. Gan y Parch. Griffith Parry, D.D.	148
Y Bardd Dienw. Gan Fawonwy...	149
Y Parch. Thomas Gee. Gan y Parch. Aaron Davies ..	150
Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol. Gan y Parch. D. Adams, B.A. (Hawen) ..	154
Adgofion Boreu Oes. Gan y Parch. David Griffith ..	156
Enwogion Llausanan: Englynion. Gan Hwfa Mon ..	158
Yr Eglwys a'r Adfywiad Cenedl- aethol. Gan y Parch. R. Cumber Williams, M.A.	159
O Elba i Waterloo: Ymgyrch olaf Napoleon. Gan y Parch. Emrys ap Iwan ..	161
Y Prifathraw Michael D. Jones. Gan y Parch. T. Talwyn Phillips, B.D.	166
Cyfenwau Cymreig.—V. Cyferwau Beiblaidd Cymru. Gan Mr. T. E. Morris, B.A., LL.M. (Morus Glaslyn) ..	173
Prydain yn ol yr Ysgrifenydd Groeg a Lladin. Gan y Proffeswr Anwyl, M.A.	176
Parthau Cymru.—Sir Gaerfyrddin. Gan Watcyn Wyn ..	180
Peredur. Gan y Tra Pharchedig Ddeon Howell, B.D. (Llawdden)	184

Methodistaeth Wesleyaidd: Can'- mlwyddiant y Gwaith Cymreig. Gan y Parch. William Hugh Evans (Gwyllt y Mynydd) ..	186
Tudalen ym Mywyd Myfyr Emlyn. Gan Mr. David James ..	189
Y Rhian Rasol: Penillion. Gan Iolo Caernarfon ..	192
"Sul Cyf'r" Chwarelwr. Gan Ben y Golwg ..	193
Adgofion am y Parch. D. S. Davies. Gan Mr. H. Tobit Evans, Y.H. S. R. Gan y Parch. Evan Jones ..	196
Dyffryn Teifi. Gan y Parch. D. Stanley Jones ..	203
"Amryw Bwysau ac amryw Fes- urau." Gan Lais y Genedl ..	209

GOHEBIAETHAU—

"Y Brenin Arthur a Gogledd Lloegr." Gan Mr. Jenkin Howell ..	216
"Deri." Gan Yr Un ..	216
"Cymmer." Gan Yr Un ..	216
Manion Barddonol. Gan Wilym ab Lleision, Mr. Abram Jones, Mr. D. Owen, y Parch. Rhystyd Davies, Alaw Tydfil, Eilir Aled, Glyn Llyfnwy, Mr. T. Herbert Hughes, Menaifab, Alavon, Asa, Mr. R. Jones, Mr. Evan Davies, T. T., Mr. T. Twynog Jeffreys, Gwilym Berw, Mr. R. E. Jones, Mr. Abbey Williams, Mr. Tom Parry, Tawelog, Ioan Myrddin, Glan Pair, Ap Cledwen, a Mr. Thomas Jones.	

J6399

(delwedd J6399) (Gorffennaf 1899) (clawr)

CYFENWAW CYMREIG.

V. CYFENWAW BEIBLAIDD CYMRU.

YR ydym wedi esbonio mewn papyrau blaenorol y modd y tarddodd y rhan fwyaf o gyfenwau Cymreig o enwau bedydd neu enwau Cristionogol trwy iddynt gael eu mabwysiadu fel y cyfryw gyfenwau nid yn unig yn eu ffurfiau syml a chyffredin ond hefyd trwy ychwanegu at y ffurfiau hynny y llythyren s, a esthonir fel talffyrdd o'r gair Seisnig *son*, "masb." Yr ydym hefyd wedi dangos fod y mwyafrif o'n gyfenwau wedi codi o enwau personol Normanaidd ac enwau personol a geir yn y Beibl. Bwriadwn ymdrin yn y papyr yma â'r cyfenwau hynny a darddant o enwau personol yr Ysgrhythrau.

Y mae nifer y cyfenwau hyn yn un cymharol fawr; ac, yn wir, ymddengys yn fwy yn Nghymru nag yn unrhyw wlad o'i maint a'i phoblogaeth, ag eithrio, feallai, rai o dalaeithau Rwsia, lle y mae yr Iuddewon yn cartrefu trwy fydd. Y mae nifer cyfenwau Beiblaidd yn y Dywysogaeth yn fwy na thrigain, ac feallai nad ydyw lawer llai na chant. Ceir ymysg y nifer yma, ar un llaw, rai o'n cyfenwau mwyafrif poblogaidd, megys Davies, James, Phillips, Thomas, ac, wrth gwrs, yr anwrthwyneb iddynt a'r diddiwedd Jones; ac, ar y llaw arall, rai o'r enwau teuluidd mwyafrif anhyfryd ac ansoniarus a feddwn, megys Cain, Herod, Jehu, Lot, Mordecai, &c. Y mae cynifer o Gymry yn Neheudir Cymru, ac yn enwedig yn Morganwg, yn meddu cyfenwau yn tarddu o'r Hen Destament fel y tybia llawer o'r Saeson yn gyfeiliornus fod mwy o deuluoedd Iuddewaidd yn byw yn rhai o drefydd Morganwg nag y sydd yn Hampstead hapus neu Brighton freiniol. Yn wir, gallai y rhai hynny o'n brodyr y Saeson sydd yn anghyfarwydd â Chymru feddwl, oddiwrth bresenoldeb cyfenwau Beiblaidd mewn amryw rannau o'r Dywysogaeth, eu bod o'r diwedd wedi darganfod cartref un neu ychwaneg o lwythau colledig Israel. Nid ydym am gymeradwyo y rhai hynny ar ein hochr ni o Glawdd Offa a ail fod o'r farn yma, i ddwyn ymlaen bresenoldeb y cyfenwau hyn fel tystiolaeth o blaid eu tyb. Y mae, modd bynag, yn ffaith ddiamheuol fod mwy o gyfenwau Ysgrhythrol i'w cael yn ne-ddwyrain Cymru nag yn unrhyw ran arall o'r Dywysogaeth. Nis gallwn esbonio hyn. Ymddengys fod presenoldeb enwau personol yr Hen Destament fel cyfenwau i'w briodoli i'r Diwygiad Methodistaidd a'r diwygiadau crefyddol eraill a fu yn Nghymru rhwng 1760 ac 1850; ond gan fod effeithiau y diwygiadau yma wedi eu teimlo drwy'r wlad o benbwylgydd, ag eithrio Maesyfed, y mae yn anhawdd deall paham y cyfyngir y dosbarth neillduol yma o gyfenwau, a siarad yn gyffredinol, i'r rhan dde-ddwyrainiol o Gymru. I'r sawl sydd yn hysbys o'r cyfnewidiadau dirfawr a wnawd yn y cymeriad Cymreig gan y diwygiadau crefyddol dilynol hyn, a'r rhai sydd yn hysbys o'r dull difrif a pharchus y mae y Beibl wedi cael, etto yn cael, a gobeithiwn a fydd bob amser yn cael, ei ddarllen a'i ddwys fyfyrto yn Nghymru, nid yw yn syn fod cyfran mor helaeth o enwau bedydd poblogaidd Cymru wedi cael eu cynmeryd o'r Ysgrhythrau a bod cyfran lawn mor helaeth o'r enwau yma yn awr yn cael eu defnyddio fel cyfenwau yn y Dywysogaeth. Y mae y Beibl wedi bod, ac yn parhau i fod, yn allu byw y'ngwlad ein tadau; ac hyd yn nod ag edrych arno o'r ochr lenyddol, efe ydyw yr un Llyfr ag y mae pob Cymro, o leiaf pob Cymro uniaith, bydded dlawd neu gyfoethog, i ryw raddau wedi "ei ddarllain, ei chwilio, a'i ddysgu, a'i fewnol dreulio." Yn wir, buasai yn beth hynod pe buasai cyfenwau Beiblaidd yn anghyffredin yn Nghymru, y wlad y gwerth-fawrogrir y Beibl gymaint ynddi. Gallwn fod yn sicr y buasai yn groes i ewyllys y bobl i ganiatau (heb son am annog) diddymiad yr enwau teuluidd cyffredin Davies, Jones, neu Thomas; ond y mae yn llawn sicrach y buasai yn fendith pe cyfyngid y cyfenwau Beiblaidd mwyafrif poblogaidd i nifer llawer iawn yn llai o deuluoedd, a phe mabwysiedid, hyd yn nod, enwau Beiblaidd eraill, neu, ynte gwell fyth, enwau gwir Gymreig, yn eu lle. Cadwer enwau personol da a rhesymol yr Ysgrhythr Lân; ond yn enw synwyr cyffredin, ai nid doeth fuasai cael rhyw gyfnewidiad ynglŷn â'r cyfenwau di-ddiwedd a ffurfir o honynt, a gadael y cyfryw enwau Cristionogol, neu, yn hytrach, enwau Iuddewaidd, yn llonydd? Yn sicr, gallasai y rhieni hynny ym Morganwg a alwasant eu plentyn Cristionogol wrth yr enw bedydd (ond an-Nghristionogol) o Maher-shalel-has baz, a olyga "prysurwech at eich yspail," ddewis enw mwy hapus? Rhaid fod enw mor glogyrnog wedi bod yn faich anioddefol iddo ac yn rhwystr effeithiol iddo rhag cael helwriaeth dda yn ei oes. Fe wel darllenwyr "Y Beirniad," oddiwrth ysgrif ar "Enwau" a ymddangosodd yn y cyleh-grawn hwnnw yn 1872, fod hwn yn fyw y flwyddyn hono. Gadewch i ni obeithio ei fod wedi osgoi marwolaeth a'i fod erbyn hyn yn byw ac yn llwyddo o dan enw arall.

J6346

(delwedd J6346) (Gorffennaf 1899) (tudalen 173)

Gan ein bod wedi cyfeirio fel hyn at enwau bedydd, bydd yn gyfleus, cyn myned yn mhellach gyda chyfenwau Beiblaidd presenol y Dywysogaeth, ini roi trem gyffredinol ar ddechreuad enwau Ysgrythyrol yn Lloegr a Chymru. Diammen i nifer fawr o enwau Ysgrythyrol gael eu defnyddio fel enwau bedydd gan y Prydeinwyr neu yr hen Gymry wedi dyfodiad Cristionogaeth i Prydain ac yn nyddiau Eglwys Brydeinig foreuol. Yr ydym yn awr yn cyfeirio at adeg ymhell cyn i Awstin, y mynach, lanio yn ein tir. Daeth i Brydain, fe gofir, yn y flwyddyn 597 o.c. Yn ystod y cyfnod hwn bu y saint canlynol fyw ym Mhrydain yn dwyn enwau Ysgrythyrol:—Aaron, Asaf, Deiniol neu Daniel, Deiniol Fab neu Deiniolen, ein nawdd sant Dewi, Ismael, Pawl Hên neu Paulinus, Pedr, Samson ab Amwn Ddu, Samson ab Caw, ac Ystyffan. Ceir hanes byr am bob un o'r saint hyn yn llyfr y diweddar Barch. Rice Rees, *Essay on the Welsh Saints* (1836). Dywedir fod Aaron, yr hwn oedd Rufeinwr yn hytrach na Phrydeiniwr, wedi dioddef merthyrdod yn 303 o.c., neu yn ystod erledigaeth y Cristionogion y'nghorllewin Ewrop gan Maximian Herculius. Credir fod y saint hwn yn un o drigolion y ddinas Rufeinaidd Caerlleon ar Wysg. Y mae cyfeiriad at ei ferthyrdod yn y Brut a elwir "Ystoria Brenhined y Brytanyet" sydd i'w gael yn un o'n hysgrifau mwyaf henafol, sef y Llyfr Coch o Hergest. Dilynwyd Cyndeyrn fel Esgob Llan Elwy gan Asaf tua'r flwyddyn 560 o.c.; a dyma, mae'n debyg, y rheswm dros roddi'r enw Seisnig St. Asaph i'r ddinas. Dywedir mai Deiniol ydoedd sylfaenydd abatty Bangor Deiniol neu Bangor Fawr yn Arfon; ac efe ydoedd esgob ac abad cyntaf yr abatty yna. Dywed Sieffre o Fynwy iddo farw yn 544 o.c. Ystyrir Deiniol Fab neu Deiniolen, yn sylfaenydd eglwysi Llan Ddeiniolen yn sir Gaernarfon a Llan Ddeiniol Fab ym Mon. Bu farw Dewi Sant, mab Sandde ab Ceredig ab Cunedda, yn 544 o.c., medd Asher, yn 82 mlwydd oed. Haera Giraldus Cambrensis, neu Gerallt Gymro, fod Dewi yn 147 mlwydd oed pan y bu farw; a dywed y diweddar Broffeswr Rees y gallasai fod wedi byw hyd at y flwyddyn 566 o.c. Os cymerwn yn ganiataol ei fod wedi marw yn y flwyddyn yma, yr oedd Dewi yn ei fedd ddeng mlynedd ar hugain neu ychwaneg cyn i gynrychiolydd y Fab ddyfod i aflonyddu ar heddwech yr hen Eglwys Brydeinig, eglwys nad oedd yn cydnabod yr hyn elwir yn hawl ddwyfol Archoffeiriad Rhufein i gael ei ystyried yn *vicar* neu gynrychiolydd Crist, neu ei honiadau mai efe yw ceidwad agoriadau Uffern. Blodeuai Ismael, brodor o Armorica, yn y cyfnod rhwng 542 a 566 o.c., neu ran o hono, yn ogystal a Samson ab Amwn Ddu, ac hefyd Ystyffan, mab Mawan ab Cyngau ab Cadell. Daeth Pawl Hên neu Paulinus o Ogledd Prydain; ac efe ydoedd abad cyntaf y Ty Gwyn ar Dâf neu Whitland. Yr oedd yn bresennol yn y gymmanfa a gynhaliwyd yn Llan Ddewi Brefi yn 519. Brawd Tyssul oedd Pedr; a bu fyw yn ystod y cyfnod o 500 i 542 o.c., neu ran o hono. Ganwyd Samson ab Amwn Ddu ym Morganwg; ac wedi bod yn esgob yn Dole yn Armorica, dychwelodd, yn ol hanesiaeth Gymreig, i Goleg Illtud, yn Llan Illtud Fawr, lle y mae croes goffa iddo i'w gweld hyd y dydd heddiw. Sant arall a addysgwyd y'ngholeg enwog Illtud ydoedd Samson ab Caw. Ymddengys fod enwau y saint hyn yn ffurfio rhestr gyflawn o'r holl enwau dianheuol Ysgrythyrol a grybwyllir yn nhraethawd Rees, ac yn y gyfrol werthfawr ar y Saint Cymreig a gyhoeddwyd o dan nawdd Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig a fodolai flnyddoedd yn ol. Gwelir oddiwrth y cyfrolau uchod nad oedd enwau Beiblaidd yn boblogaidd o gwbl yn y dyddiau santiaid hynny, pan yr ymddengys fod pob aelod o deuluoedd Cymreig neillduol yn sant wrth enedigaeth yn hytrach nag wrth broffes. Gellir dweyd, braidd, fod bonedd yn cael ei ystyried yr adeg hono yn bwysicach na duwioldeb. Dyddiau yr egwyddor etifeddol yn ddiddadl ydoedd y rhai hynny; ni allasai neb ond rhai o lwyth Aaron, megys, fod yn offeiriad. Y mae pob sail dros gredu, er hynny, fod y seintiau Cymreig yn ddosbarth duwiol ar wahan i'r gwahaniaeth teuluaid hwn. Nid oes a fynom ni, modd bynag, yn y papyr yma, â'u cymeriadau personol, ond yn hytrach â'r enwau yr adnabyddid hwynt wrthynt. Yn ddigamsynied, yr oedd gan y Saint Cymreig enwau Cymreig. Ychydig iawn yw nifer y rhai a wisgent enwau Beiblaidd o'u cydmaru â nifer y saint âg enwau Cymreig arnynt. Y mae absenoldeb enwau Beiblaidd yn y Mabinogion yn fwy hynod fyth. Nis gallwn ddarganfod ond dau enw o'r fath yn holl gwmpas yr ystoriau swynol hyn, sef Eli a Samson Vinsych; a cheir y naill a'r llall o'r enwau hyn yn ystori Cîlhwch ac Olwen. Fe all Asse, yn yr enw lleol "Kler Asse,"—yn sefyll, ieallai, dros Asaf neu Asaph,—wneud trydydd enw. Os gallwn farnu oddiwrth natur yr enwau a grybwyllir yn y Mabinogion a'r enwau wisgid gan y Saint Cymreig, y mae cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle yn y dull Cymreig o enwi personau, er y dyddiau bore

hynny, yn hanes Cymru. Y mae enwau a chyfenwau gwir Gymreig, a siarad yn gyffredinol, yn awr mor brin y'Nghymru o'u cydmaru ag enwau a chyfenwau estronol, bydded hwy yn rhai Seisnig, Normanaidd, neu Feiblaidd, ag ydoedd enwau estronol cyn y Gorchfygiad gan William. Anffawd fawr ydyw ei bod hi fel hyn.

Y mae y rhan fwyaf o'r enwau a geir yn y Trioedd, y Brutiau, ac yn Llyfr Teilo, yn cynwys enwau wisgid gan Gymry o'r amseroedd boreuaf hyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Y mae cyfeiriad yn y Trioedd at ddau gymeriad o'r Beibl, sef Samson ac Absalom, y rhai a elwir "Sampson Gadarn" ac "Absalon ab Dafydd": ag eithrio y rhai hyn, yr unig Gymro, neu yn hytrach, Prydeiniwr, a enwir yn y Trioedd a allasai fod ag enw bedydd Beiblaidd ganddo ydyw Elisser Gosgorddfawr. Gwnaer cyfeiriadau yn "Ystorya Brenhined y Brytan-yeit" at Aaron, y merthyr, ac at un "Elasyus," yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 542 o.c. Dywedir yn y Brut yma fod "Elised ab Rodri" wedi cael ei ladd yn 940 o.c., a bod "Chynge," mab rhyw "Elised," wedi ei wenwyno yr un flwyddyn. Bwriadwn ymdrin â'r enwau Elisser, Elasyus, Elised, &c., ymhellach ymlaen dan y cyfenw Ellis. Ymysg yr enwau a enwir yn Mrut y Brenhinoedd Brytanaidd, o'r rhai hynny a fu fyw wedi dyfodiad Gwilym y Gorchfygwr i'r wlad, y mae enwau tri thywysog Cymreig, y cwbl yn dwyn yr enw Dafydd, sef Dafydd ab Gruffydd ab Llewelyn, Dafydd ab Owain Gwynedd, a Dafydd ab Llewelyn ab Iorwerth, yn ogystal ag enwau Daniel ab Sulyen, "esgob Mynyw ac archddiagon Powys," yr hwn a fu farw yn 1127; a Calivor, mab Daniel, archddiagon "Keredigyawn," yr hwn a fu farw yn 1162 neu 1163. Dywedir yn Mrut y Tywysogion fod Griffith ab Cyngan wedi cael ei ladd drwy drais ei frawd Elise yn 810 ("y llas griffri vab Kyngan o dwyll elisse y vrawt"), a bod "Marc mab herald benmon" (Penmon) wedi cael ei ladd tua'r flwyddyn 940 o.c. Ceir cyfeiriadau yn y Brut yma at farwolaethau y personau canlynol:—Simon, "archddiagon Keveilawc," tua 1151; Thomas Wulin, esgob Mynyw, tua 1255; a "Joab, abat y Fflur" (Ystrad Fflur) yn 1268; ac y mae'r gwahanol enwau "Ystevyn gwnstabil," Elise ab Madawc, ac Ioan, yn cael eu nodi o dan y gwahanol flynyddoedd 1135, 1202, a (tua) 1270. Gwelir fod y blynyddau hyn yn ddilynol i 1066, sef blwyddyn gorchfygiad Lloegr gan Gwilym y Gorchfygwr.

Fe ddywed Anderson yn ei lyfr *Genealogy and Surnames* (1865) fod enwau Beiblaidd "mor hynod o arfynych yn Lloegr cyn y Gorchfygiad, fel nad oes yr un i'w gael mewn rhestr o esgobion Sacsonaidd. Fel aml i arferiad a threfniad, hyd yn hyn yn anadnabyddus yn Lloegr, fe'i dygwyd i'r wlad gan y Normaniaid, ymliniad y rhai wrth eu crefydd a wnaeth enwau Ysgrhythrol, megis Adam, David, John, Stephen, Peter, a Matthew, yn fuan yn bur gyffredin yn yr ynys hon; ac y maent wedi aros yn gyffredin hyd yn hyn." Yr ydym wedi gwled fod yr enwau Dafydd, Pedr, ac Ysteffan, a ddyfyrwyd, wedi bod yma am ganrifoedd cyn dyfodiad y Normaniaid; ac yr oedd John hefyd wedi cael ei fabwysialu yn ei wisg Brydeinig, Ieuan, yn ystod y cyfnod y bu yr hen Eglwys Brydeinig yn blodeuo. Y mae yr enw Ieuan i'w gael ymysg tystion i rodd a wnaed gan y brenhin Pabiau i Eglwys Gadeiriol Llandaf. Fe ddyfynir geiriad y rhodd hon yn llawn yn Llyfr Teilo, a adnabyddir hefyd fel "Llyfr Llan Daf" neu *Liber Landavensis*. Cawn yn yr hen lyfr Cymreig yma fod esgob o'r esgobaeth hon a gysegrwyd ar y dydd cyntaf o Hydref, 1022, yn cael ei alw yn Joseph, a bod Noe ab Arthur, yr hwn a roddodd "Pen alun" (yn awr, Penally, ger Dinbych y Pysgod), i'r eglwys gadeiriol, yn byw yn nyddiau Dyfrig Fawr neu Dyfrig Sant. Cyfeirir hefyd yn Llyfr Teilo at Aaron; Daniel, esgob Bangor; Dewi Sant; Elised, brawd Arthfael, brenhin Gwent; ac at Pawl Hên neu Paulinus, yn ogystal a nifer o bersonau eraill, y rhai a fuont fyw ar ol y gorchfygiad Normanaidd. Fe orphenwyd cyfansoddi yr hen lyfr hwn, mae'n debyg, tua'r flwyddyn 1132.

Nid oes amheuaeth na roddwyd adfywiad graddol i fabwysiad enwau Beiblaidd y'Nghymru trwy helaethu y dylanwad Normanaidd. Ceir yr enwau Ysgrhythrol canlynol yn y *Domesday Book*:—"Abel, Abraham, Adam, David, Eli, Isaac, Jacob, James, Johannes, Joseph, Matheus, Marc, Michaelis, Michaliel, Moyses, Nichol, Nicholaus, Paulin, Pauli, Petrus, Salomon, Sanson, Simon, Simond, Simund, a Stefan." Gwisgid yr enwau yna gan amryw o bersonau a enwir yn y llyfr uchod; a dichon fod yr enwau "Leviat, Michelenie, Peret, Pierani, a Tame," a geir hefyd ynddo, yn tarddu o'r Beibl. Gorfodir ni i ddyfod i'r penderfyniad fod mabwysiad enwau Beiblaidd y'Nghymru yn y Canol Oesoedd yn ddyledus i raddau helaeth i'r dylanwad Normanaidd; oherwydd ymddengys nad oedd y fath enwau wedi dod o gwbl yn weddol bobl-

ogaidd ond yn yr ardaloedd hynny yn y Dywysogaeth lle yr oedd y Normaniaid yn dal awdurdod. Ag eithrio yr enw poblogaidd David neu Dafydd, y mae enwau Beiblaidd yn anfynych iawn y Nghoffyr Caernarfon, a ysgrifenydd tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ceir ynddo yr enwau "Daniel, Jacobi, Johannes, Phillip, Thomas, a Symon," a rhai enwau Beiblaidd mewn gwisg Gymreig, megis "Atha" (Adda), "Issek" a "Isek" (Isaac), a "Ieuan" (Ioan).

Gwelir oddiwrth achau Cymreig ac ysgrifau Gwladol (*State documents*) yn dwyn cysylltiad â Chymru, fod enwau Ysgrythyrol, a siarad yn gyffredinol, yn anfynych yn Nghymru hyd ddechreuad yr ail ganrif ar bymtheg. Yr oedd eu presenoldeb blaenorol yn y Dywysogaeth yn ddyledus mewn rhan i ddygiad Cristionogaeth i'r wlad, ac, fel y dywedwyd o'r blaen, hefyd mewn rhan i'r Normaniaid ac i ddylanwad Rhyfeloedd y Groes. Bu Gerallt Gymro, fel y geilw Mr. Henry Owen Giraldus Cambrensis, ar daith trwy Gymru yn 1187, gyda'r Archesgob Baldwin, yn pregethu ar ran Rhyfel y Groes; ac er nad oedd y rhyfelgyrch hwn mor lwyddianus yn ei ffrwythau ag y disgwyliid, eto gallwn fod yn sicr iddo fod yn foddion i wneud enwau Ysgrythyrol yn boblogaidd ymysg Cymry yr oes honno. Yr oedd gan amryw o Gymry enwog oedd yn blodeuo rhwng y Gorchfygiad Normanaidd a diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg enwau Beiblaidd, ac yn eu mysg ceir enwau tywysogion a beirdd, â pha rai y mae pob myfyriwr o hanesyddiaeth a llenyddiaeth Gymreig yn gyfarwydd.

T. E. MCCRIS (MORUS GLASLYN).

J6349

CYFENWAW CYMREIG.

V. CYFENWAW BEIBLAIDD CYMRU.—(Parhad.)

CYN myned yn mlaen i draethu ar enwau Ysgrythyrol y'Nghymru yn ystod y tair canrif ddiweddar, nis gallwn beidio cyfeirio at ddywediad rhyfedd Theophilus Evans, yn ei lyfr "Drych y Prif Oesoedd," gyda golwg ar y Cymry hynny oedd yn gwisgo yr enwau Dafydd, Evan, Shôn, a Siencyn. Gwyddom mai ffurf Gymreig ddiweddar ar David ydyw Dafydd; ac ymddengys mai Dewi ydoedd ei ffurf gyntaf, a bod Evan neu Ieuan, a Shôn, a Siencyn, yn ffurfiau Cymreig cynar a diweddar o'r enw John. Pan yn cyfeirio at yr hen Brydeiniaid, dywed:—

"Yn y gamp, y maent yn ymrannu yn ddwy blaid, dan enwau Brithwyr ac Henwyr, y naill yn erbyn y llall. Yr Henwyr yw yr holl rai o'r pedwar enw cynefin, Efan, Dafydd, Shôn a Siencyn; a'r Brithwyr yw pawb yn ddiwahan o un enw arall pa bynag; ac ffrwythaf y mae'r Henwyr (er ond o bedwar enw) yn emill y maes. Yn awr, wrth Henwyr y meddylir yn ddilys yr hen drigolion cyntaf; ac felly y Brithwyr, yn estroniaid a phobl ddyfod. Tua 75 a.n. y tiriodd y Brithwyr cyntaf yn Mhrydain."

Fe ysgrifennwyd yr uchod yn y flwyddyn 1740, dros gaurif a haner yn cl, cyn i'r un o'n hen ysgrifau Cymreig gwerthfawr gael ei gyhoeddi. Nid rhyfedd, felly, fod awdwr y llyfr adnabyddus y bum yn difynu o hono yn haeru yr hyn nis gallai ei wirio. Nis gallwn, modd bynag, gytuno fod absenoldeb defnyddiau yn unrhyw gyfiawndad dros apelio at ddychrynig bywiog am ei ffeithiau. Nid oes angenrhaid am sylw pellach ar hyn o fater. Y mae Theophilus Evans wedi marw; ac am y marw rhaid siarad gyda pharch. Fe wasanaethodd ei genedl yn dda. Gorphwysed ei weddillion mewn heddwch.

Dywed awdwr *The History of Christian Names* (1863) fod enwau Ysgrythyrol wedi dechreu cael eu defnyddio yn helaeth yn Lloegr rhwng 1500 a 1600, ac y dewisid y cyfryw enwau yn fynych trwy agor y Beibl ar amcan a chymeryd yr enw cyntaf y damweiniol y llygad syrthio arno; ond ambell i dro fe godai y dewisiad oddiar edmygedd gwirioneddol o'r cymeriad oedd piau'r enw. Gwyddom fod y dull hwn wedi cael ei ddilyn mewn llawer o engreiffitiau y'Nghymru yn ystod y deng mlynedd ar hugain neu'r deugain mlynedd diweddar; eto gellir cymeryd yn ganiataol fod y rhan fwyaf o'n henwau Ysgrythyrol wedi cael eu mabwysiadu ar y cyntaf am yr edmygai rhieni Cymreig y cymeriadau Beiblaidd a alwyd wrth yr enwau hynny. Braidd y gall yr estonad yma, modd bynag, gymeryd i mewn y fath enwau a Chain a Herod. Beth bynag am hynny, y mae yn sicr i enwau Beiblaidd gyrraedd poblogrwydd helaeth yn ystod y Weriniaeth (1649-1660) nid yn unig yn Lloegr ond hefyd y'Nghymru. Gellir profi y ffaith yma drosodd a throsoedd. Y mae y dyfyniad canlynol a gymerwyd o gyhoeddiad a alwyd *The Character of a London Diurnal*, ac a argraffwyd yn Llundain yn Rhagfyr, 1644, ynddo ei hun yn dystiolaeth gref o'r ffaith hon ynglŷn â Lloegr:—

"Ond y mae y dydd-lyfr (*diurnal*) wedi blino ar y fraich o gnawd; a dechreuwa hosanna yn awr i Cromwell, un sydd wedi curo ei ddrymiau yn llwyr trwy yr Hen Destament; a gellwch ddysgu achau ein Gwardedwr oddiwrth yr enwau yn ei gatrawd. Nid yw y cynnull-feistr yn defnyddio unrhyw restr oddigerth y benod gyntaf ym Mathew. Pa fodd y beiddient wrthwynebu y brenhin i ddod ag estron bobl i'r wlad pan y maent hwy eu hunain yn lletya y fath fyddin o Hebreaid."

Yr oedd enwau a chyfenwau Ysgrythyrol hefyd wedi cynyddu y'Nghymru yn ystod y cyfnod yma ac ynghynt. Mewn deiseb, yn cynwys enwau 762 o bersonau, a gyflwynwyd yn 1655 i Oliver Cromwell gan amryw o eglwysi yn Neheudir Cymru a Sir Fynwy cawn yr enwau Beiblaidd canlynol yn digwydd yn fynych:—"Daniel, David, Davids, Davies, Davis, Ellis, Gibeon, John, Jones, Mathew, Mathews, Moses, Philip, Phillip, Phillips, Sampson, Samuel, Thomas, &c." Y cyfenw mwyaf cyffredin ydyw Thomas, cyfenw poblogaidd Morganwg. Cymer Jones yr ail le y tro hwn. Er adeg y Weriniaeth, ac yn enwedig yn ystod cyfnod y diwygiadau crefyddol y cyfeirid atynt ar ddechreu y papyr hwn, y mae enwau a chyfenwau Beiblaidd wedi lluosogi y'Nghymru ochr yn ochr â chynydd yr Eglwysi Rhyddion. Y mae Ymneillduaeth wedi gadael ei hargraff ar Gymru yn ei henwau Ysgrythyrol, y rhai sydd ambell dro, fel y gwelsom, yn hynod o afresymol o ran eu nodwedd. Cawn gyfleustra etto i gyfeirio at ddoesbarth o gyfenwau Beiblaidd yn y Dywysogaeth y gellir eu galw yn afresymol; ond yn y cyfamser prysurwn i ymdrin â phrif gyfenw Cymru a'r holl deyrnas, mae'n debyg, os nad yn wir y cymundebau Seisnig trwy'r holl fyd gyda'u gilydd: cyfeiriwn at y cyfenw syml a byth-bresenol hwnw a adwaenir trwy y cyfanfyd fel Jones.

Megys ag mai "John Bull" yw yr enw arwyddocaol am Sais, felly hefyd "John Jones" ydyw yr enw a ddefnyddir i ddesgrifio Cymro. Dywedodd y

Cofrestrwydd Cyffredinol, yn ei Adroddiad a gyhoeddwyd yn 1853, fod "yr enw John Jones y Nghymru yn un perffaith ddiogel, o herwydd, pe y gelwid ef allan ar groes tref farchnad, ni chyfeiriai at neb penodol." Yr oedd y mynegiad yma, yn sicr, yn wir, yn llythrennol wir, yn 1853. Y mae yr enw noeth John Jones yn anamlach oddi ar y pryd hwnw; ond y mae yn amheus a ydyw personau sydd yn dwyn yr enw bedydd John a'r cyfenw Jones, gydag enw arall yn y canol, yn llai yn awr na'r adeg hono. Yr unig wahaniaeth ydyw hyn, y mae John Jones yn ei noethni, yn awr wedi cael ei ddilladu âg enw arall i osgoi amryfusedd, ac er mwyn iddo gael ei ystyried ryw ychydig yn fwy parchus o'r herwydd. Os a'r John Thomas Jonesiaid a'r John Richard Jonesiaid ar gynydd fel ag y maent yn myned, byddwn yn fuan yn yr un man ag yr oeddwn yn 1853, a bydd raid ychwanegu enw dilladol arall, neu newid y cyfenw, fel yr awgrymasom mewn papyrâu blaenorol; yn w'r, os na wneir y naill neu'r llall, bydd y dyryswech yn ddyryswech mwy. Pan yu son am John Jones rhydd Lower ystori fach ddyddorol yn ei *Patronymica Britannica* (1860) i'r perwyl canlynol:—

"Tua'r flwyddyn 1825, yn *Assizes* Henffordd (*Hereford*), yr oedd tyst mewn achos Cymreig yn cael ei holi ger bron y Barnwr Allan Park. Ei enw ydoedd John Jones. Gofyrrwyd iddo ai dyna ei enw bob amser; a dywedodd yntau mai e. Yna gofynwyd iddo ai ni fyddai ar adegau, pan yu brw y Nghaer Fyrdin, yn cael ei adnabod wrth yr enw Evan Evans, ac i hyn atebodd yn gadarnhaol. Esboniwyd yr anghysondeb ymddangosiadol yma i'r llys gan Mr. Taunton (wedi hynny Syr William Taunton, barnwr yn Llys Maine y Breuhin), yr hwn a ddywedodd mai arall-eriad Cymreig oedd Evan am John, ac Evans am Jones; ac y gallasai John Jones gael ei alw yn ddiwahaniaeth yn Evan Jones, John Evans, heb unrhyw wir gyfnewidiad yn yr enw."

Fe all fod yr esboniad yma yn un cywir; ond y mae yn amheus a ydoedd yr arferiad yma unrhyw amser yn gyffredinol trwy Gymru; oherwydd nid ymddengys y gwybyddid yn gyffredinol mai yr un enw ydoedd John ac Evan neu Ieuan.

Gwrandawyd achos rhyfedd ynglŷn âg ewyllys yn Llys Sirol Caernarfon, yn haf 1877, pryd y tystiolaethwyd fod John Morris, y testamentwr, wedi rhoddi yr enw John Jones i'w fab (ystyr pa un ydoedd John ap John) "yn ol hen arferiad Cymreig." Ystyriai y barnwr yr arferiad yn un ffol; ac ychwanegai un o'r cyfreithwyr ei fod yn achosi llawer iawn o gyfreithio oherwydd yr anhawser o wahaniaethu y naill berson oddiwrth y llall. Dywedid fod yr arferiad yn diflanu yn raddol, ac nad oedd yr un person allan o ugain y pryd hynny yn ei ddilyn.

Parodd yr enw John Jones lawer iawn o flinder yn Ionawr, 1899, yn y gwrandawriad a fu yn Nhy y Cyffredin ger bron Mr. Campion, Archwiliwr Rheolau y Ty, ynghylch y ddeddf fwriadedig er dod a dwr i Lundain o Gymru. Holwyd amryw o dystion Cymreig o'r enw John Jones; a bu cryn anhawser wedyn i wybod at dystiolaeth pa John Jones y cyfeirid. Yr oedd dyryswech yn teyrnasu, ond ar ol deuddydd o'r blinder yma deuwyd i awyr enwau clir; a bu diwedd ar y fath anhwylysdod. Dywedai Mr. Cripps, un o'r bar-gyfreithwyr, fod un ar bymtheg o'r darnau tir a fwriedid brynu er mwyn gwneyd llyn, yn cael eu perchenogi gan bersonau yn dwyn yr enwau John Jones.

Nis gwyddom a ydyw dyddiau John Jones wedi eu cyfrif, ond y mae yn amlwg, er yr hyn a ddywedwyd am achos y dwr, nad yw yr enw mor gyffredin yn awr y Nghymru ag y byddai ugain neu, hyd yn nod, ddeng mlynedd yn ol. Y mae yn ddrwg genym nad ydym wedi dod o hyd i'r John Jones gwreiddiol, ond cawn fod yr enw wedi cyrhaedd Birmingham yn 1589, a bod y John Jones hwn yn ddyn digon cymeratwy i gael ei enwi mewn breinleu a arwyddwyd y flwyddyn hono.

Y mae tarddiad Jones yn berffaith amlwg. Talfyriad ydyw o'r ffurf Johnes neu Johns, hynny yw, John gyda'r ychwanegiad o *es* neu *s*, a esboniwyd yn flaencrol. William Johnes, neu, fel yr ychwanegir, Jones o Gastellmarch, ydoedd yr aelod seneddol dros Fon yn 1597; ac ymddengys mai Griffith John neu Griffith Jones (yr hwn hefyd a enwir yn Griffith ap John ap Robert) ydoedd cwrstabl Cymreig cyntaf Castell Conwy. Yr oedd yn gwnstabl yn y flwyddyn 1549. Cawn yr enwau Thomas Johns a John Jones ymysg tîrfeiddianwyr Lleyn yn 1675. Dywed y Cofrestrwydd Cyffredinol yn yr Adroddiad y cyfeiriwyd ato yn barod, fod yn hawdd esbonio amlygrwydd y cyfenw Jones "oherwydd fod cymeriad St. John, ymhob gwlad y cofleidiwyd Cristionogaeth ynddi, wedi bod yn uchel iawn yn ei boblogrwydd, ac mai ei enw ef a roddid yn fynychaf wrth y bedyddfaen. . . Y Nghymru, modd bynag, y mae mor gyffredin fel, ar y dybiaeth hon, na fuasai waeth i ni boblogi y Dywysogaeth a dynion di-enw;

casglu yr ydym, gan hyny, nad yw y wlad hono ond yn cynrychioli dewisiad cyffredinol o'r ffurf sylfaf o enw personol yn hytrach na chwaeith am enwau mwy neillduol neu ddesgrifiadol. Y mae y ffaith fod mwyafrif cyfenwau Cymreig yn codi o enw bedydd y tad yn gwneud enwau teuluaid Cymru yn llawer llai dyddorol na chyfenwau Lloegr."

Y mae teuluoedd y Jonesiaid yn gwir gynrychioli teuluoedd Cymru. Fe ddywedir mai yn ystod Rhyfeloedd y Groes y daeth yr enw John yn boblogaidd yn Lloegr, ac y defnyddid ef ar y cyntaf oherwydd ei gysylltiadau duwiol. Y mae yn fwy na thebyg mai cymeriad personol John sydd yn esbonio cyffredinolrwydd yr enw a'i fabwysiad boreuol y Nghymru fel enw a chyfenw; ond fel cyfenw y mae ei fynychdra yn dod yn ddifrifol. Y mae gormod o lawer iawn o'r Jonesiaid yn y wlad; a buasai yn fendith fawr pe buasai y Senedd, yn ei doethineb, yn ymestyn ei chynorthwy trwy roddi cyfleustra i unrhyw Jones, a deimlai duedd felly, i newid ei enw yn rhad ac yn effeithiol trwy fyned i gofrestr-newid-enw i'r amcan hwn. Bu y Barnwr Lopes—yn awr Arglwydd Llwydlo (*Ludlow*)—yn gwrandaw achos o Sir Gaernarfon ynghylch ewyllys, ym mis Gorphenaf, 1894; ac y mae yn ymddangos ei fod wedi bod mewn penbleth garw oherwydd nifer y Jonesiaid a'r Robertsiaid oedd yn gysylltiedig â'r achos. Y oedd y nifer o wahanol bersonau yn gwisgo yr un cyfenw a fu o'i flaen y diwrnod cyntaf yn drysaw hyd y nod ei ddeall treiddiol ef; ond ar yr ail ddiwrnod yr oedd y Jonesiaid eu hunain yn ormod iddo. Yr oedd y Robertsiaid wedi ymneillduo o'r achos; ond gwnawd y gwagder yma i fyny trwy ddyfodiad y Jonesiaid y diwrnod wedyn yn nifer cynyddol, i.e. bron yn llw lluosog. Nid yn unig yr oedd y barnwr wedi drysu, ond yr oedd y bar-gyfreithwyr yn yr achos mewn trallod mwy: ac ymddangosodd y Llys fel pe wedi ei droi yn Bedlam tadenwol. Yr oedd yr achos yma, yn sicr, yn wers wrthrychol mewn enwi i bob Cymro; a phwysleisiodd y Wasg Gymreig, ar y pryd, y priodoldeb o gael cyfnewidiad trwydd y nghyfenwau Cymru. Er hyn oll, teyrnasa Jones yn ben. Gwir a ddywedodd un golygydd—fod genym ddigonedd o enwau ardderchog y Nghymru; ond yn anffodus enwau lleoedd ydyw ein henwau goreu, ac nid yr enwau a roddir i ddynion a merched. Gofynnodd "*Punch*" ychydig amser yn ol — "Ai nid ydyw Jones yn enw Cymreig?" Nis gallwn yn gydwbodol ateb, "Ydyw, diolch i'r newydd;" ond, ar y llaw arall, rhaid i ni gyffesu mai Jones ydyw y cyfenw mwyaf cyffredin y Nghymru; a buasai yn dda pe buasai Cambria yn ei anwybyddu ac yn fabwysiadu yn ei le rai o'r enwau da, desgrifiadol, a soniarus, a geir yn y Mabinogion ac ymysg hen lyfrau am yr Eglwys Brydeinig cyntefig. Rhaid i ni ollwng Jones ymaith heb fendith, oherwydd ei fod yn awr yn llips, wedi tyfu gormod, ac yn dda i ddim ond i achosi dryswch dibendraw. Gwnaethem yr un peth a Davies a Thomas, a'r enwau cyffredin eraill o'r Beibl a geir yn Nghymru; cawsent i gyd fyned yr un ffordd a Jones, i'r anialwech neu i'r diffaethwch; ac yna gallasem gael y boddhad o ysgrifenu ar draws pob cyfryw gyfenw y gair—(ac yn yr achos yma, y gair croesawus)—"*Ichabod*."

Dyma restr o'r rhau fwysaf o gyfenwau Beiblaidd sydd i'w cael yn awr y Nghymru a Sir Fynwy:—Abel, Abell, Abraham, Absalom, Adams, Amos, Benjamin, Cain, Caleb, Clement, Cornelius, (Dafydd?) David, Davies, Davis, Davys, Daniel, Daniell, Daniels, Elias, Ellis, Emanuel, Emmanuel, Enoch, Ephraim, Ezekiel, Felix, Gabriel, (Gibeon?), Herod, Hosea, Isaac, Isaacs, Ishmael, Jacob, Jacobs, James, Japheth, Jehu, Jeremy, Job, Joel, John, Johnes, Jones, Jonas, Jonathan, Joseph, Joshua, Levi, Levy, Lot, Luke, Manuel, Mark, Marks, Matthew, Mathew, Mathews, Matthews, Mathias, Matthias, Micah, Michael, Mordecai, Moses, Nathan, Nathaniel, Nichol, Nicholas, Nicholl, Nichols, Nicol, Nicholl, Paul, Paull, Peter, Peters, Phebbi, Phillip, Phillips, Salathiel, Samson, Sampson, Samuel, Samuels, Shadrach, Simon, Solomon, Stephen, Stephens, Theophilus, Thomas, Timothy, Titus, Tobias, Zechary, &c. Argrephir yr enwau gwreiddiol a'u hystyron, yn niwedd y papyr hwn. Y mae yn syndod gweled fod cynifer o'r Cymry yn glynu wrth gyfenwau mor Hebreig ag Abraham, Absalom, Benjamin, Caleb, Enoch, Ephraim, Gabriel, Hosea, Ishmael, Jacob, Moses, Levi, Lot, Nathan, Shadrach, Solomon, Zechary, &c.; ac y mae yn hynod fod y cyfenwau o'r dosbarth yma i'w cael bron i gyd yn Neheudir Cymru. Hawlia brodor o Landybie mai trigolion y plwyf hwnw biau'r llawryf au wisgo enwau Ysgrifthyrol. Ysgrifennodd i newyddiadur lleol, a mynegai y gallasai y pentref rifo, ymysgei blant, bersonau yn dwyn yr enwau Enoch, Noah, Isaiah, Jeremiah, Daniel, Joseph, Isaac, Jacob, Dan, Benjamin, Moses, Joshua, Hananiah, Josiah, Nimrod, David, Samuel, Matthew, Thomas, Stephen, Phillip, Peter, James, a John. Dyna gofnodiad nas gall Aberdâr yn

y Deheudir, na Ffestiniog yn y Gogledd, ragori arno. Y mae yn rhaid fod gan bobl Llandybie duodd ofnadwy at enwau Beiblaidd. Wel, nid ydym yn cenfigenu wrthynt. Y mae, fodd bynag, gan rai o'r Deheuwy'r enwau o natur eithafol, ac nis gallwn amgyffred na deall sut y tueddwyd unrhyw rieni i roddi enwau mor anghyffredin a gwrthun i'w plant. Y mae cannoedd o Gymry â chanddynt enwau bedydd, y rhai a ail-adroddir yn eu cyfenwau. Yr ydym yn gyfarwydd â'r cyduniadau Beiblaidd, megis David Davies, John Jones, Phillip Phillips, Thomas Thomas, &c.: ond onid yw yr enwau canlynol a wisgir gan Gymry byw yn wirioneddol ryfedd?—Daniel Daniel (Lerpwl); Ephraim Ephraim (Ffestiniog); Enoch Enoch (Aber Ayrton); Joshua Joshua (Aber Gafenni); Michael Michael (Aberdâr); Moses Moses (Caerphili); Theophilus Theophilus; &c. Y mae yr enwau yn ddigon di-chwaeth; ond y mae yna Gymry diniwed yn gwisgo enwau llawn mwy anghyfadras na'r rhai yma. Dyma ychydig o honynt:—David Jonathan (Aber Ayrton); Josiah Emanuel (Aberdâr); Daniel Mordecai (Llan Sannor); Johanna Emmanuel (Dowlais); Seth Joshua (Pont Faen); Thomas Salathiel (Bala); &c.

Gallesid rhoddi llawer o enwau eraill i ddangos pa mor anghymedrol ydyw y dull-enwi Cymreig, nid yn unig heddyw ond hefyd yn yr amser a fu. Gyda golwg ar y gorphenol, cofnodir am un Abednego Jones o Fallwyd yn rhoddi dwy geiniog yn 1689 tuag at gynorthwyo y Protestaniaid Ffrengig; cofnodir mai enw taid y diweddar Nizander (y Parch. Morris Williams) ydoedd William Jesus; fod un David Onesiphorus yn byw yn Llan Fflewyn, Mon, y ganrif ddiweddaraf; ac mai enw gweinidog llwyddianus gyda'r Annibynwyr yn Aberystwyth, yr hwn a anwyd yn 1774 ac a fu farw yn 1844, ydoedd Azariah Shadrach.

Yn awr y mae y rhan fwyaf o'r enwau a'r cyfenwau Beiblaidd hyn yn ddi-ystyr i ni, ond i'r Hebreaid a'r Groegiaid yr oeddynt yn llawn o feiddwl. Yn union fel y mae ystyr cyfenw Cymreig, megis Anwyl neu Dedwith, yn amlwg i ni, felly hefyd yr oedd yr enwau Hebraeg i'r Iuddewon a'r enwau Groegiaid i'r Groegiaid. Y mae darllenwyr y Beibl yn gydnabyddus âg ystyron enwau megis Abraham, Isaac, Ishmael, Jabez, Pedr, a Samuel; ond pa faint a w'r ystyron enwau cynnefin fel Daniel, David, John, Phillip, Thomas, Stephen, &c.? Y mae gan rai o honom enwau cyfaddas,—nid oes gan eraill. Nid yw pob Daniel yn gyfiawn, ac ni cheir pob Dafydd yn wr wrth fodd calon Duw. Beth bynag am hynny, y mae bywydau rhai o'n cydgenedl wedi profi mor hynod o briodol a hapus oedd yr enwau a ddygent. John Elias oedd un. Yr oedd ei enw bedydd yn cyhoeddi ei fod yn rhodd Duw, tra yr arwyddodd ei gyfenw mai Jehovah oedd ei Dduw. Ond, wedi'r cwbl, gellir dweud mai sam-enwau ydoedd llawer o'r enwau gwreiddiol a geir yn y Beibl. Nid oedd Absalom yn "dad tangnefedd," ac y mae yn amheus a allasai Solomon fod yn "heddychol" gyda y fath nifer o wragedd o'i gwmpas. Nid oedd Pedr mor sefydlog a'r "graig;" ac, yn sicr, nid dyn "bychan" ydoedd Paul, oddieithr feallai mewn taldra. Gall y rhai hynny o honom felly ag sydd yn gwisgo enwau anghymwys gymeryd cysur oddiwrth y fleithiau hyn. Nis gall pob Thomas fod yn "efaill" na phob Philip fod yn "hoff o geffylau;" ond nid oes unrhyw reswm pahan nas gall pob Felix fod yn "hapus" er ei fod wedi priodi. Pa fodd bynag, da fuasai pe byddai pob Daniel yn gyfiawn, pob Gabriel yn ddyn Duw, pob Marc yn foneddigaidd, a phob Titus yn aarhydeddus. Pe gallesid ystyried pob person a elwir yn Jones yn rhodd Duw, gwlad mor fendigedig fuasai Cymru! ni allasai unrhyw dywysogaeth ar wyneb y ddaear fod mor nefol! Y mae Jones "ar gynnydd" y Nghymru, ond nid felly Japheth, er yr awgryma ei ystyr hynny.—(*I'w barhau*).

Porth Madog.

T. E. MORRIS (MORUS GLASLYN).

Y LLYFR.

Y LLYFR yw cell llafur cu—y meddwl,
A moddion dadblygu
Ffraeth frodyr,—fwrwyth efrydu
Lysgedigion, loewon lu.

GLAN MADOG.

Y PRESENOL.

Yn adeg pob adeg i'n byd—y rhoes Ion
Y Presenol; hefyd,
Duw'r hedd a'i dyry o hyd,
I'r beius, yn awr bywyd.

Llanuwchllyn.

BARDD GLAS.

GEIRWIREDD.—(BUDDUGOL).

GEIRWIREDD—ddilwgr arawd,—oreu sail
Cywir sen neu folawd,—
Llysg wasaidd dwyll esgusawd,—
Llais heb rith,—safon llys brawd.

Dinmael. E. E. JONES (DIPHWYSON).

Y NANT.—(BUDDUGOL).

Rhed hi rawng meini'r mynydd;—gad yr
Gyda rawysg ystlenydd: [allt
Er deled thysni'r dolydd,
"O! na chawn fôr," ei chian fydd.

Pwllheli.

E. MAWDDACH JONES.

CYFENWAU CYMREIG.

V. CYFENWAU BEIBLAIDD CYMRU.

BWRIADWN yn awr ymdrin â rhai o'r enwau Beiblaidd cyffredin a geir y'Nghymru.

Adams, yn naturiol, a hawlia ein sylw cyntaf. Tra yn cyfaddef fod y cyfenw hwn yn gyffredin yn Lloegr, yr ydym, er hynny, yn credu fod ei fab-wysiad ef, y'ng hyd a chynifer o gyfenwau Beiblaidd eraill y'Nghymru, yn codi o'r Diwygiadau crefyddol y cyfeiriwyd attynt yn nechreu y papur hwn. Ceir y cyfenw fynychaf yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Y ffurf Gymreig hynaf o'r enw Adam ydoedd Addaf, a dalfyrwyd wedi hynny i Adda, y ffurf a ddeinyddir yn y Beibl Cymraeg ac y'Nghymraeg yr oes hon. Ymddengys fod yr enw yn un cyffredin mewn manau neillduol y'Nghymru o'r drydedd ganrif ar ddeg i'r bymthegfed ganrif. Yr oedd amryw ffurfiau i'r enw. Cawn mewn *Patent Roll* y'nglŷn â Sir Drefaldwyn, o'r flwyddyn 1290, fod y brenhin Edward 1. wedi rhoddi prydles ar dir gwyllt (*waste*) a elwid Aldredeshys a Dyothuguin i un "Adam ap Leulyn," a bod prydles arall wedi ei rhoddi i un "Adaph ap Adaf ap Blethin Gough" ar dir gwyllt a elwid La Dole. Llewarch ap Adam oedd un o dystion i weithred o eiddo yr Esgob Anian a wnawd yn y flwyddyn 1309, ac a argraffwyd yn llyfr Browne Willis ar Eglwys Gadeiriol Bangor. Enw Deon Ardudwy yn 1340 ydoedd Adam ap Joram. Digwydda yr enw "Atha ap llowargh" y'Nghofflyfr Caernarfon; a cheir y ffurf henafol Addaf yn yr enw "William ap Adaf ap Tudor" mewn breinlen a gyflwynwyd yn 1391 i David Holbarch, ac eraill, gan John, Argwydd Mawddwy. Y mae amllder enwau fel Cae Adda, Bryn Adda, &c., fel pe yn profi poblogrwydd yr enw yn yr hen amser gynt. Y mae yn amlwg y dechreuwyd arfer yr enw y'Ngogledd Cymru, o leiaf, yn adeg dyfodiad y Normaniaid, os nad, yn wir, cyn y cyfnod hwnnw.

Pan y cofiwn fod nifer fawr o gyfenwau Cymreig wedi eu ffurfio trwy ychwanegu *ab* neu *ap* at enwau personol Cymreig a Normanaidd, y mae yn ffaith ryfedd na chawn gyfenwau Cymreig wedi eu ffurfio yn yr un modd gydag enwau Ysgrythyrol, ag eithro Adam neu Adda, ac Ellis (yn tarddu o Elias), megys Bellis. Gwelir ar unwaith mai Ab Adam ydyw

J6354

Baddam: a tharddodd Batha, Batho, ac o bosibl Rather a Ryddir, o'r un ffynhonell. Fe all Bissicks fod yn gyfenw arall o'r un natur; ond nid oes genym dystiolaeth i gadarnhau y tarddiad awgrymedig, sef, Ab Isaac, &c. Ceir y cyfenw Bather yn Sir Ddinbych; ac y mae Byddir yn gyfenw yn Llan Dudoch, ger Aberteifi. Cawn gyfeiriad y'nghofrestr Cas Gwent at yr "Margarett, merch Amos John Baddam," o dan y dyddiad 3edd Ebrill, 1599.

Fel rhyw fath o wrthdystiad i'r awgrymiadau gor-wladgar a geir y'ngwaith anbell i fardd Cymreig, fe ddywed ambell i Gymro ffraeth, ond bob amser mewn dull chwareus, mai enw llawn preswlydd cyntaf Eden ydoedd "Adda Jones."

Blodeua Clement fel cyfenw yn Siroedd Caerfyrddin a Morganwg.

David, Davies, &c.—Ceir y cyfenw David yn gyffredin yn Neheudir Cymru, tra mai Davies, a ddeillia o hono, ydyw, yn nesaf at Jones, y cyfenw Beiblaidd mwyaf cyffredin y'Nghymru a Mynwy. Y mae yn amheus a oes yna bentref yn unrhyw un o'r tair sir ar ddeg heb fod rhyw Davies yn byw yno. Dywedai y Cofnodydd Cyffredinol (*Registrar General*), yn ei adroddiad yn 1853, fod Davies yn bumed ar ei restr o'r cyfenwau mwyaf cyffredin yn Lloegr a Chymru. Yr oedd Jones a Williams yn ail a thrydydd ar y rhestr hono. Priodolai safle y cyfenwau hyn ar ei restr i'w poblogrwydd y'Nghymru. Esboniai fod yr enw personol Dafydd yn perthyn "yn gwbl oll i ddyddiau Ceitaidd," a'i fod, "er yr adeg honno, wedi bod yn enw cenedlaethol nodweddiadol o'r Dywysogaeth. Taffy ydyw y ffurf adnabyddus o'r gair."

Nid oes neb bron yn awr y'Nghymru yn cael ei alw yn Dafydd wrth ei fedyddio, ond yn hytrach yn David, er mai Dafydd y'i gelwir yn fynych gan ei gymydogion. Nid ydym yn tybied fod Dafydd neu Davidd erioed wedi bod yn gyfenw parhaol y'Nghymru, er ei fod yn gyffredin ddigon o dan yr hen ddull Cymreig o enwi. Cawn, er engraipht, enw un "Richard Davidd," y'mysg tirfeddianwyr Lleyn yn 1675.

Nid ydyw Dewi, ffurf henafol David, wedi bod yn cael ei ddefnyddio fel enw personol am genedlaethau, os nad, yn wir, am ganrifoedd. Defnyddir Dewi weithiau fel ffug-enw gan y beirdd, ond dyna'r cwbl: er engraipht, enw barddonol y diweddar Barch. David Roberts, D.D., Gwrecsam, ydoedd Dewi Ogwen. Y mae yr enw David wedi bod yn boblogaidd y'Nghymru y'mhob oes er dyfodiad Cristionogaeth i Brydain, er fod ei ffurf wedi newid ychydig. Fe gollwyd y ffurf wreiddiol Gymreig Dewi, mae'n debyg, pan y defnyddiwyd Dafydd yn ei le gan gyfieithwyr y Beibl Cymraeg. Yr oedd nifer fawr o hen ffurfiau Cymreig ar enwau poblogaidd yr Ysgrhythyr un ai wedi peidio a bod ar dafod leferydd erbyn y cyfnod hwnnw, neu, o bosibl, mabwysiadodd cyfieithwyr y Beibl y ffurfiau cyfatebol presenol er mwyn amlygu eu gwrthwynebiad i'r Eglwys Babaid â pha un yr oedd yr hen enwau wedi ac yn cael eu cysylltu. Cyfeirio yr ydym at ffurfiau Cymreig boreuol ar enwau Ysgrhythyr a ddefnyddid cyn y Diwygiad yn amser Harri VIII., megys Y Frëam (Abraham); Caen (Cain); Io (Job); Sawel (Samuel); Selyf a Sele (Solomon); Sioseb (Joseph); Simwnt (Simon); &c. Fe barheid ac fe barheir i ddefnyddio yr hen enwau hyn gan y beirdd yn aml yn eu cyfeiriadau at gymeriadau y Beibl.

Dr. Richard Davies, cyfieithydd y Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg, ydoedd y cyntaf o'i deulu i ddefnyddio Davies fel cyfenw. Mab ydoedd i Dafydd ab Gronwy, curad Y Gyffin, ger Conwy. Ganwyd ef yn 1501, cysegrwyd ef yn esgob Llan Elwy yn 1559; wedi hynny symudwyd ef i Dŷ Ddewi, lle y bu farw yn 1581.

Diweddw'n ein sylwadau ar Davies trwy ddiffrn dwy enghraipht o'i boblogrwydd anffodus fel cyfenw y'Nghymru. Cymorir un engraipht o restr a wnawd y ganrif ddiweddaraf a'r llall o restr a gyhoeddwyd y flwyddyn ddiweddaraf (1899). Ymddengys fod yna 918 o bleidleiswyr seneddol yn Sir Drefaldwyn yn 1774 yn gwisgo cyfenwau Cymreig. Yr oedd 155 o honynt yn Jonesiaid, a 84 yn Daviesiaid. Nid oedd ond un pleidleisiwr yn arddel David fel cyfenw. Dywedir y' "Nghelt Llundain" am 25 Mawrth, 1899, mewn adolygiad ar lyfr a ysgrifenyddwyd ar blwyfdd Llan Geler a Phenboyr, gan Mr. D. E. Jones, Llandyssul, ac a gyhoeddwyd yn nechreu y flwyddyn 1899, fod yr adolygydd wedi cyfrif ymysg y tanyysgrifwyr i'r llyfr 37 o bersonau yn dwyn yr enw David Davies, 25 o John Daviesiaid, 12 o Evan Evansiaid, 38 o David Jonesiaid, a 41 John Jonesiaid! Y casgliad naturiol a wnaeth ysgrifenydd yr adolygiad gyda'r ffeithiau tarawiadol yma ydoedd, fod yn hen bryd i ni fel Cymry newid ein dull o gyfenwi, ac nis gallwn lai na dyfod i'r un casgliad yn union ag ef.

J6355

(delwedd J6355) (Gorffennaf 1900) (tudalen 167)

Elias.—Dywed Bardsley, yn ei *Romance of the London Directory*, fod yn ddigon hawdd profi mai Rhyfelwyr y Groes a ddaeth a'r enwau John ac Elias i gymeradwyaeth yn Lloegr. Os yr un ydyw yr enw henafol Cymreig Elisedd ag Elias, fe'i mabwysiadwyd gan y Brythoniaid pan ddaeth Cristionogaeth i Brydain; ac y mae er y pryd hynny wedi aros yn enw poblogaidd y'Nghymru mewn rhyw ffurf neu gilydd. (Gwel ymlaen dan Ellis).

Ceir y cyfenw Elias, fel rheol, yn Neheudir Cymru. Yr oedd John Elias, prif bregethwr Cymru, modd bynag, yn frodor o Fon. Newidiwyd ei enw gwreiddiol John Jones dan yr amgylchiadau canlynol. Yr oedd, pan yn ddyn ieuanc, yn awyddus am bregethu; a chynghorwyd ef i fyned i'r Seiat Fisol a gynhelid y' Mryn 'Rodyn. Pan glywodd y Parch. John Jones, Ederu, pregethwr enwog yn ei ddydd, mai enw y llanc ieuanc ydoedd John Jones, gofynodd beth oedd enw ei dad. Dywedwyd wrtho mai Elias Jones ydoedd. "N eno'r dyn," meddai, "gelwch y bachgen yn John Elias, onide ni a fyddwn yn John Jonesiaid i gyd yn y fan." Mabwysiadwyd yr awgrymiad hapus yma, a rhoddwyd i Gymru enw seraphaidd ac enw nodwedol o'i wrthrych. Y mae genym le i ddiolch i'r gwr da, craff, John Jones o Ederu, am yr enw gogoneddus hwn, enw a berthyn i Gymru gyfan, ac nid i un pentref neu fangre neillduol.

Ellis.—Dywed Lower, yn ei *Patronymica Britannica*, "nad oes feallai unrhyw enw a ganiatä yr un amrywiaeth mewn tarddiad, neu y fath nifer o ffurfiau gwahanol," ag Ellis. Hacra Mr. W. Smith Ellis, ar y llaw arall, yn ei *Third Supplement to Notices of the Ellises of England, Scotland and Ireland* (1875) fod "yn amheus, yn wir, a oes mwy nag un tarddiad i'r enw," er y cytuna fod llawer ffurf i'r enw; a rhydd enghreifftiau yn ei lyfr. Y mae genym, modd bynag, dystiolaeth i brofi fod Ellis, fel cyfenw Cymreig, yn tarddu yn ddiambheuol o'r enw henafol Cymreig Elisedd a'i ffurfiau gwahanol. Credwn fod tarddiad yr enw henafol yma i'w gael mewn ffurf Gymreig cynar am Elias neu Elisius ag sydd wedi bod yn anarferedig am genhedlaethau. Ni fuasai unrhyw un, er hynny, yn dal allan fod pob Ellis y'Nghymru i'w olrhain i'r ffynhonnell hon, oherwydd mae'n debyg fod yma rai teuluoedd o'r enw ag sydd wedi ei gael o ffynonellau eraill.

Y mae y gofyniad a ydyw pob Ellis yn tarddu o un cychwyniad ac o un yn unig, yn un nad ydym am geisio ei benderfynu; ond nis gall fod unrhyw amheuaeth o berthynas i wahaniaeth barn ysgrifenyddwr ar gyfenwau y'ngylch y peth. Gallasem roddi daliadau gwahanol amryw ysgrifenyddwr, megys Ferguson, Lower, Smith Ellis, Hals, De Breceigny, ac eraill, ar y mater; ond gan nad yw y rhai hyn yn ymdrin â'r cyfenw yn ei wedd Gymreig fel yr ydym ni am geisio gwneud, teimlem na fuasai hynny yn fuddiol ac y buasai eu gwahanol ddaliadau yn pendroni y darlennydd. Digon ydyw dweud fod y mwyafrif yn credu mai yr un ydyw Ellis ac Elias.

Yr ydym wedi cyfeirio yn flaenorol yn y papur hwn at Elisier Gosgordd-fawr, "Elasius," Elisied ab Rodri, ac Elisie fab Cynan. Yr un enwau yn ddiambheuol ydynt Elisier, Elisied ac Elisie; a chredwn mai ffurf Ladinaidd i'r un enw ydyw Elasyus. Dywed Mr. Egerton Phillimore fod Elisie, neu yn hytrach Elisied, Eliset, &c., (yn y rhai y saif y *d* neu *t* terfynol am *dd*) yn enw cyffredin mewn achau Cymreig. Ceir, er engraipht, y ffurfiau Elisied ac Eliset yn Llyfr Teilo. Y mae llawer ffurf i'r hen enw yma; a gellir yn hawdd olrhain ei gyfnwidiad i'r enw bedydd Ellis (ac felly i'r cyfenw) oddiwrth yr enghreifftiau sydd yn dilyn. Defnyddia Lewis Dwnn, yn ei *Heraldic Visitation of Wales* (cyf. II.) y tri ffurf Elisie (tud. 9), Elisie (tud. 16), ac Elisau (tud. 100) am "Elisied ab Rodri," neu Ellis, mab Anarawd, brenin Gogledd Cymru, ac ŵyr i Rodri Fawr, brenin Cymru (843–876). Y mae achau Syr Owen Pool o Harlech a theulu Clenenney, a roddir gan Dwnn yn yr un gyfrol, yn ddyddorol iawn i bob Ellis. Cawn (tud. 102) fod gan Syr Owen Pool dair merch, Elliw, Margaret a Catrin. Priododd Elliw "Elis Prys, un o'r Kyngor": ail wr Margaret ydoedd "Elisau ab Robert Wynn"; tra y priododd Catrin âg "William ab Elisau ab William o Drawsnydd." Darllenwn hefyd (tud. 156) fod un o henafiaid Arglwydd Harlech, a alwyd "Elisau ab Morys," o'r "Celynennau," ger Penmorfa, yn Sir Gaernarfon, wedi priodi, y'nghyntaf, Jonet, merch Syr James Owen; a ganwyd iddynt fab y cyfeirir atto fel "James Ellis, Dr. o'r gyvraith"; ac yn ail, Catherine, ferch "Prys Stanley," o'r hon y bu mab iddo a elwir "Morys ab Elisie." Y mae y cofnodiad dilynol, fod Morys ab Elisie wedi priodi "Elise v. Sr. John Puleston," yn hynod o awgrymiadol. Gwyddom fod ystyr Eliza yn Hebraeg yn bur agos i ystyr Elias neu Elisius; felly os ydyw Elisie yn hen ffurf Gymreig

J6356

(delwedd J6356) (Gorffennaf 1900) (tudalen 168)

o Eliza neu Elizabeth, gallwn yn rhesymol gasglu yr un modd mai Elise neu Elisedd ydyw yr hen ffurf Gymreig wreiddiol (neu darddiad o honi) o un ai Elias neu Eliseus, neu y ddau. Ymddengys y ffaith fod y ffurf Eliza hefyd yn cael ei defnyddio am Elise neu Elisedd fel pe yn cadarnhau y casgliad yma. Heblaw y rhai hyn, cawn y ffurfiau canlynol yn wastad mewn hen achau a choffyfrau Cymreig:—Elissey, Ellissey, Eliza, Elisa, Elis, Elys, Ellisser, &c. Rhown enghraifft o bob un yn y fan hon. Ceir Ellissey yn fynych iawn y'ngghofrestrau plwyfol Mallwyc am y blynyddoedd 1572, 1584, &c.: (gwel dyfyniadau y diweddar Charles Ashton yn *Bye-Gones* am Chwefror a Mawrth, 1899). Cyfeirir at Ellis, mab Madoc ap Meredith, tywysog Powys, yn *The Royal Tribes of Wales* gan Philip Yorke, fel Eliza, Elisa, ac Elis. Enwir un "Elys ap Mores" yn Mhapurau Cartrefol, &c., Harri VIII. (cyf. 5) am y diwyddyn 1531-32; a tlybir fod y llinell, "Gosgordd loyffordd Elisser," a geir y'mysg barddoniaeth y *Myrhyrian Archaeology*, cyf. I., tud. 424) yn cynwys cyfeiriad at esgyniad Elias. Os felly, yr un enw ydychydig Ellis ac Elias. Yr ydym wedi methu dod o hyd i unrhyw gyfeiriad yn llenyddiaeth Cymru cyn y Diwygiad yn amser Harri VIII. at y prophwyd Elias na'i olynydd Eliseus. Pe buasem wedi llwyddo yn hyn cawsem felly afael ar yr hen ffurf Gymreig am Elias neu Eliseus. Mae'n amlwg mai ffurf ddiweddar ydyw Eliseus, beth bynag a ellir ddweud am Elias. Cyfeiria Mr. O. M. Edwards, A.S., mewn erthygl yn *Cymru* (cyf. iv., tud. 15) at drais Elisri ab Madog yn gadael y tywysog Llewelyn ab Iorwerth er mwyn ymuno â'i elyn Gwennwynwyn, tywysog Powys. Cawn fod un "Griffith ap Ellice" neu "Griffith Ellice" yn rheithior Molesdale yn 1538: (gwel *Bye Gones*, cyf. xiii., tud. 204). Y dull Seisnig o ysgrifenu Elisedd ydyw Helised. Cyfeirir at Elisedd ab Tudyr, gwr mawr y'Mrycheiniog yn amser y Normaniaid, dan yr enw Helised, mewn ysgrifau Seisnig. Cawn enwau "Robert Wynn ab Elisa" a "Lewes Anwyl" yn arwyddo gweithred, yn Hydref, 1587, fel cyflafareddwyr rhwng dau foneddwr o Eifionydd, rhanbarth o'r wlad lle y bu trefn y *Scotch clan* gyda'i alanastra a thywalltiad gwaed yn teyrnasu am hir amser. Gwelir felly fod yr ymladdau hyn wedi rhoi ffordd erbyn y flwyddyn 1587 i foddion tangnefeddus cyflafareddiad. Ymddengys fod y ffurfiau uchod o Ellis wedi cael eu rhoi heibio yn nechreu y ganrif hon neu yn gynt.

Dywed Mr. Smith Ellis mai yr un enw ydyw Ellis a Lewis, a'u bod wedi dod o Ffrainc. Nid ydym o'r un farn ag ef; oherwydd ni fu Ellis a Lewis erioed yn un enw y'Nghymru, er y camgymerwyd Lewis am enw arall, Llewelyn, ambell i waith. Modd bynag, yr oedd Ellis yma ymhell cyn i'r Normaniaid dirio yn Mrydain. Dywed Mr. Smith Ellis fod "yr enw Ellis y'Nghymru yn un o'r rhai lleiaf poblogaidd o'i ddosbarth. Yn y ddwy gyfrol fawr o achau gan Syr Samuel R. Meyrick, y mae yr enw yn un cydmarol ddieithr. Nid ydyw i'w gael fwy na rhyw haner dwsin o weithiau yn y ddangoseg (*index*) i Goffyr Caernarfon, er y ceir Elydir 20 o weithiau, ac enwau eraill yn fynych."

Cyfeiria ysgrifenydd yn y *Notes and Queries* (7. S., cyf. v., tud. 227) at Ellis fel "un o'r ychydig gyfenwau ag sydd eto (1888) yn ddigonol i drigolion Criccieth." Nid ydym yn credu fod yr ysgrifenydd yn bwriadu cyfeirio y syniad fod Ellis yn enw gor-boblogaidd yn yr hen fwrdeisdref hono, oherwydd byddai y syniad yn un anghywir. Y mae y cyfenw Ellis yn bodoli i'r un graddau yn mhob tref yn Ngogledd Cymru o'r un boblogaeth â Chriccieth. Y mae yn gyfenw gweddol boblogaidd yn Ngogledd Cymru.

Ni wyddom a ydoedd Pellings, enw teulu y'ngodre'r Wyddfa ger Rhyd-ddu (yn hanner, fe ddywedir, o'r tylwyth teg) i'w olrhain i Ap Ellis neu i'r enw morwynol Penelope. Y mae traddodiad yn son am y ddau darddiad. Am fanylion o'r teulu rhamantus hwn, ag sydd yn awr, wrth gwrs, wedi pheidio a boe, gall yr anghrediniol ddarllen *Cymru* (1875) gan Owen Jones, ac hefyd erthygl ar "Forwyn y Llyn," gan Miss Lizzie Lewis, o Benygroes, yn *Cymru'r Plant* am Orphenaf, 1894.

Nis gallwn ddiweddu y nodiadau hyn heb gyfeirio at un o oreugwyr, ac ar yr un pryd, un o hoff blant Cymru, y diweddar Thomas Edward Ellis, A.S., yr hwn a gymerwyd ymaith oddiwrthym mor ddisymwth yn anterth ei nerth ar ol gyrfa ddisglaer. Achosodd ei farwolaeth ofid garw i ganoedd, a bu cenedl gyfan yn galaru ar ei ol. Bydd y cyfenw Ellis yn y dyfodol yn gysylltiedig y'Nghymru â'r Cymro enwocaf a mwyaf adnabyddus a fu erioed yn gwsgo yr enw, a bydd yn ysbrydiaeth i bob Cymro da i geisio gwasanaethu gwlad ei dadau gyda'r ffyddlondeb a'r yni ag ydoedd yn nodweddu llafur ac ymdrechion y gwladgarwr urddasol ac uchelfrydig a gollasom mor ddiweddar.

T. E. MORRIS (*Morus Glaslyn*).

CADBURY'S COCOA

ABSOLUTELY PURE, THEREFORE BEST.—The Standard of Highest Purity.—L

RHIF. 4.] HYDREF, 1900. [CYF. XVIII.



CYLCHGRAWN CHWARTEROL CENEDLAETHOL.

CYNHWYSIAD.

Diddanwch Llenyddiaeth. Gan	217
Alafon	
Eisteddfod Lerpwl. Gan Fugail y	222
Berwyn	
Rhangerdd: Arddfel (mam	
Dafydd ab Gwilym). Gan Cadvan	226
Llenyddiaeth Gymraeg y Ganrif	
Brechenol: pa un ai gwella ai	
gwaelu y mae? Gan Lew Llwyfo	231
Barddoniaeth y Parch. Lewis	
Edwards, D.D. Gan y Parch.	
Rhys J. Huws	235
Charles Ashton. Gan y Parch Evan	
Davies	239
Pulpud Cymru yr Haner Canrif di-	
weddaf. Gan Bedr Hir	244
A yw Gweinidogion yr Efenyl yn	
Offeiriad o dan y Testament	
Newydd? Gan y Parch. D. Jones,	
B.A.	247
Dyffryn Aled. Gan Drebor Aled	252
Ceulonydd. Gan y Parch. Charles	
Davies	256
Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol	
Merthyr Tydfil, Gorphenaf 1900.—(Anerchiad a draddedwyd	
yn yr Orsedd). Gan Watcyn	
Wyn	259
Anerch at Ieuencetud Cymru. Gan	
Eben Fardd.—(O Lyfrgell Myrdd-	
in Fardd)	262
Dyffryn Cynon. Gan Mr. Jenkin	
Howell	265

Trefnyddiaeth Wesleyaidd: Can-	
mlwyddiant y Gwaith Cymreig.	
Gan y Parch. William Hugh	
Evans (Gwyllt y Mynydd)	271
Cyfenwau Cymreig. — Cyfenwau	
Beiblaidd Cymru. Gan Mr. T.	
E. Morris, B.A., LL.M. (Morus	
Glaelyn)	274
"I godi'r hen Wlad yn ei hol."	
Gan Writhemyr	276
Haint y Nodau. Gan John Jones	280
"Sul Cyfri'r Chwarelwr." Gan	
Ben y Golwg	283
Cân Newydd i Eisteddfod Ola'r	
Ganrif. Gan Watcyn Wyn	286
Manion Eisteddfodol. Gan h o	
Peirdd	287
GOHERHARTH—	
Llenyddiaeth Gyfnodol Cymru.	
Gan Mr. John Davies, Y.H.	
(Gwyneddion)	293
Manion Barddonol. Gan Ddegi Teff,	
Gwilym Llafer, Meiriadog, Mr. R. A.	
Williams, Mr. T. Herbert Hughes,	
Aeronydd, Penllyn, Bariwyddon, Mr.	
R. Francis Williams, Brydir, Mr. M.	
Rosser, Celynab, Mr. Ellis Jones,	
Mr. W. R. Jones, Ieuan Dwyfach,	
Gwilym Dyfi, Machraeth Moa, Ieuan	
Ionawr, Hwfa Moa, Treforfab, Mr. J.	
Maethlon James, Ap Cledwen, Mr. T.	
O. Jones, Dwyfog, Mr. D. A. Davies,	
Mr. D. R. Davies, Ap Rhydderch.	

CAWENARFON: ARGRAPHWYD A CHYHOEDDwyd GAN GWYBODAETH WARS GENEDELAETHOL
CYMRU (CYF.), YN SWYDDFA'R "GENEDEL."

PRIS SWLIT Y MHPYD.—I'W DALU WYTH DI ODDEWYN.

(ALL RIGHTS RESERVED)
J6400

(delwedd J6400) (Hydref 1900) (clawr)

yn gabiwyr, yn erlidwyr, ac yn drahaus. Ond nid oedd dim sicrach nac amlycach na'u bod wedi cael trugaredd; ac nid ychydig o rai a fuasent gynt yn erlid, a droisant i bregethu y ffydd yr hon gynt a anrheithiasent. Ac er fod y nifer fawr sydd yn yr agiwysi yn bresenol wedi eu magu ynddynt, er hyny y mae eto lawer engraifft o arwyddion, a rhyfeddodau, a gweithred-oedd nerthol wedi eu gwneuthur trwy bregethiad efengyl gras Duw, yn y dyddiau diweddar hyn. Y mae "ein pobl yn marw yn dda," chwedl John Wesley, yn barhaus. Y mae y tystiolaethau diweddar yn aml ac yn sicr. Ac wrth i mi edrych dros y rhestr o gant a deunaw o weinidogion a fuont farw yn y Gwaith Cymreig—heb gyfrif Owen Davies, John Hughes, Jones, Bathafarn; David Rogers, John Jones, Corwen, ac eraill a fuont yn y Gwaith Cymreig, ond a ddiweddasant eu dyddian gyda'r Seison—nia ganiaf beidio a meddwl am luaws o honynt a adwaenais yn y geiriau hyny yn Malachi: "Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau: mewn hedd ac uniondeb y rhodiodd gyda mi, a llaweroedd a drodd efe oddiwrth anwiredd."

Rhyl.

WILLIAM HUGH EVANS.

CYFENWAU CYMREIG.

V. CYFENWAU BEIBLAIDD CYMRU.—(Parhad).

James.—Ceir y cyfenw hwn yn Neheudir Cymru ac yn enwedig mewn rhanau neillduol o Sir Benfro. Dywedir yn y *Landed Gentry*, gan Burke, fod traddodiad yn nheulu henafol Pant Saison yn y sir honno fod tri ar ddeg o William Jamesiaid wedi dal yr ystad yn olynol! Os yw hyn yn wir, rhaid fod James yn un o'r cyfenwau parhaol cyntaf y'Nghymru. Dywed Lower y ceir *James* gyntaf yn hanes y wlad yma yn *Llyfr Domesday*. Tardda yr enw Cymreig iago o'r Lladin *Jacobus*. Yr un ydyw *Jacob* ag *iago*.

Cyfenw yn Sir Gaerfyrddin—"yr hen Sir Gaer"—ydyw *Jeremy*.

John, Jones, &c.—Daeth yr enw bedydd John yn boblogaidd yn Lloegr oherwydd dylanwad Rhyfelwyr y Groes. Ni cheir yr enw John ond rhyw ddeng-waith yn *Llyfr Domesday*, tra y mae enwau megys William (68), a Walter (45), Robert (28), i'w cael mor aml a'r nifer a grybwyllir rhwng y cromfachau. Yr oedd yr enw John yn boblogaidd y'Nghymru yn y flurf Ieuan, yn mhell cyn tymor Rhyfeloedd y Groes; ac y mae yn ddyddorol nodi, tra y cawn Ieuan yn hynod o fynych y'Nghoflyr Caernarfon, na cheir John ond un-waith fel talfyriad y tro hwnnw o Johannus. Ceir y cyfeiriad ato, sef "Gawell y Troyndon John. Bedw," o dan enw lle yn Meirioneth ("Merycneth"). Y mae y cyfenw John, a gododd yn Neheudir Cymru, bron yn gyfyngedig i'r hanner honno o'r Dywysogaeth. Feallai mai nid y'Nghymru y mae mangre genedigol y cyfenw Jones; ond yn sicr y'Nghymru y mab-wysiadwyd ef, ac yma y mae ei wir gartref. Enw noeth yw Jones y'Nghymru, oherwydd nid ydyw ei fynychder byth-gynyddol yn trosglwyddo unrhyw syniad o wahaniaethiad; ac y mae yn ffunhonnell annhrefn di-ddiwedd. Nid ydym yn tybied y gall Llanfyllin ymfrostio mewn mwy o deuluoedd yn dwyn yr enw Jones nag unrhyw dref arall o'i maint y'Nghymru: y mae y Wasg, er hynny, wedi talu sylw neillduol yn ddiweddar i Jonesiaid y dref hon. Yr ydym yn rhoi dau ddifyniad o bapurau newyddion Lerpwl. Ymddangosodd y cyntaf yn yr *Echo*, yn Ionawr, 1899, a'r llall yn y *Post* am Mawrth, 1899,—y naill fel y llall o dan y penawd, "Y Cwbl yn Jones."

(1). "Cymerodd digwyddiad ysmala le heddyw yn Llys Bach, Llanfyllin, yn codi o'r flaith fod amryw o bersnau yn dwyn yr un enw; a bu difyrwch mawr ar bob llaw pan y datguddiwyd y cyd-ddamweiniad. Deuwyd a chwyn gan feistr y tloty lleol, o'r enw Mr. Aubrey Jones, yn erbyn rhyw grwydryn o'r enw John Jones, am wrthod gwneud ei waith gosodedig. Enw yr heddegidwad oedd yn edrych ar ol y diffynydd oedd Jones, a'r porthor (*porter*) a roddodd dystiolaeth a arwyddodd ei enw yn John Jones. Dywedai Mr. John Jones, yr ustus heddwch, pan yn pasio y ddedfryd, y byddai, am un diwrnod ar hugain, o leiaf, un Jones yn llai yn Llanfyllin."

(2). "Rheolir Llanfyllin yn Maldwyn gan Jones. Y mae y Cyngor Trefol yn llawn o honno. Dyna Mr. C. R. Jones, y Maer; y Cyngorwyr J. Jones; C. R. Jones; T. R. Jones; R. H. Jones; ac R. Jones; tra y mae y swyddog meddygol hefyd yn unig Jones. Y mae ar 20 o Gynghorau Trefol Cymru 46 o Jonesiaid, 33 o Daviesiaid, 23 o Williamsiaid, 19 o Evansiaid, 16 o Hughesiaid, ac 16 o Thomasiaid. Ystyrir ef yn beth diogel y'Nghymru i ymwelwyr anerch y dinesydd cyntaf a gyferfydd gyda 'Boreu da, Mr. Jones.'"

Rhaid gadael Jones ar hyn, oherwydd traethwyd llawer am dano yn flaenorol yn yr ysgrifau hyn. Gobeithiwn y bydd cyfnewidiad buan—cyfnewid-

iad graddol, feallai—yn ein dull Cymreig o gyfenwi, fel mewn haner can mynedd eto, y bydd yr oll o'r cyfenwau cyffredin hyn y'Nghymru, pa un ai Beiblaidd ai ynte Normanaidd, wedi myned yn amhoblogaidd, ac y bydd cyfenwau gwir Gymreig neu Geltaidd, rhai da a swynol, wedi cymeryd eu lle. (Gweler hefyd y nodyn ar *Davies*).

Nicholas, Nichol, &c.—Cyfenw newydd, mewn ffordd, ydyw *Nicholas* a geir yn *Neheudir Cymru*, tra y mae ei ffurfiau *Nichol, Nichols, &c.*, a geir y'*Morganwg* a *Mynwy*, ymysg cyfenwau parhaol hynaf y siroedd hyn. Cododd y cyfenw yn ei ffurf wreiddiol i fri trwy ddylanwad diwygiadau crefyddol y ganrif hon a'r ganrif ddiweddar, tra y daeth yr enwau tarddedig o honno i Gymru o ffynonellau Normanaidd. Yr oedd un o esgobion *Llan Daf*, a gysegrwyd yn 1147, yn dwyn yr enw *Nicholas* ap *Gwrgant*. Brawd ydoedd i *Iestyn, Tywysog Morganwg*. Yr oedd yr esgob hwn, a fu farw yn 1183, yn nodedig am ei dduwioldeb ac am ei serch tuag at ei gyd-wladwyr.

Ceir y cyfenwau *Matthew, Matthews, &c.*, trwy Gymru oll, tra y cyfyngir y cyfenw *Matthias* bron yn gwbl oll i Sir Benfro. Cawn un *Mathew* ap *Ievan* ap *Iorwerth* ymysg y rhai a arwyddodd freinlen *John, Arglwydd Mawddwy*, yn 1391.

Phebbie.—Y mae y cyfenw hwn i'w gael yn *Abergwaun*, ac, efallai, mewn manau eraill. Y mae, o bosibl, yn egluro mabwysiad enw y fam neu y nain (*Phebe*) fel cyfenw, yn lle enw y tad neu y taid, neu, feallai, fod y cyfenw yn codi o lysenw a roddwyd i rywun ar ol ei fam. Y mae llysenwi felly yn ddigon cyffredin y'Nghymru, yn enwedig yn *Ffestiniog* a lleoedd poblog eraill y'Nghymru.

Y mae *Philip, Phillips, &c.*, fel *Matthew, Matthews, &c.*, yn gyfenwau a fu ac y sydd yn blodeuo yn y Dywysogaeth er adeg foreu. Darllenwn, mewn marwnad ar y bardd *Trehaearn ap Gronwy*, gan *Gwilym Ddu* (tua 1280—1322) am "*Phylip a Gwilym aethlwm wythlawn*." Yr oedd y rhai hyn yn sicr o fod yn Geltaidd. Yr oedd un "*Philip ab Llewelin*" yn byw yn *Llantrisant* yn 1262. Enwir *Philip* arall yn *Llawysgrifau Iolo* yn byw yn yr un ardal yn 1390.

Simon, Simons, Symons, &c.—Y mae *Simon* fel cyfenw yn fwy anaml yn y Dywysogaeth nag y buasem yn disgwyl. Y mae yn debyg ei fod fel enw bedydd yn fwy poblogaidd genedlaethau yn ol nag y mae yn awr. Un o feirdd goreu Cymru oedd *Simwnt Vychan*. Yr oedd yn bresenol yn *Eisteddfod Caerwys* yn 1568, ac yn un o'r pedwar bardd a gafodd brif radd o "*Benceirddiad o'r Gerdd Davod*." Cartrefai yn *Llan Elidan* yn Sir *Ddinbych*, lle y bu farw yn y flwyddyn 1606.

Thomas ydyw un o gyfenwau mwyaf poblogaidd Cymru; a theyrnasa yn ddi-her yn *Morganwg*. Y mae poblogrwydd *Thomas* fel enw bedydd i'w briodoli yn flaenaf i boblogrwydd *Thomas à Becket*; oherwydd ni ddefnyddid yr enw fawr cyn y Gorchfygiad Normanaidd. Bu dau esgob o'r enw yma yn *Nhy Ddewi* yn y drydedd ganrif ar ddeg, sef *Thomas Walin* a *Thomas Beck*. Y mae poblogrwydd *Thomas* fel cyfenw y'Nghymru i'w briodoli, wrth gwrs, i'r ffaith ei fod yn boblogaidd cynt fel enw bedydd. Cwynai ysgrifenydd yn y *Notes and Queries* yn 1858 fod dau ddyn o'r enw *John Thomas* yn dal sefyllfaoedd swyddogol o'r un natur yn yr un ardal y pryd hwnnw; a chan fod y ddau "yn debyg i'w gilydd mewn llawer modd," yr oeddynt yn wastad yn cael eu camgymeryd y naill am y llall. Y mae yr enw *John Thomas*, a'i wrth-enw *Thomas Jones*, yn hynod o gyffredin y'Nghymru. Y mae amryw o Gymry enwog wedi bod yn gwisgo y cyfenw hwn. Daw enwau dau frawd, pregethwyr mawr a nerthol yn eu dydd, i feddwl y darlennydd; cyfeirio yr ydym at y *Parchn. Owen* a *John Thomas*, y ddau o *Lerpwl*. Y mae yn ffaith ddyddorol bod yna dri aelod seneddol yn *Neheudir Cymru* yn dwyn y cyfenw yma, sef y *Mri. Alfred Thomas*, *Abel Thomas, Q.C.*, a *D. A. Thomas*.

Ceir *Titus* fel cyfenw yn Sir *Aberteifi*, tra y defnyddir *Tobias* i'r un amcan yn y sir gyfagos, sef *Caerfyrddin*.

Yr ydym wedi ceisio profi yn yr ysgrifau hyn fod ystyron cyfenwau Beiblaidd yn llawn o ddyddordeb; a gobeithiwn fod darlleniad o honnynt wedi peri difyrwch i'r darlennydd ac wedi bywiogi ei ddyddordeb mewn testyn ag sydd yn galw am sylw manylaf pob Cymro a Chymraes ag sydd yn caru diwygiad trwyadl, yn mha le bynag neu bryd tynag y mae gwir angen am dano.

Porth Madog.

T. E. MORRIS (MORUS GLASLYN).

J6359

DIWEDD / FI / END